

O! tyn y gorchudd: Clasur Cyfoes?

Traethawd MPhil

Bethan Mair Williams

Prifysgol Aberystwyth

2013

I Angharad

Agoraist len d'orffennol – yn gywrain
mewn geiriau dychmygol;
a gwefr perthyn yw'r gyfrol
i ddoe ein hil na ddaw'n ôl.

Richard Llwyd Jones

DATGANIAD

Nid yw sylwedd y gwaith hwn wedi cael ei dderbyn o'r blaen ar gyfer unrhyw radd, ac nid yw'n cael ei gyflwyno ar yr un pryd wrth ymgeisio am unrhyw radd.

Llofnod (ymgeisydd)

Dyddiad

GOSODIAD 1

Canlyniad fy ymchwiliadau i yw'r gwaith hwn, oni nodir yn wahanol.

Cydnabyddir ffynonellau eraill mewn troednodiadau sy'n rhoi cyfeiriadau eglur.

Atodir llyfryddiaeth.

Llofnod (ymgeisydd)

Dyddiad

GOSODIAD 2

Yr wyf, drwy hyn, yn rhoi caniatâd i'm gwaith, os yw'n cael ei dderbyn, fod ar gael i'w lungopïo ac ar gyfer benthyciadau rhwng llyfrgelloedd, ac i'r teitl a'r crynodeb fod ar gael i gyrrff allanol.

Llofnod (ymgeisydd)

Dyddiad

Diolchiadau

Hoffwn yn gyntaf ddiolch i'm cyfarwyddwr, Huw Meirion Edwards, am ei holl gymorth, ei gefnogaeth a'i amynedd wrth imi lunio'r traethawd hwn. Diolch i staff Adran y Gymraeg, Prifysgol Aberystwyth am eu cymorth. Diolch i bawb a atebodd yr holiadur neu a'm cynorthwyodd i'w ddsbarthu. Diolch i Angharad Price a Catrin Jones am ateb fy nghwestiynau. Diolch i'm cyd-fyfyrwyr MPhil am y cwmni a'r gefnogaeth. A diolch yn fawr i Rhys a Heledd am eich amser a'ch cymorth.

Crynodeb

Yn y traethawd hwn, edrychir ar *O! tyn y gorchudd*, Angharad Price ac ar dderbyniad y nofel er pan enillodd y Fedal Ryddiaith yn 2002 gan ddadansoddi pam y caiff ei galw'n 'glasur cyfoes'. Yn y bennod gyntaf, olrheinir hanes a datblygiad cystadleuaeth y Fedal Ryddiaith er 1939, blwyddyn ei sefydlu. Edrychir ar sut y gwnaeth Angharad Price ac awduron eraill feithrin eu dawn trwy gystadlu a sut y gwnaeth y gystadleuaeth ddatblygu o ran ei phoblogrwydd a'i gwerth ar hyd y blynyddoedd wrth gystadlu yn erbyn seremonïau mawreddog y Gadair a'r Goron. Dadansoddiad o'r nofel ei hun a geir yn yr ail bennod, lle y trafodir y themâu a'r arddull a dyfais y traethydd, Rebecca, gan fynd i'r afael hefyd â'r cyfieithiad i'r Saesneg, y CD a'r cyfieithiad Braille. Mae'r bennod olaf yn ddadansoddiad o ymatebion yr holiaduron a ddsbarthwyd gan ddehongli atebion y darllenwyr cyffredin i'r nofel. Trafodir gwendidau a chryfderau'r nofel a'r effaith y mae ei phoblogrwydd wedi'i chael ar deulu Tynybraich. Rhoddir sylw hefyd i nodweddion ieithyddol y nofel a sut y mae'n cymharu â rhai nofelau Cymraeg poblogaidd eraill, gan geisio adnabod y nodweddion hynny sy'n peri iddi gael ei hystyried gan lawer yn glasur ac yn un o nofelau mwyaf poblogaidd ein cenhedlaeth.

Cynnwys

1. Rhagymadrodd.....	1
2. Pennod 1: Y Fedal a'r Eisteddfod.....	11
3. Pennod 2: Dadansoddi <i>O! tyn y gorchudd</i>	37
4. Pennod 3: Dadansoddi'r Holiaduron.....	70
5. Casgliad.....	104
6. Llyfryddiaeth.....	111
7. Atodiad 1 – Holi Angharad Price.....	119
8. Atodiad 2 – Copi o'r Holiadur.....	123
9. Atodiad 3 – Rhagor o wybodaeth am yr ymatebwyr.....	127
10. Atodiad 4 – Atebion Cwestiwn 18 yr holiadur yn eu cyfanwydd.....	130

Rhagymadrodd

Sut rydym ni'n diffinio clasur? Beth a ystyriwn yn 'glasuron' yn ein byd? Ffilmiau, nofelau, barddoniaeth, ceir? Dywed *Dictionary.com* mai un diffiniad yw '*an author or a literary work of the first rank, esp. one of demonstrably enduring quality*'.¹ Dywed *Answers.com* mai '*A work recognized as definitive in its field*'² ydyw. Hefyd, disgrifiad Geiriadur Prifysgol Cymru yw 'Gwaith o'r dosbarth blaenaf mewn llên neu mewn celfyddyd, gwaith coeth a gorffenedig'.³ Felly, sut y gallwn ni ddiffinio clasur ar gyfer ein byd llenyddol ni yma yng Nghymru? Daw rhai awduron i'r meddwl yn syth megis Kate Roberts, T. H. Parry-Williams, Waldo Williams a Caradog Prichard. Ond beth sy'n gwneud eu gwaith hwy mor gofiadwy gan gyffwrdd â miloedd o bobl ar hyd a lled Cymru a'r tu hwnt? Rydym ni yma yng Nghymru yn ffodus bod gennym draddodiadau a diwylliant cyfoethog, a bod llawer ohonom yn gwerthfawrogi ein llenyddiaeth a'n barddoniaeth. Yn gyson, gwelwn awduron ifanc yn dod i'r amlwg, a chredaf fod eisteddfodau mawr a bach yn gyfrifol am i lawer ohonynt ddod yn adnabyddus. Mae'n wir dweud mai trwy'r Eisteddfod Genedlaethol y derbyniodd Angharad Price y sylw a'i gwnaeth yn adnabyddus drwy Gymru fel awdures greadigol. Bu'n weithgar iawn cyn hyn, wrth gwrs, gan gyhoeddi adolygiadau, straeon byrion, gwaith academaidd ac ati, ond drwy ennill y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Genedlaethol Tyddewi yn 2002 y daeth i'r amlwg fel nofelydd ac awdures ifanc. Mae ei nofel *O! tyn y gorchudd*,⁴ a enillodd y Fedal Ryddiaith, wedi mynd o nerth i nerth er pan y'i cyhoeddwyd yn 2002. Mae llawer o Gymry wedi'i gwerthfawrogi ac wedi cael eu hudo ganddi.

¹ dictionary.reference.com/browse/classic. Ymwelwyd ar 10/10/2010.

² <http://www.answers.com/topic/classic#ixzz1CngjucNF>. Ymwelwyd ar 10/10/2010.

³ R. J. Thomas (gol.) *Geiriadur Prifysgol Cymru*, Cyfrol 1 (Caerdydd 1950-67), t. 491.

⁴ Angharad Price, *O! tyn y gorchudd* (Llandysul, 2002), (cyfeirir ato fel OTYG o hyn ymlaen).

Fe ddarllenais i'r nofel *O! tyn y gorchudd* tra oeddwn yn yr ysgol ychydig o flynyddoedd wedi iddi gael ei chyhoeddi. Roeddwn tuag un ar bymtheg oed ar y pryd ac fe gefais fy nghymhell i'w darllen gan fy athrawes Gymraeg. Nid oeddwn ar y pryd yn ymwybodol o Angharad Price nac yn ymwybodol o'r nofel ei hun na'i bod wedi ennill y Fedal Ryddiaith, ond penderfynais ei darllen beth bynnag. Cefais fy ngwfreiddio. Ymserchais yn y nofel o'r cychwyn cyntaf. Ond pam? Beth a wnaeth i mi, a sawl un arall, ddarllen y nofel yma a'i gorffen wedi ein swyno?

Yng nghyflwyniad Jane Aaron i'r cyfieithiad Saesneg o'r nofel, dechreuir trwy ofyn y cwestiwn 'Beth sy'n gwneud nofel yn glasur?'⁵ gan symud ymlaen i sôn sut y daw nofel i gael ei hystyried yn 'glasur', sef trwy dderbyn 'cymeradwyaeth dros gyfnod hir'⁶. Pwysleisir, serch hynny, fod beirniaid wedi cyfeirio at y nofel hon fel 'clasur' sawl tro er ei chyhoeddi namyn deuddeng mlynedd yn ôl. Mae llu o adolygiadau Cymraeg yn ei chanmol ac mae nifer o adolygiadau Saesneg (ar y cyfieithiad uniaith Saesneg a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2012), yn defnyddio'r gair 'classic' i'w disgrifio, er enghraifft 'Widely hailed as the first Welsh classic of the 21st century'⁷, a 'The Life of Rebecca Jones has all the makings of a classic'.⁸ Felly beth yn union yw natur 'clasur' mewn gwirionedd? A pha ffactorau sydd wedi cyfrannu at natur 'glasurol' *O! tyn y gorchudd*? Er mwyn ceisio deall hyn mae'n bwysig ceisio mynd i'r afael â beth yn wir yw hanfodion 'clasur'. Yn ôl John Sutherland:

'Classic' is a category that defines what we regard as culturally important; what, when all else goes under, must be preserved...⁹

⁵ Cyflwyniad Jane Aaron, *O! Tyn y Gorchudd, The Life of Rebecca Jones*, cyfieithiad gan Lloyd Jones (Llandysul, 2010), t. x.

⁶ *Ibid.*

⁷ <http://www.independent.co.uk/arts-entertainment/books/reviews/the-life-of-rebecca-jones-a-novel-by-angharad-price-trans-lloyd-jones-7660996.html>. Ymwelwyd ar 06/09/2013.

⁸ <http://www.goodreads.com/book/show/13501245-the-life-of-rebecca-jones>. Ymwelwyd ar 06/09/2013.

⁹ John Sutherland, *50 literature ideas you really need to know* (London, 2011), t. 17.

Wrth ddarllen llyfrau megis *100 Must-Read Classic Novels*¹⁰ gan Nick Rennison, a *The Pocket Guide to Classic Books*¹¹ gan Maureen Hughes, gwelir eu bod hwythau'n dechrau trwy ofyn y cwestiwn beth yw clasur neu beth sy'n creu clasur, ac yn wir, amwys iawn yw'r ateb yn y ddau lyfr. Mae'r ddau'n sôn am y gwahanol ffactorau y gellir eu hystyried wrth geisio diffinio nofel yn 'glasur', megis:

...they continue to provide exciting ways of entering the emotional experience of a vast range of people from all sorts of countries, backgrounds, periods of history and kinds of society.¹²

Ar ôl cryn bwysu a mesur gan Maureen Hughes, daeth i'r casgliad nad oes ateb cywir i'r cwestiwn mewn gwirionedd:

...the tunnel was in sight and a chink of light was penetrating the darkness, and all thanks to the fact that there is no correct and definitive answer. The penetrating light was the realisation that there are obviously some books which without doubt are very popular now, but you know instinctively that they won't pass the test of time and be read in their thousands hundreds of years hence.¹³

Dyma gwestiwn teilwng i'w ofyn, sef a fydd *O! tyn y gorchudd* yn gallu goroesi am flynyddoedd mawr i ddod? A fydd gwerth y nofel yn dwysáu ymhen blynyddoedd, yn enwedig o gofio bod y ffordd o fyw sy'n destun i'r nofel yn prysur ddiffannu o ganolbarth Cymru a thu hwnt? Yn yr holiaduron, mae rhai'n sôn bod angen rhagor o amser ar y nofel i ddatblygu ac i gael ei gwerthfawrogi'n iawn. Ai dyma ddechrau'r daith yn unig i *O! tyn y gorchudd* felly?

Dyma ateb o holiadur #45:

¹⁰ Nick Rennison, *100 Must-Read Classic Novels* (London, 2006).

¹¹ Maureen Hughes, *The Pocket Guide to Classic Books* (Barnsley, 2010).

¹² Nick Rennison, *100 Must-Read Classic Novels* (London, 2006), t. xii.

¹³ Maureen Hughes, *The Pocket Guide to Classic Books* (Barnsley, 2010), tt. 4-5.

Mae hi'n dal ei thir ac fe dybiwn i y gwnaiff ennill mwy o dir.¹⁴

Tebyg oedd ymateb holiadur #9 hefyd:

Wrach y cymrith amser cyn i bobl lwyr sylweddoli ar [sic] ei gwerth.¹⁵

Mae rhai o'r ymatebwyr yn cyfeirio at y nofel fel 'clasur', ac yn dweud eu bod wedi mwynhau'r nofel yn fawr ac yn ei hargymell i bawb:

I mi, mae'n glasur o nofel ac yn ben ac ysgwydd uwchlaw pob un arall rwyf wedi darllen.¹⁶

Gan fynd yn ôl at ddyfyniad Nick Rennison uchod, lle mae'n diffinio clasuron fel nofelau sy'n darparu ffyrdd cyffrous o brofi bywydau amrywiaeth o bobl o bob math o gefndiroedd, teimlaf fod hyn yn atseinio cynnwys *O! tyn y gorchudd*, a chredaf mai dyma un o'r prif resymau y mae fersiwn Saesneg y nofel yn denu cymaint o sylw ac o adolygiadau canmoliaethus. Mae'n nofel sy'n darlunio bywyd sy'n ddieithr i lawer o bobl heddiw, bywyd na fydd y rhan fwyaf ohonynt fyth yn ei brofi, ac felly mae'n cynnig cipolwg dadlennol ar y bywyd hwn iddynt. Dywedodd Jane Aaron yn ei chyflwyniad hefyd:

Efallai y gellid dod o hyd i'r ateb yn y berthynas rhwng y disgrifiad coeth o fywyd cefn gwlad Cymru yng nghorff y testun a'r tro ysgytwol yn ei gynffon.¹⁷

Gwelwn felly fod y gair 'clasur' yn cael ei ddefnyddio'n aml wrth ddisgrifio *O! tyn y gorchudd*, ac mae'r nofel wedi'i chynnwys yn y gyfres 'Clasuron' a ddarllledwyd ar BBC Radio Cymru yn ddiweddar. Darllledwyd *O! tyn y gorchudd* yn rhan o'r gyfres yn

¹⁴ Ateb holiadur #45.

¹⁵ Ateb holiadur #9.

¹⁶ Ateb holiadur #1.

¹⁷ Cyflwyniad Jane Aaron, *O! Tyn y Gorchudd, The Life of Rebecca Jones*, cyfieithiad gan Lloyd Jones (Llandysul, 2010), t. x.

2009, ynghyd ag *Y Stafell Ddirgel*, *Monica*, *Wele'n Gwawrio*, *Un Nos Ola Leuad*, *Atyniad*, *Te yn y Grug*, *Martha*, *Jac a Sianco* ac eraill.¹⁸

Daw Dr. Angharad Price yn wreiddiol o Fethel ger Caernarfon. Wedi iddi adael Ysgol Brynrefail, Llanrug aeth i Rydychen i'r Brifysgol i astudio leithoedd Modern. Aeth ymlaen i astudio ar gyfer doethuriaeth, y tro hwn gan ganolbwyntio ar y Gymraeg, ac yn benodol ar agweddau ar ryddiaith Gymraeg ddiweddar. Wrth geisio ei sefydlu ei hun fel awdures, ymgeisiodd am y Fedal Ryddiaith ddwywaith cyn ei hennill yn 2002 am ei nofel *O! tyn y gorchudd*. Cafodd wobr Llyfr y Flwyddyn yn 2003 am y nofel hon a hi a enillodd wobr y Llyfr Cymraeg Gorau yng Ngŵyl y Gelli yn 2003 hefyd. Cyhoeddodd nofel cyn hyn, sef *Tania'r Tacsî*¹⁹ ym 1999, ac ymddangosodd ei thrydedd nofel, *Caersaint*²⁰ yn 2010.

Yn ogystal ag ysgrifennu nofelau, mae Angharad Price hefyd wedi ysgrifennu storïau byrion, llyfrau academiaidd, erthyglau, ysgrifau ac adolygiadau. Yn wir, mae'n fwy na bodlon troi ei dawn at unrhyw fath o *genre*, fel y gellir ei weld o'r amrywiaeth o gyhoeddiadau ganddi mewn cylchgronau megis *Barn*, *Tu Chwith*, *Yr Aradr*, *Taliesin* ac yn y blaen. Erbyn hyn, mae'n ddarlithydd profiadol sydd wedi addysgu mewn amryw o brifysgolion. Bu'n darlithio yn y Gymraeg ac mewn Almaeneg ym Mhrifysgolion Caerdydd, Abertawe ac yn Fienna cyn symud yn ôl i'w hardal enedigol i ddarlithio ym Mhrifysgol Bangor yn 2006.²¹

Er mai yn ardal Caernarfon y ganwyd ac y magwyd Angharad Price, daw ei mam yn wreiddiol o fferm Tynybraich, Cwm Maesglasau ger Dinas Mawddwy, Meirionnydd.

¹⁸ <http://www.bbc.co.uk/programmes/b007scy9/broadcasts/2010/11>. Cyfres 'Clasuron' BBC Radio Cymru. Ymwelwyd ar 22/03/2014.

¹⁹ Angharad Price, *Tania'r Tacsî* (Llandysul, 1999).

²⁰ Angharad Price, *Caersaint* (Talybont, 2010).

²¹ <http://www.bangor.ac.uk/ysgolygymraeg/staff/angharad.php.cy>. Ymwelwyd ar 15/01/2011.

Dyma'r teulu sy'n ganolbwynt i nofel *O! tyn y gorchudd*, sy'n adrodd hanes teulu ei thaid a'i frodyr dall o safbwynt eu chwaer, Rebecca Jones.

Disgrifia Angharad Price ei nofel ar y tudalen teitl fel *Hunangofiant Rebecca Jones*, ond nid yw'r nofel hon yn syrthio i gategori'r hunangofiant cyffredin o bell ffordd. Ceir diffiniad gan *Gale Dictionary of Psychoanalysis* – '*As a literary genre, autobiography, narrating the story of one's own life, is a variation of biography, a form of writing that describes the life of a particular individual.*'²² Yn wir, wrth imi edrych mewn siopau llyfrau ac ar wefannau megis *Gwales* a *Waterstones*, gwelaf yr un mathau o hunangofiannau yn dod i'r fei o hyd, sef yr hunangofiannau gan bobl adnabyddus am eu bywydau nhw, er enghraifft *Hanner Amser – Hunangofiant Nigel Owens*²³ a gafodd gryn dipyn o sylw pan y'i cyhoeddwyd yn ddiweddar. Yma, caiff yr awdur y rhyddid i drafod ei hanes a'i orffennol ei hun mewn modd mor agored ag y myn:

Life writers are free to tell a story – but they have a contract with the reader not to invent, to tell as far as possible what actually happened. And they must tell it despite material that is often unknowable or intractable.²⁴

Math arall o hunangofiant yw'r un lle y caiff hanes yr awdur ei blethu i mewn i nofel, er enghraifft *Y Lôn Wen*,²⁵ Kate Roberts, a *Hi a Fi*,²⁶ Eigra Lewis Roberts. Mae'r math yma o hunangofiant yn nes at yr hyn sydd gan Angharad Price yn ei nofel hithau, ond eto, nid yn hollol ychwaith. Credaf fod Angharad Price wedi torri tir newydd wrth ysgrifennu *O! tyn y gorchudd*. Dywed Robin Llywelyn yn ei feirniadaeth ar gyfer y Fedal Ryddiaith:

²²Gale Dictionary of Psychoanalysis: Autobiography. <http://www.answers.com/topic/autobiography>. Ymwelwyr ar 11/10/2010.

²³ Nigel Owens, *Hanner Amser – Hunangofiant Nigel Owens* (Talybont, 2008).

²⁴ Sally Cline, Carole Angier, *The Arvon Book of Life Writing, Writing Biography, Autobiography and Memoir* (London, 2010), t.1.

²⁵ Kate Roberts, *Y Lôn Wen* (Dinbych, 1960).

²⁶ Eigra Lewis Roberts, *Hi a Fi* (Llandysul, 2009).

Ar un wedd, mae hwn yn hunangofiant traddodiadol nes deall i'r prif gymeriad, Rebecca Jones, farw yn 11 oed ac mai dychmygu'r bywyd na chafodd hi mo'r cyfle i'w fyw a wneir yma. Gellir ei weld hefyd fel hunangofiant cwm Maesglasau ym mherfeddion mwynder Maldwyn.²⁷

Llwydda Angharad Price i gyfuno dwy *genre* gyda'i gilydd yma, ac roedd beirniaid y gystadleuaeth wedi eu hudo gan y gwaith. Roedd wedi creu gwaith arloesol, gan ddod â rhywbeth ffres a newydd i lenyddiaeth yng Nghymru. Yn 2003, traddododd T. Robin Chapman ddarlith i Gyfeillion Llyfrgell Genedlaethol Cymru, ac yno mae'n trafod cofiannau Cymraeg cyfoes, gan dynnu sylw at eu dyfodol, at y proses o lunio cofiannau ac at yr holl waith ymchwil sy'n rhan o'r proses:

Mae angen darllen pum mil o eiriau, mae'n debyg, am bob cant sy'n gweld golau dydd yn y gyfrol orffenedig.²⁸

Mae'n cloi gyda sylw cadarnhaol:

Oes dyfodol i'r cofiant Cymraeg, felly? Oes, yn bendant. Er gwaethaf natur ddi-ail-gynnig y ffurf, ymyrraeth o du golygyddion, a'r hen ffordd Gymreig o fyw, mae chwilfrydedd cofianwyr a chwilfrydedd dirprwyol darllenwyr – ac ysfaf'r ddau am stori dda – yn anorthrech.²⁹

A stori dda sy'n bwysig yn anad dim. Mae angen stori dda wrth ysgrifennu unrhyw fath o waith. Mae angen i awduron ddefnyddio eu dawn a'u crefft wrth, er enghraifft, greu hunangofiant i unigolyn a fu mewn gwirionedd farw'n ifanc. Dawn a chrefft arbennig yw gallu creu bywyd i'r ferch fach a fu farw yn 11 oed, ond fel y dywed Angharad Price mewn cyfweiliad ar raglen deledu 'Wedi 6' ychydig wedi'r Eisteddfod, yr oedd wedi defnyddio Rebecca fel 'rhyw fath o ddyfais a dweud y gwir i rychwantu yr ugeinfed ganrif'.³⁰ Dyma beth sy'n gwneud y nofel yn un unigryw, un sy'n aros yn

²⁷ *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau* Eisteddfod Genedlaethol 2002. Y Fedal Ryddiaith. Gol. J. Elwyn Hughes (Llandybie, 2002), t. 119.

²⁸ T. Robin Chapman, 'Rhyw fath o fywyd: cofiannau Cymraeg cyfoes', *Y Traethodydd*, rhif 677 (Ebrill 2006), t. 69, tt. 69-77.

²⁹ *Ibid.*, t. 77.

³⁰ Wedi 6 – S4C, 28/08/2002, Angharad Price yn cael ei chyfweld.

y cof am flynyddoedd wedi ei darllen ac sy'n boblogaidd gyda phobl o bob oed ac yn wir, o bob cwr o'r byd bellach gan ei bod wedi ei chyfieithu i'r Saesneg ac wedi ei rhoi ar CD. Ond fe ddof yn ôl at hyn yn nes ymlaen.

Wrth ddechrau darllen *O! tyn y gorchudd*, gwyddom mai Angharad Price sy'n adrodd stori bywyd perthynas iddi, ond nid yw gwir gamp ei gwaith yn dod i'r golwg tan y diwedd un, os nad ydych yn ymwybodol o hanes Rebecca cyn ei ddarllen. Mae'n un peth medru creu nofel o amgylch hanesion ei theulu, ond peth arall yn hollol yw creu nofel o amgylch bywyd merch a fu farw yn ifanc iawn ac na phrofodd bron dim o'r hyn y sonnir amdano yn y nofel. Credaf fod hyn wedi cyffwrdd â sawl un o ddarllenwyr y nofel gan ei fod yn dro annisgwyl yn y gynffon. Roeddwn i, yn sicr, mewn cryn dipyn o sioc wedi imi ddarganfod hyn.

Penderfynais y byddai nofel arobryn Angharad Price yn bwnc traethawd diddorol gan fod cynifer wedi ymserchu yn y nofel ar ôl ei darllen (gan fy nghynnwys fi fy hun). Ceisio deall pam a sut y bu i'r nofel ennyn y fath ymateb yw nod yr astudiaeth hon.

Un o ddibenion y traethawd hwn yw olrhain barn pobl gyffredin am y nofel, yn ogystal â beirniaid llenyddol, felly roedd llunio holiadur yn gam naturiol a phwysig i'w gymryd. Roedd hefyd yn bwysig penderfynu ar y cwestiynau'n ofalus, gan geisio arwain yr ymatebwyr ond peidio â rhoi gormod o arweiniad gan ei bod yn bwysig eu bod yn rhoi eu barn unigol, bersonol. Nid oeddwn ychwaith am gynnwys gormod o gwestiynau rhag eu diflasu, ond roedd yn bwysig cynnwys y cwestiynau a oedd yn berthnasol i gwestiwn canolog y traethawd a'r gwaith ymchwil, sef a yw *O! tyn y gorchudd* yn cael ei hystyried yn glasur cyfoes? (Mae'r atebion i gwestiwn 18, sef

'Caiff y nofel hon ei disgrifio fel "clasur", ond sut y tybiwch chi y mae'n cymharu â chlasuron mawr eraill llenyddiaeth Gymraeg megis *Un Nos Ola Leuad* ac ati?' ar gael yn llawn yn Atodiad 4). Credaf fy mod wedi cael atebion gwerthfawr iawn o'r holiaduron hyn, ac maent yn bendant wedi bod o fudd mawr i'r gwaith ymchwil.

Dyma air cyn dechrau'r traethawd am yr atodiadau eraill. Atodiad 1 yw fy nghyfweliad ag Angharad Price drwy e-bost, Atodiad 2 yw copi o'r holiadur ac Atodiad 3 yw gwybodaeth ychwanegol am yr ymatebwyr er mwyn gwneud eu dyfyniadau ym Mhennod 3 yn fwy ystyrion i'r darlennydd. Rwyf hefyd wedi safoni a chywiro gwallau teipio rhai atebion i'r holiaduron.

Pennod 1: Y Fedal a'r Eisteddfod

Bri'r Eisteddfod Genedlaethol, wedi ei sefydlu, oedd barddoniaeth gyda chystadlaethau'r Gadair a'r Goron yn cymryd holl sylw'r wyl am flynyddoedd. Wedi i Siôn Rhydderch ddechrau'r traddodiad eisteddfodol yn ôl yn y ddeunawfed ganrif, bu i'r wyl newid a datblygu cryn dipyn. Trodd o fod yn fodd i achub yr iaith Gymraeg i fod yn wyl genedlaethol sy'n mynd o nerth i nerth bob blwyddyn. Credai Siôn Rhydderch yr Almanaciwr mai 'ffordd i achub diwylliant Cymru a'i hiaith oedd trwy gynnal eisteddfodau'.³¹ Wedi blynyddoedd o geisio hybu'r Eisteddfod gan ddenu beirdd i gystadlu, fe'i sefydlwyd hi yn Eisteddfod Daleithiol yng Nghaerfyrddin ym 1819. Er hyn, nid oedd popeth wedi ei sefydlu yn debyg i'r hyn a welir heddiw. Cysylltwyd Gorsedd Iolo Morganwg â'r Eisteddfod am y tro cyntaf yn Eisteddfod Daleithiol Dyfed yng Nghaerfyrddin ym 1819, er mai ym 1792 ar Fryn y Briallu, Llundain y cynhaliwyd yr Orsedd gyntaf.

Prif gystadlaethau'r Eisteddfod Genedlaethol cyn 1937 (ac yn wir, hyd heddiw maent yn dal i dderbyn llawer mwy o sylw a statws) oedd cystadlaethau'r Gadair a'r Goron. Câi'r Gadair ei rhoi am awdl a'r Goron am bryddest ac nid oedd yr un wobwr fawr ar gyfer rhyddiaith. Yn Eisteddfod Machynlleth ym 1937 y sefydlwyd cystadleuaeth y Fedal Ryddiaith. Teimlai llawer cyn hynny y dylid newid y drefn ac y dylid cynnig Coron ar gyfer rhyddiaith, ac yn wir, fe barhaodd y ddadl hon hyd yn oed wedi sefydlu cystadleuaeth y Fedal Ryddiaith. Dechrau digon niwlog a gafodd y Fedal gyda llawer o'r cystadleuwyr yn ansicr o ystyr yr enw sef y Fedal Ryddiaith Bur, cyfieithiad o *fine prose*.

³¹ Idris Foster (gol.), *Twf yr Eisteddfod*. Tair darlith gan Helen Ramage, Melville Richards a Frank Price Jones (Abertawe, 1968), t.10.

Nid yn unig am sefydlu'r Fedal Ryddiaith yr oedd Eisteddfod Maldwyn yn nodedig. Yma hefyd y pennwyd iaith swyddogol ar gyfer yr Eisteddfod, y clywyd caneuon y Cadeirio a'r Coroni am y tro cyntaf, y gwelwyd y ddawns flodau yn cael ei pherfformio am y tro cyntaf, ac y newidiwyd enw Cyngor yr Eisteddfod i Lys yr Eisteddfod. Dyma flwyddyn nodedig iawn felly yn hanes yr Eisteddfod ei hun:

Y bwriad oedd tawelu'r gri gynyddol o blaid cynnig y Goron am ryddiaith a'r Gadair am farddoniaeth. Gellid cau cegau'r ymgyrchwyr o blaid tegwch i ryddiaith drwy osod cystadleuaeth newydd ar eu cyfer.³²

Ond nid felly y bu hi o gwbl. Er i gystadleuaeth y Fedal Ryddiaith gael ei sefydlu, nid oedd seremoni deilwng iddi na llawer o sylw o gwbl ac roedd yn gwbl israddol i'r cadeirio a'r coroni. Yn ôl Thomas Parry:

Fe wyddys mai'r rheswm dros gychwyn y gystadleuaeth hon oedd ceisio rhoi urddas ar ryddiaith, yn lle bod yr holl rwysg a gogoniant yn mynd i'r awdl a'r bryddest.³³

Rhaid cyfaddef ei bod yn gam ymlaen yn sicr, ond nid cymaint ag y dymunai llawer iawn, ac ymlaen yr aeth y dadlau.

Ym 1938, Elena Puw Davies (Morgan) a enillodd y Fedal gyda'i nofel hynod o boblogaidd *Y Graith*³⁴ a gyhoeddwyd ym 1943. Gosododd y nofel hon ei marc ar lenyddiaeth Cymru, a deil yn boblogaidd heddiw. Erbyn hyn, mae wedi ei gwneud yn ffilm hefyd. Rhaid cofio, efallai, na fyddai'r nofel hon na sawl un arall ar hyd y blynyddoedd wedi cael ei hysgrifennu oni bai am sefydlu'r wobwr hon a'r ysgogiad a'r sylw a fyddai'n dilyn:

³² Alan Llwyd, *Y Gaer Fechan Olaf, Hanes Eisteddfod Genedlaethol Cymru 1937-1950* (Llandybie, 2006), t. 28.

³³ Thomas Parry, 'Rhyddiaith y Fedal', *Barn*, 11 (Medi 1963), t. 321, tt. 321-3.

³⁴ Elena Puw Morgan, *Y Graith* (Dinbych, 1943).

Mae Elena Puw Morgan yn enghraifft arall o lenor a gâi ei swcro a'i sbarduno gan yr Eisteddfod Genedlaethol ... nid cystadlu er mwyn cystadlu a wnâi Elena Puw Morgan, ond defnyddio cystadleuaeth fel ysgogiad ac fel llwyfan i'w dawn greadigol.³⁵

O'i chymharu â seremoni'r Cadeirio a'r Coroni, pitw iawn oedd seremoni'r Fedal Ryddiaith yn y dyddiau cynnar. Rhyw fymryn o ysgwyd llaw digon di-nod ydoedd o'i chymharu â'r seremoni orseddol i'r beirdd.

Ym 1939, nid oedd neb yn deilwng o'r Gadair na'r Goron, ond yr un dyn a enillodd y Fedal Ryddiaith a'r Ddrama Fawr, sef John Gwilym Jones. Dyma flwyddyn aflwyddiannus iawn i farddoniaeth yn yr Eisteddfod, ond roedd hi'n Eisteddfod wych iawn ac yn un i'w chofio i John Gwilym Jones, a aeth ymlaen, fel Elena Puw Morgan, i fod yn amlwg iawn ym myd llenyddol Cymru.

Aeth pethau ar i lawr yn ystod y degawd nesaf. Yng nghysgod y Rhyfel anodd oedd cynnal Eisteddfod fel y cyfryw, ac ni fu'r pedwardegau yn gyfnod arbennig o lewyrchus yn hanes y Fedal. Dyfarnwyd dwy wobwr ym 1951, un i R. Ifor Parry am ennill Medal 1948-50, ac un i Islwyn Ffowc Elis, sef enillydd y Fedal Ryddiaith ym 1951 am ei gyfrol o ysgrifau *Cyn Oeri'r Gwaed*.³⁶ Dyma gyfrol boblogaidd iawn a dywed Delyth George:

Er ei amlygrwydd cynnar ym myd llenyddiaeth Gymraeg yn 1951, pan enillodd y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Genedlaethol Llanrwst am ei gyfrol o ysgrifau, *Cyn Oeri'r Gwaed*, dangosodd ddawn anghyffredin fel saernïwr rhyddiaith a fedrai drin geiriau'n synhwyrus a'n swyno â'i frawddegau rhythmig. Man cychwyn yn unig oedd cyhoeddi'r gyfrol hon i gnwd o nofelau, straeon byrion ac un ddrama.³⁷

³⁵ Alan Llwyd, *Y Gaer Fechan Olaf, Hanes Eisteddfod Genedlaethol Cymru 1937-1950* (Llandybie, 2006), tt. 56-7.

³⁶ Islwyn Ffowc Elis, *Cyn Oeri'r Gwaed* (Aberystwyth, 1952).

³⁷ Delyth George, Llên y Llenor: *Islwyn Ffowc Elis*, gol. J. E. Caerwyn Williams (Caernarfon, 1990), t. 5.

Dyma oedd dechrau gyrfu lenyddol lwyddiannus iawn ac mae'n siŵr i ennill y Fedal Ryddiaith brofi'n ysgogiad iddo i barhau i ysgrifennu. Gwelwyd sawl newid i'r gystadleuaeth ym 1951 pan sefydlwyd yr arfer o gael tri beirniad bob blwyddyn. Cyn hynny, nid oedd cysondeb yn y nifer a ddewisid i feirniadu. Hefyd, gollyngwyd *pur* o'r teitl ym 1951, ac ni chafodd ei ddefnyddio eto.³⁸

Yn ystod y 1950au, gofynnwyd am sawl 'cyfrol' yn nhestunau'r Fedal Ryddiaith, er enghraifft 'cyfrol o erthyglau' am dair blynedd yn olynol, ym 1952, 'cyfrol o ryddiaith' ac ym 1959, 'cyfrol o ysgrifau natur'. Gwelir yma fwy o gysondeb yn y gystadleuaeth o safbwynt testunau. Yng nghanol hyn i gyd, testun 1958 oedd Hunangofiant ac E. C. Pugh a fu'n fuddugol. Dywedodd E. D. Jones yn ei feirniadaeth:

I mi, y mae'r gair 'Hunangofiant' yn syml yn golygu hunangofiant personol y cystadleuydd ei hun, – cofiant plaen, didwyll y bersonoliaeth a gynrychiolir gan y ffugenw. Buaswn i'n gosod hunangofiannau ffug a nofelau y tu allan i faes y gystadleuaeth.³⁹

Cystadlodd 13 y flwyddyn honno, gydag amrywiaeth o hunangofiannau gwir, dychmygol ac un dyddiadur taith. Dywedodd Frank Price Jones, beirniad arall, y byddai'n fodlon gweld pump neu chwech ohonynt yn cael eu cyhoeddi.⁴⁰ Dyma'r testun a osodwyd yn y gystadleuaeth y flwyddyn yr enillodd Angharad Price, ond llwyddodd hithau i gyfuno ffaith a'r dychymyg gan greu campwaith newydd yn unol â gofynion gwahanol y gystadleuaeth honno – 'hunangofiant – dilys neu ddychmygol'.⁴¹

³⁸ Mihangel Morgan, 'Braslun o Hanes y Fedal Ryddiaith (Bur) 1937-1987, Rhan 1', *Barddas*, 164-5, 1990/1, t. 43, tt. 43-7.

³⁹ E. I. Rowlands (gol.) *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Cymru Glynebwy 1958* (Liverpool, 1958), t. 92.

⁴⁰ *Ibid.*, t. 85.

⁴¹ J. Elwyn Hughes (gol.) *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Cymru Sir Benfro, Tyddewi 2002* (Llandybïe, 2002), t. 106.

Erbyn 1963, gwelwyd ychydig bach o newid eto; 'diwygiwyd y drefn rywfaint a chafwyd seremoni...'42 Nid oedd y seremoni yn ddim o'i chymharu â seremonïau presennol y Cadeirio a'r Coroni, ond credaf fod ei sefydlu yn gam pwysig o ran cydnabod y Fedal am ei bod yn sicrhau rhyw fath o urddas iddi. Cam arall ymlaen a gafwyd ym 1965 pan welwyd y gyfrol fuddugol yn cael ei chyhoeddi yn ystod wythnos yr Eisteddfod am y tro cyntaf. Cyn hynny, nid oedd sicrwydd y byddai'r cyfrolau buddugol yn cael eu cyhoeddi o gwbl, ac roedd rhai yn cael eu cyhoeddi ychydig flynyddoedd wedi iddynt ennill. Mae cyhoeddi'r gwaith arobryn yn yr Eisteddfod yn sicrhau cynulleidfa ar ei gyfer. Bydd sawl un yn gwrando ar y feirniadaeth ac yn awyddus i'w ddarllen. Mae'n ffordd dda iawn o sicrhau gwerthiant yn syth. Hefyd ym 1965, mewn ymgais i godi statws ac ymwybyddiaeth o'r Fedal Ryddiaith, cafwyd cyn-enillwyr y Fedal i gymryd rhan yn y seremoni a derbyniwyd yr enillydd i'r Orsedd.

Er yr holl newidiadau cadarnhaol hyn, parhau a wnâi'r ddadl am gynnig Coron ar gyfer rhyddiaith. Ni chredai llawer fod y Fedal Ryddiaith yn ddigonol i'r rhyddieithwyr o'i chymharu â'r sylw a'r urddas a neilltuid i'r beirdd. Barddoniaeth oedd prif faes llenyddol yr Eisteddfod pan sefydlwyd y Fedal Ryddiaith 28 mlynedd ynghynt. Wrth i seremonïau'r Gadair a'r Goron lenwi'r Pafiliwn, roedd yn anodd iawn denu pobl i wyllo seremoni'r Fedal Ryddiaith, yn enwedig yn y dyddiau cynnar. Yn ôl Mihangel Morgan:

Yr awgrym ymhlyg yn yr holl ddadleuon hyn o blaid rhoi'r Goron am ryddiaith yw fod rhyddiaith yn siŵr o wella dim ond iddi gael seremoni ychydig yn fwy lliwgar ac â mwy o rwysg yn perthyn iddi, ac i ryddiaith beidio â chael ei gorfodi i gystadlu â dwy ddefod fawr y beirdd.⁴³

⁴² Mihangel Morgan, 'Braslun o Hanes y Fedal Ryddiaith (Bur) 1937-1987, Rhan 1', *Barddas*, 164-5, 1990/1, t. 44, tt. 43-7.

⁴³ *Ibid.*

Erbyn 1973, a'r Fedal wedi'i hatal deirgwaith er 1965, gwelwyd cam arall ymlaen o safbwynt statws y Fedal Ryddiaith. O hyn ymlaen, câi enillydd y Fedal ei adnabod fel Prif Lenor yr Eisteddfod Genedlaethol am y flwyddyn honno. Credaf fod hyn yn gydnabyddiaeth hirddisgwyliedig a'i fod yn gosod y gystadleuaeth hon yn nes at y Cadeirio a'r Coroni. O'r diwedd, dyma statws arbennig i enillydd y Fedal Ryddiaith a fyddai, i ryw raddau, yn rhoi mwy o bwysigrwydd i'r Fedal ac i'w henillwyr.

Roedd hi'n flwyddyn fawr ym 1978 i ryddiaith yr Eisteddfod Genedlaethol. Dyma pryd y sefydlwyd Gwobr Goffa Daniel Owen, gan ddod â'r prif wobrau rhyddiaith yn gyfartal â'r nifer o wobrau mawr am farddoniaeth. Credai rhai y byddai cael dwy gystadleuaeth ryddiaith yn peri iddynt amharu ar ei gilydd, ond roedd yr ymateb ar y cyfan yn eithaf cadarnhaol. Braff oedd gweld yr Eisteddfod yn rhoi rhagor o sylw i ryddiaith.

Bu llawer o wahaniaeth rhwng y ddwy gystadleuaeth ar hyd y blynyddoedd ac mae'r gwahaniaethau hyn yn dal yn amlwg hyd heddiw. Un gwahaniaeth mawr rhwng y ddwy yw'r wobr ariannol. Y wobr ym 1978 i enillydd y Wobr oedd £500, yn rhoddedig gan HTV:

...cynigiodd cwmni teledu HTV wobr ariannol o £500, yr un fwyaf erioed yn adran llenyddiaeth yr Eisteddfod, ac felly y ganwyd Gwobr Goffa Daniel Owen.⁴⁴

Dyma wobr ariannol dipyn mwy nag eiddo'r Fedal Ryddiaith a'r Cadeirio a'r Coroni, a chredaf fod yr Eisteddfod yn gobeithio y byddai gwobr fwy yn sicrhau cystadleuaeth dda ac y byddai llawer yn cystadlu. Eto i gyd, fel y dywed R. H. Lewis:

⁴⁴ Gerwyn Williams, 'Daniel, y Fedal a'r Nofel; y nofel a'r Eisteddfod Genedlaethol, 1977-2002', *Taliesin*, cyfrol 116, Eisteddfod 2002, t. 78, tt. 78-110.

Nid oedd gweld y nofel fel un o brif gystadlaethau llenyddol yr Eisteddfod wrth fodd calon pawb ychwaith. Teimlai rhai fod y nofel a'i gwobr sylweddol yn tynnu sylw oddi wrth ac yn diraddio'r Fedal Ryddiaith. Teimlent hefyd mai camgymeriad dybryd ar ran yr Eisteddfod ydoedd derbyn gwobr mor fawr ar gyfer nofel heb sicrhau fod gwobr o leiaf gymaint â hi i fynd gyda'r Fedal Ryddiaith. Yn ôl rhai anwybyddwyd y ffaith mai Prif Lenor yr Eisteddfod yw enillydd y Fedal Ryddiaith.⁴⁵

Erbyn heddiw, mae'r wobwr wedi cynyddu i £5000 o'i gymharu â £750 i'r Fedal Ryddiaith ac i enillydd y Gadair a'r Goron. Cryn dipyn o wahaniaeth, yn wir, ond, er mai'r Daniel Owen sy'n berchen ar wobwr fwyaf llewyrchus a deniadol yr Eisteddfod Genedlaethol, nid dyma'r gystadleuaeth fwyaf llewyrchus o bell ffordd. Credai llawer mai'r Daniel Owen a fyddai'n effeithio ar y Fedal, ond fel arall y digwyddodd, mewn gwirionedd. Gan fod y Fedal Ryddiaith ar hyd y blynyddoedd wedi ennill ei statws gam wrth gam, erbyn 1991, cafodd seremoni orseddol a oedd yn ei gwneud yn gyfartal, ar ryw olwg, â'r Cadeirio a'r Coroni. Nid oes statws o'r fath wedi dod i'r Daniel Owen hyd yn hyn. Derbyniodd y Daniel Owen seremoni ar brif lwyfan yr Eisteddfod ym 1999, ond rhaid nodi nad yw'n seremoni orseddol:

Ond yr hyn a adfywiodd gystadleuaeth glaf y Wobr yn 2000 oedd cynyddu'r wobwr ariannol i £5000. At hynny, sicrhawyd mwy o amlygrwydd i'r Wobr er 1999 drwy anrhydeddu'r enillydd â seremoni ar lwyfan y Brifwyl, er na feddai honno ar ddim o basiant seremoni Orseddol y Fedal a ddenai'r miloedd i'r pafiliwn chwaith.⁴⁶

O ran derbyn cyhoeddusrwydd a statws i'r awdur ac i'w waith, tybiwn mai'r Fedal y byddid yn ymgeisio amdani gan ei bod, erbyn heddiw, wedi cael seremoni orseddol lawn ar brif lwyfan yr Eisteddfod ar brynhawn dydd Mercher. Gellir dweud bod y Fedal wedi ei sefydlu ei hun, wedi blynyddoedd o frwydro, fel gwobr werth ei hennill,

⁴⁵ R. H. Lewis, 'Gwobr Goffa Daniel Owen: Golwg ar statws y nofel yn yr Eisteddfod Genedlaethol', *Barn*, 218 (Mawrth 1981), t. 89.

⁴⁶ Gerwyn Williams, 'Daniel, y Fedal a'r Nofel; y nofel a'r Eisteddfod Genedlaethol, 1977-2002', *Taliesin*, cyfrol 116, Eisteddfod 2002, t. 97, tt. 78-110.

yn enwedig o ran statws a chyhoeddusrwydd. Fel y dywedodd Islwyn Ffowc Elis yn ôl ym 1979:

Fe welsom fod y Fedal Ryddiaith, hyd yn oed, yn denu mwy o gynhyrchion na gwobr go dda a gyflwynir o flaen cynulleidfa fechan yn y Babell Lên.⁴⁷

Wedi sefydlu Gwobr Goffa Daniel Owen, bu rhai'n dal i sôn y dylid rhoi'r Goron am ryddiaith er i ryddiaith erbyn hynny gael tipyn mwy o barch gan yr Eisteddfod. Parhau a wnaeth y dadlau, ond roedd nifer y dadleuon yn gostwng wrth i'r Wobr ennill ei phlwyf ac wrth i'r Fedal Ryddiaith gael seremoni orseddol.

Dychwelwn at y Fedal Ryddiaith, ac i 1984 pan enillodd John Idris Owen yn Eisteddfod Llambod. Cystadlodd Angharad Tomos yn y gystadleuaeth honno. Er mai John Idris Owen a enillodd, Angharad Tomos a gafodd y sylw mawr wedi iddi gyhoeddi ei nofel *Yma o Hyd*.⁴⁸ Dengys hyn nad yr un orau, o anghenraid, yw'r un fwyaf poblogaidd. Hefyd, mewn blwyddyn gref, anodd iawn yw dewis un enillydd o blith y pump gorau, dyweder, felly teg dweud nad hawdd o gwbl yw gwaith y beirniaid.

Ym 1986, gofynnwyd am hunangofiant unwaith eto, a'r tro hwn, cystadlodd 26, y nifer mwyaf erioed i gystadlu hyd heddiw. Y nifer uchaf o gystadleuwyr cyn hyn oedd 24 ym 1979 gyda'r testun 'Stori Fer Hir'. Unwaith eto, derbyniwyd hunangofiannau dychmygol a gwir. Rhaid cofio, gyda thestun megis hunangofiant, ei bod yn bosibl bod rhai o'r cystadleuwyr wedi tynnu hen ddarnau o waith o gefn y drôr. Gall hyn esbonio'r nifer mawr o gystadleuwyr y flwyddyn honno, gan y gall hunangofiant fod yn gofnod o gyfnod neu o fywyd cyfan, fel y dywed R. Geraint Gruffydd yn ei

⁴⁷ Islwyn Ffowc Elis, 'Yr Eisteddfod Genedlaethol a'r Nofel Gymraeg', *Rhyddid y Nofel*, gol. Gerwyn Williams (Caerdydd, 1999), t. 152, tt.135-153.

⁴⁸ Angharad Tomos, *Yma o Hyd* (Talybont, 1985).

feirniadaeth ym 1986.⁴⁹ Awdur rhyddiaith newydd a ddaeth i'r brig, sef Ray Evans, gyda'i chyfrol *Y Llyffant*.⁵⁰ A dyma ran o bwrpas cystadlaethau megis y Fedal Ryddiaith: annog awduron newydd i ddechrau llenyddiaeth, fel y gwelir maes o law yn hanes Angharad Price ei hun. Dyma gyfle gwych iddynt i feithrin eu dawn, ac os ydynt yn fuddugol, y gobaith yw y gwnânt barhau i lenyddiaeth ac i gyfoethogi'n llên, er na wnaeth Ray Evans barhau i ysgrifennu wedi iddi ennill y Fedal Ryddiaith.

Erbyn inni gyrraedd y 1990au, gwelir dechrau cyfnod newydd i'r Fedal Ryddiaith. Mae'n wir fod gweithiau da yn ennill y Fedal cyn y 1990au, ond tybiaf i'r 90au fod yn drobwynt yn ein hanes llenyddol ni yma yng Nghymru. Gwelwyd, wedi 1965, fod llenorion eithaf amlwg yn cystadlu ac yn ennill y Fedal Ryddiaith. Dyma ddangos bod y Fedal wedi tyfu i fod yn wobwr yr oedd awduron am ei hennill, nid am yr arian, ond am y cyhoeddusrwydd a'r sylw a dderbynient o ganlyniad. Roedd pethau'n fwy sefydlog erbyn hynny. Hefyd, wrth gwrs, ym 1991 cyflwynwyd seremoni orseddol i'r gystadleuaeth gan roi agwedd bositif iawn ar y cystadlu ac ar yr ennill. Gellir dweud bod nofelau pwysig iawn i ddatblygiad ein rhyddiaith wedi cael eu gwobrwyo yn ystod y 1990au a'r 2000au:

Er gwaetha'r hyn a ddywedwyd gan John Rowlands a Rhiannon Davies Jones ddechrau'r 1980au, felly, sef mai tiriogaeth y Wobr fyddai'r nofel mwyach, arall oedd y dystiolaeth erbyn y 1990au. Efallai mai argraffadol ac anecdotaidd yw'r dystiolaeth, ond fe ddaliwn i fod sicrhau seremoni Orseddol i'r Fedal oddi ar 1991 wedi codi statws y gystadleuaeth, wedi ffyrnigo'r gystadleuaeth amdani, a bod llwyddiant digamsyniol nofelau fel *Si Hei Lwli* a *Seren Wen ar Gefndir Gwyn* wedi creu momentwm a magu rhagor o lwyddiant.⁵¹

⁴⁹ W. Rhys Nicholas (gol.) *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Cymru Abergwaun a'r Fro 1986* (Llandysul, 1986), t. 116.

⁵⁰ Ray Evans, *Y Llyffant* (Llandysul, 1986).

⁵¹ Gerwyn Williams, 'Daniel, y Fedal a'r Nofel; y nofel a'r Eisteddfod Genedlaethol, 1977-2002', *Taliesin*, cyfrol 116, Eisteddfod 2002, t.89, tt. 78-110.

Gwelwyd y Fedal yn torri tir newydd yn y 1990au gydag ôl-foderniaeth yn rhan fawr ohoni. Cyn y 90au, gellir dweud mai gweithiau da a enillodd y Fedal Ryddiaith yn hytrach na rhai gwych (heblaw am ambell eithriad wrth gwrs), ond nid yw hyn yn wir o gwbl am y 90au. Dywedodd Vaughan Hughes wrth adolygu cyfrol y Cyfansoddiadau a'r Beirniadaethau ym 1986: 'Gadewch inni fod yn onest – stwff digon anarbennig sy'n ennill y Fedal Ryddiaith fel rheol.'⁵² Mae'n sôn yma am dri eithriad, sef *Cyn Oeri'r Gwaed*⁵³ gan Islwyn Ffowc Elis a enillodd ym 1951, *Teisennau Berffro*⁵⁴ gan Tomos Parry Jones, 1957, a *Lleian Llan Llŷr*⁵⁵ gan Rhiannon Davies-Jones, 1964. Daeth tro ar fyd ym 1991 pan enillodd Angharad Tomos y Fedal Ryddiaith am y tro cyntaf gyda'i chyfrol *Si Hei Lwli*,⁵⁶ wedi iddi gystadlu ym 1984. Fe enillodd y Fedal unwaith yn rhagor ym 1997 gyda *Wele'n Gwawrio*,⁵⁷ gydag Eirug Wyn yn agos iawn ati â'i gyfrol *I Ble'r Aeth Haul y Bore?*,⁵⁸ gwaith sydd bellach wedi ei gyhoeddi ar ffurf CD, a chafodd Angharad Tomos ganmoliaeth fawr iawn bob tro y cystadlodd am y Fedal. I Angharad Tomos, felly, modd o dderbyn beirniadaeth adeiladol a rhagor o sylw oedd cystadlu am y Fedal Ryddiaith. Roedd wedi ei sefydlu ei hun fel awdures cyn ennill ym 1991, ond daeth mwy o lawer i'w hadnabod wedi'r seremonïau.

Robin Llywelyn a enillodd y Fedal ym 1992 gyda'i gyfrol *Seren Wen ar Gefndir Gwyn*,⁵⁹ ac efe oedd y cyntaf i dderbyn seremoni orseddol ar lwyfan yr Eisteddfod. Yn sicr, dyma gam ymlaen i'r gystadleuaeth. Nid oedd wedi cyhoeddi nofel cyn hyn, a gellir dweud iddo ddod i amlygrwydd fel nofelydd drwy ennill y Fedal Ryddiaith.

⁵² Vaughan Hughes, 'Y Cyfansoddiadau a'r Beirniadaethau', *Barn* 284 (Medi 1986), t. 310, tt.309-11.

⁵³ Islwyn Ffowc Elis, *Cyn Oeri'r Gwaed* (Aberystwyth, 1952).

⁵⁴ Tomos Parry Jones, *Teisennau Berffro* (Dinbych, 1958).

⁵⁵ Rhiannon Davies-Jones, *Lleian Llan Llŷr* (Dinbych, 1965).

⁵⁶ Angharad Tomos, *Si Hei Lwli* (Talybont, 1991).

⁵⁷ Angharad Tomos, *Wele'n Gwawrio* (Talybont, 1997).

⁵⁸ Eirug Wyn, *I Ble'r Aeth Haul y Bore?* (Talybont, 1997).

⁵⁹ Robin Llywelyn, *Seren Wen ar Gefndir Gwyn* (Llandysul, 1992).

Aeth ymlaen i'w hennill unwaith eto ym 1994 gydag *O'r Harbwr Gwag i'r Cefnfor Gwyn*,⁶⁰ ac enillodd Wobr Goffa Daniel Owen yn 2004 gydag *Un Diwrnod yn yr Eisteddfod*.⁶¹ Cysyllta llawer o bobl Robin Llywelyn ag ôl-foderniaeth, yn enwedig oherwydd ei nofel gyntaf *Seren Wen ar Gefndir Gwyn*. Ond beth yn union yw ystyr *ôl-foderniaeth*? Mewn rhifyn o *Golwg* ym 1996, holwyd sawl arbenigwr am eu barn. Dywed Angharad Tomos:

Y syniadaeth yma nad oes 'na ddim byd yn 'bendant' ydi ôl-foderniaeth i mi. Mae'n golygu amau pob peth, cwestiynu pob peth, a throi y testun tu chwith allan.⁶²

A dywed Robin Llywelyn:

A dweud y gwir, doeddwn i erioed wedi clywed am y term nes ddechreuodd pobol ei ddefnyddio fo i gategoreiddio fy ngwaith i. Ond o'r hyn dwi wedi'i gasglu, mae o'n arddull sydd yn ymgorffori y mathau o sgwennu arbrofol megis realaeth hudol a metaffuglen.⁶³

Roedd hi'n duedd gref iawn ar ddechrau'r 90au yng nghystadleuaeth y Fedal Ryddiaith, er nad oedd pawb yn ymwybodol o hyn.

Cred llawer fod nofel gyntaf Robin Llywelyn yn ôl-fodernaidd, ac er i'r beirniaid gael eu plesio yn fawr gan y nofel, cymysg fu ymateb y gynulleidfa gyffredin. Mae'n arddull nad yw wrth fodd pawb, fel pob arddull arall, a gwelir rhai awduron yn ymgadw'n fwriadol rhagddi, gan ysgrifennu'n fwy traddodiadol. Roedd Eirig Wyn yn enghraifft bendant o hyn pan gyfansoddodd *Smôc Gron Bach*⁶⁴ a'i chyflwyno'n llwyddiannus am wobr Goffa Daniel Owen ym 1994. Dywedodd Angharad Tomos:

⁶⁰ Robin Llywelyn, *O'r Harbwr Gwag i'r Cefnfor Gwyn* (Llandysul, 1994).

⁶¹ Robin Llywelyn, *Un Diwrnod yn yr Eisteddfod* (Llandysul, 2004).

⁶² Karen Owen, 'Pen Ôl-Foderniaeth?', *Golwg*, cyfrol 8, rhif 19. 25 Ionawr 1996, t.16.

⁶³ *Ibid.*

⁶⁴ Eirig Wyn, *Smôc Gron Bach* (Talybont, 1994).

Mae'r drafodaeth ar yr hyn sydd, a'r hyn nad yw'n gymwys i ennill Gwobr Daniel Owen yn un ddifyr. Mewn sgwrs radio, rhoddodd Eirug Wyn ei hun ei farn ar y mater. Credai fod y Fedal Ryddiaith wedi cael ei rhoi i gynnyrch mwy arbrofol yn y blynyddoedd diwethaf, ac er iddo gychwyn *Smôc Gron Bach* fel ymgais ar gyfer y Fedal, gan nad oedd yn gweddu i'r testun, fe'i rhoddodd i Gystadleuaeth Gwobr Goffa Daniel Owen. Dywedodd yn ddigon plaen nad oedd yn fwriad ganddo ysgrifennu mwy na'r hyn sy'n ymddangos ar yr wyneb. Nid un o giwed yr Ôl-Fodernwyr Gebyst oedd hwn. Fel perchennog siop lyfrau, mynnai ei fod yn gwybod lle roedd y bylchau, a sgrifennodd y gyfrol hon fel ymgais i lenwi bwlch yn rheng 'y nofel boblogaidd'.⁶⁵

Gwelir i Eirug Wyn ysgrifennu ei nofel i blesio'r gynulleidfa, ond mae'n amlwg nad yw'r gynulleidfa gyfan yn barod i brofi nofelau 'gwahanol' ac 'ôl-fodernaidd' megis *Seren Wen ar Gefndir Gwyn*. Nodwyd gan Angharad Price, yn ei llyfr ar Robin Llywelyn yn y gyfres 'Llên y Llenor', iddi weld erthygl yn *Golwg*⁶⁶ a oedd yn gosod 'Eirug Wyn ar un pegwn, yn awdur poblogaidd ac yn amddiffynnydd y darlennydd cyffredin, a Robin Llywelyn ar y pegwn arall, yn awdur anodd a apeliai at y darlennydd academiaidd'.⁶⁷ Dywed Angharad Price hefyd:

Waeth beth fo gofynion menter greadigol unrhyw un, mae pob awdur Cymraeg yn ymwybodol o'r pris uchel sydd i'w dalu am ddieithrio gormod ar ddarllenwyr.⁶⁸

Fel y gwelir yn y traethawd hwn, nid nofel sy'n dieithrio'i darllenwyr yw ei nofel fuddugol hithau, *O! tyn y gorchudd*.

Dyma'r gystadleuaeth yn cyrraedd gêr newydd yn y 1990au, felly, gyda gweithiau o safon uchel a oedd yn torri tir newydd yn fuddugol. Enghraifft nodedig arall yw nofel Mihangel Morgan, *Dirgel Ddyn*⁶⁹, a enillodd y Fedal ym 1993, nofel arall a ystyrir yn

⁶⁵ Angharad Tomos, 'Styrbio'r Gymru Gymraeg? Adolygiad o *Smôc Gron Bach*, Eirug Wyn', *Taliesin*, 87 (Hydref 1994), tt. 107-8, tt. 107-9.

⁶⁶ Plesio'r Sglyfs a'r Siwds, *Golwg*, cyfrol 7, rhif 14, 1 Rhagfyr 1994, tt. 19-21.

⁶⁷ Angharad Price, *Llên y Llenor: Robin Llywelyn* (Caernarfon, 2000), t. 15.

⁶⁸ *Ibid.*, t. 14.

⁶⁹ Mihangel Morgan, *Dirgel Ddyn* (Llandysul, 1993).

ôl-fodernaidd gan lawer. Daeth rhyw deimlad o ffresni i'r gystadleuaeth ac fe aeth o nerth i nerth:

Beth sy'n bwysig ydi bod y Fedal, a ddyfarnwyd yn aml yn y gorffennol am weithiau diniwed iawn, bellach yn cael ei hennill gan awduron sydd o ddifri'n codi statws rhyddiaith Gymraeg.⁷⁰

Credaf fod hwn yn ddatblygiad calonogol iawn o safbwynt rhyddiaith eisteddfodol ac i faes rhyddiaith yma yng Nghymru yn gyffredinol. Dengys fod rhyddiaith yn brwydro i'w chadw ei hun yn safonol ac yn boblogaidd, a gallwn ddiolch i sawl cystadleuydd am hyn yn y 1990au ac yn negawd cyntaf yr 21ain ganrif.

Yn yr un flwyddyn ag yr enillodd Mihangel Morgan ym 1993, ymgeisiodd Angharad Tomos am y Fedal gyda'i chyfrol *Titrwm*⁷¹ a gyhoeddwyd ym 1994, ac ymgeisiodd Angharad Price gyda *Ble'r aeth yr Haul*, ond ni wnaeth hi gyhoeddi ei gwaith. Roedd y ddwy yma yn agos at y brig, ond gwnaeth Mihangel Morgan ennill yn haeddiannol.

Yn ôl M. Wynn Thomas:

Fe gredaf i fod *Dirgel Ddyn* yn glasur bach cystal â *Seren Wen*, ac wrth longyfarch Mihangel Morgan alla i ddim ond ailadrodd yr hyn sy'n cael ei ddweud ar ddiwedd y stori fer a gyhoeddwyd ganddo'n ddiweddar yn y cylchgrawn *Tu Chwith*: "Rwy'n edrych ymlaen at yr un nesaf, bellach, pan fydd storïau yn wahanol unwaith eto".⁷²

Felly, dyma ddechrau da iawn i'r 90au gyda nofelau sy'n torri tir newydd i'r Fedal ac yn codi ei statws. Credaf fod y Fedal yn werth ei hennill erbyn hynny, gan fod y sylw a geir yn ystod y seremoni a'r tu hwnt yn deilwng ac yn ffordd dda o ddenu sylw pobl at yr awdur ei hun ac at ei waith. Caiff ei waith blaenorol sylw hefyd yn sgil hynny.

⁷⁰ Vaughan Hughes, 'Blwyddyn Rhyddiaith, Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol De Powys', *Barn*, 368 (Medi 1993), t. 42, tt. 42-3.

⁷¹ Angharad Tomos, *Titrwm* (Talybont, 1994).

⁷² M. Wynn Thomas, 'Dadeni Gwefreiddiol a Chwarae Bach. Mihangel Morgan, *Dirgel Ddyn*'. *Golwg*, cyfrol 5, rhif 50. 26 Awst 1993, t. 21, tt. 20-1.

Angharad Jones a enillodd ym 1995 gyda'i nofel *Y Dylluan Wen*.⁷³ Dyma nofel boblogaidd a gafodd ei gwneud yn ffilm ym 1996, a'i chyhoeddi ar CD yn 2005. Mae hefyd ar faes llafur TGAU CBAC, sy'n golygu ei bod wedi cael cryn effaith ar y celfyddydau ac ar addysg yng Nghymru. Ymgeisiodd Angharad Price unwaith eto am y Fedal y flwyddyn honno ac roedd un beirniad o blaid ei gwobrwyo. Dywedwyd ar ddechrau beirniadaeth ar y cyd gan Jane Edwards, John Idris Owen ac Eleri Llywelyn Morris:

Y mae'n bleser datgan bod y 'dadeni bychan' ym maes rhyddiaith Gymraeg y cyfeiriwyd ato ym meirniadaeth Medal Ryddiaith Eisteddfod Genedlaethol Nedd a'r cyffiniau y llynedd yn parhau.⁷⁴

Roedd hi'n flwyddyn gref iawn gyda chwech yn y dosbarth cyntaf, ac roedd Angharad Price yn un ohonynt. Ceir mai hi yn unig o blith y chwech a ddewisodd beidio â chyhoeddi ei gwaith o'r gystadleuaeth yma. Pam felly, a hithau wedi cael ei chanmol yn fawr gan y beirniaid:

Mae'r cyfan wedi ei ysgrifennu mewn Cymraeg cyhyrog, tafodiaith Arfon, yn gymysg â geiriau gwneud. Awdur ifanc, mentrus hynod, sydd yma, awdur dawnus a all ddisgrifio gwledd i dynnu dŵr o ddannedd, ac sy'n 'nabod blodau gwyllt wrth eu henwau gan eu plethu'n farddonol hudol; awdur a allai droi ei llaw at unrhyw gyfrwng, a chanddi gant a mil o straeon ar flaenau'i bysedd...⁷⁵

Roedd y gwaith hwn yn ôl-fodernaidd iawn a cheir 'anifeiliaid yn siarad a phobl yn newid eu ffurf'.⁷⁶ Yn y feirniadaeth, â'r beirniaid, sef Jane Edwards, John Idris Owen ac Eleri Llywelyn Morris, ymlaen i nodi am Angharad Price:

⁷³ Angharad Jones, *Y Dylluan Wen* (Llandysul, 1995).

⁷⁴ J. Elwyn Hughes (gol.) *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau* Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru Bro Colwyn 1995 (Llandybie, 1995), t. 149.

⁷⁵ *Ibid.*, t. 155.

⁷⁶ *Ibid.*

... awdures ifanc sydd yma â'i dychymyg yn dân. 'Does ond gobeithio na fydd yn rhuthro i gyhoeddi cyn dysgu defnyddio'r siswrn i docio, cynilo a chryfhau.⁷⁷

Ac yn wir, dyna a wnaeth gan fireinio ei chreffft a chan ddal i gystadlu ac i fagu hyder. Ym 1998, pan wobrwyyd *Blodyn Tatws*⁷⁸, Eirug Wyn, ymgeisiodd Angharad Price am y trydydd tro yn aflwyddiannus. Yma, fel ym 1995, roedd un beirniad, Ray Evans, o blaid gwobrwyo ei gwaith, sef *Tania'r Tacsî*⁷⁹. Cyhoeddwyd hwn ym 1999:

Mae yma fwy na stori syml am ferch sy'n colli ar [*sic*] ei hun; mae yma elfen alegoriaidd nad yw'n tynnu o gwbl oddi ar y creffter [*sic*] a'r tosturi a ddefnyddir wrth ymdrin â'r cymeriadau. Ar frig y gystadleuaeth felly y mae dwy nofel wahanol sydd, yn fy marn i, yn deilwng o'r fedal eleni. Byddwn i'n gwobrwyo *Tania'r Tacsî*, ond *Wing Wong* yw dewis fy nghyd-feirniaid. Yn wyneb hyn, a'r ffaith fy mod i'n cydnabod fod teilyngdod llwyr yn ei waith, gwobrwyer *Wing Wong*.⁸⁰

Credaf fod Angharad Price yn defnyddio'r gystadleuaeth yn wahanol i lawer o awduron eraill. Tybiaf mai fel modd i ddatblygu ei chreffft ac i gael beirniadaeth y bu hi'n cystadlu'n gyson, cyn ennill yn 2002. O'r pedair gwaith y mae wedi cystadlu yng nghystadleuaeth y Fedal Ryddiaith, ddwywaith y mae wedi cyhoeddi ei gwaith, unwaith wedi iddi ei hennill gydag *O! tyn y gorchudd*, a'r tro cyntaf gyda'i nofel gyntaf *Tania'r Tacsî* ym 1999. Diau nad oedd hi'n teimlo'n ddigon hyderus i gyhoeddi'r gwaith a gyflwynodd ym 1993 a 1995. Teimlaf fod hyn yn dangos ei phendantrwydd a'i balchder tuag at ei gwaith a bod ei hyder yn tyfu gyda phob canmoliaeth. Mae'n werth sôn am oedran Angharad Price ar y pryd hefyd: dim ond 21 oed oedd ym 1993, felly roedd hi'n ifanc iawn ac yn ceisio darganfod ei llais ei hun.

⁷⁷ *Ibid.*

⁷⁸ Eirug Wyn, *Blodyn Tatws* (Talybont, 1998).

⁷⁹ Angharad Price, *Tania'r Tacsî* (Llandysul, 1999).

⁸⁰ W. J. Jones (gol.) *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau* Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru Bro Ogrw 1998 (Llandybïe, 1998), t. 83.

Wrth gyrraedd terfyn y 90au, gallwn edrych yn ôl ar y degawd cynhyrchiol iawn hwn o safbwynt y Fedal Ryddiaith a gweld nofelau a syniadau ffres a newydd yn dod i'r amlwg:

Mae'r 'dangosyddion perfformiad annibynnol', a defnyddio ieithwedd yr oes hon, fel petai'n cadarnhau fod cynnyrch y Fedal yn ystod y 1990au wedi rhagori ar ddeunydd y Wobr. Maen nhw wedi rhagori o ran eu hansawdd llenyddol, a'r hyn a olygaf wrth hynny yw eu bod wedi cyffroi mwy ar y dychymyg a'r deall, wedi cynnig posibiliadau ffres ar gyfer ffurf y nofel.⁸¹

Gwelwyd sawl nofel sydd wedi dod yn boblogaidd iawn a sawl awdur newydd yn dod i'r amlwg. Dywed Angharad Price: 'Ond does dim dwywaith i egni newydd ddod i lenyddiaeth gyfoes yn sgil cyhoeddi gweithiau'r genhedlaeth hon o awduron',⁸² ac mae'n enwi rhai o enillwyr y Fedal Ryddiaith er 1991, sef Angharad Tomos, Robin Llywelyn, Mihangel Morgan ac Eirug Wyn. Maent wedi cyfrannu'n fawr iawn i'n llenyddiaeth a gellir dweud na fyddai rhai o'r nofelau buddugol ac anfuddugol hyn wedi cael eu cyhoeddi oni bai am y gystadleuaeth hon. Nid yn unig y mae'r pedwar llenor a enwir uchod wedi ennill y Fedal Ryddiaith gyda nofelau penigamp, maent hefyd wedi mynd ymlaen i gyhoeddi rhagor o nofelau gan gyfoethogi ein byd llenyddol ymhellach. Mae'r nofelau buddugol ac anfuddugol yma wedi cyfrannu tipyn i addysg yng Nghymru hefyd gyda sawl nofel yn cael ei dewis i fod ar faes llafur yr ysgolion wedi iddynt fod yng nghystadleuaeth y Fedal Ryddiaith a Gwobr Goffa Daniel Owen, yn ogystal â rhai o nofelau eraill y ddwy gystadleuaeth. Un o'r rhai a fu ar faes llafur CBAC yw *I Ble'r Aeth Haul y Bore?* gan Eirug Wyn, a ddaeth yn agos i'r brig yng nghystadleuaeth y Fedal Ryddiaith ym 1997. Bu *Lleian Llan Llŷr* (1965) ar y maes llafur hefyd yn y gorffennol, ac mae'r nofel *Dan Gadarn Goncrit*⁸³ gan Mihangel

⁸¹ Gerwyn Williams, 'Daniel, y Fedal a'r Nofel; y nofel a'r Eisteddfod Genedlaethol, 1977-2002', *Taliesin*, cyfrol 116, Eisteddfod 2002, t.98-9, tt. 78-110.

⁸² Angharad Price, Llên y Llenor: *Robin Llywelyn* (Caernarfon, 2000) t. 59.

⁸³ Mihangel Morgan, *Dan Gadarn Goncrit* (Talybont, 1999).

Morgan – a enillodd y Fedal Ryddiaith ym 1993 gyda *Dirgel Ddyn* – ar faes llafur Lefel A. Mae *Y Dylluan Wen* ar faes llafur TGAU hefyd yn yr adran prawf llafar. Gwaith arall a fu ar faes llafur TGAU yw *Yma o Hyd* gan Angharad Tomos, a oedd yn anfuaddugol ym 1984.

Dyma symud ymlaen, felly, i'r degawd nesaf, y 2000au, sef yr unig ddegawd yn hanes y Fedal Ryddiaith, ers ei dechrau ym 1937, pan gafwyd teilyngdod bob blwyddyn. Mae'n wych gweld y gystadleuaeth yn mynd o nerth i nerth o hyd ac yn dal i ddenu awduron profiadol ac awduron newydd i gystadlu. Yn y flwyddyn 2000, Eirug Wyn a enillodd y Fedal â'i nofel *Tri Mochyn Bach*.⁸⁴ Yn yr un flwyddyn, dyma wobwr ariannol Gwobr Goffa Daniel Owen yn cynyddu o £1,000 i £5,000, a oedd yn wobwr dipyn mwy na gwobr y Fedal, sef £750. Cafwyd seremoni ar lwyfan y Brifwyl am y tro cyntaf i'r Wobr y flwyddyn flaenorol, ond nid oedd yn seremoni orseddol fel yn achos y Fedal.

Rhaid cofio nad oedd gan y Fedal yr un statws ag sydd ganddi heddiw ar y dechrau, a dylid ystyried pob cam ymlaen fel cam cadarnhaol. Un modd o weld a yw'r cystadlaethau wedi eu sefydlu eu hunain yw drwy edrych ar y cystadleuwyr. Mae'r Fedal yn wobwr y mae nofelwyr ac awduron am ei hennill gan ei bod yn sicrhau sylw a gwerthiant i'r enillydd. Gwelir hyn yn amlwg yn ystod y 90au a'r 00au yn enwedig, gydag awduron amlwg sydd wedi ennill eu plwyf eisoes yn ceisio am y Fedal yn rhannol ar gyfer y cyhoeddusrwydd.

2002 oedd blwyddyn Angharad Price i ennill y Fedal Ryddiaith, dair blynedd wedi iddi gyhoeddi ei nofel gyntaf, *Tania'r Tacsî*. Wedi tri chynnig aflwyddiannus yn y

⁸⁴ Eirug Wyn, *Tri Mochyn Bach* (Talybont, 2000).

gorffennol, rhoddodd y testun 'hunangofiant' y flwyddyn honno y cyfle perffaith iddi ysgrifennu am hanes hynod ei theulu mewn modd ffres a gwahanol. Fe fyddaf yn trafod rhagor ar y nofel *O! tyn y gorchudd* yn y bennod nesaf.

Agwedd ddiddorol ar ddegawd cyntaf y ganrif newydd yw fod pobl nad oeddent yn adnabyddus am ysgrifennu rhyddiaith greadigol wedi dod i'r brig yng nghystadleuaeth y Fedal, fel Cefin Roberts (2003) a Dylan Iorwerth (2005). Fel y dywed John Rowlands:

Mae'r Steddfod yn lle da i fwrw prentisiaeth lenyddol gan fod eich gwaith yn cael ei drin gan feirniaid profiadol a hynny'n ddiennw o'ch ochor chi fel na raid ichi wrido os cewch chi hi'n ddiflwyn ar dafod ganddyn nhw.⁸⁵

Gan fanteisio ar y brentisiaeth werthfawr honno, y merched a fu'n rheoli cystadleuaeth y Fedal Ryddiaith am bedair blynedd wedi i Dylan Iorwerth ddod yn fuddugol yn 2005.⁸⁶ Mae dwy ohonynt yn cyhoeddi ac yn cyfrannu'n gyson i'n byd llenyddol. Enillodd Fflur Dafydd yn 2006 gyda'i chyfrol *Atyniad*,⁸⁷ ac aeth ymlaen i ennill Gwobr Goffa Daniel Owen yn 2009 gyda'i nofel *Y Llyfrgell*.⁸⁸ Merch ifanc sy'n cyhoeddi ac yn canu'n gyson ydyw, a bu'r llwyddiannau eisteddfodol hyn yn hwb sylweddol i'w gyrfa ac i'w hyder fel awdures. Yr ail yw Mererid Hopwood, a hi oedd y ferch gyntaf i ennill Cadair yr Eisteddfod Genedlaethol yn 2001. Enillodd Goron yr Eisteddfod Genedlaethol yn 2003 a'r Fedal Ryddiaith yn 2008. Mae wedi cyhoeddi cryn nifer o lyfrau plant, yn ogystal â cherddi mewn cyfrolau o farddoniaeth a'i nofel fuddugol yng nghystadleuaeth y Fedal, *O Ran*.⁸⁹ Nid yw Mary Annes Payne, a

⁸⁵ John Rowlands, 'Holi Prifeirdd a Phrif Lenor Eisteddfod Nedd', *Taliesin*, 87 (Hydref 1994), t. 10, tt. 9-20.

⁸⁶ Dylid nodi hefyd y gwnaeth Annes Glyn ennill y Fedal yn 2004 gyda chyfrol o lôn meicro, sef *Symudliw* (Caernarfon, 2004).

⁸⁷ Fflur Dafydd, *Atyniad* (Talybont, 2006).

⁸⁸ Fflur Dafydd, *Y Llyfrgell* (Talybont, 2009).

⁸⁹ Mererid Hopwood, *O Ran* (Llandysul, 2008).

enillodd y Fedal yn 2007 gyda *Rhodd Mam*,⁹⁰ na Siân Melangell Dafydd, a enillodd yn 2009 gydag *Y Trydydd Peth*,⁹¹ wedi cyhoeddi oddi ar hynny, ond rhaid cofio eu bod wedi ennill yn ddiweddar iawn a diau mai megis dechrau y mae eu gyrfa lenyddol.

Gwelir, felly, newid mawr yn y Fedal Ryddiaith ar hyd y blynyddoedd ers ei sefydlu dri chwarter canrif yn ôl. Dechrau digon simsan oedd i'r Fedal, ond erbyn heddiw, mae wedi llwyddo i gael ei hystyried yn un o ddwy brif gystadleuaeth ryddiaith yr Eisteddfod Genedlaethol gan ddenu cyhoeddusrwydd mawr i'w henillwyr o achos y seremoni orseddol. O'r 76 mlynedd (1937-2013), gwelwyd teilyngdod yn 66 o'r rheini, ac fe ataliwyd y Fedal 10 gwaith. Gwelir bod y Fedal yn sicr wedi cyfrannu'n sylweddol i lenyddiaeth Cymru a gobeithio yn fawr y bydd yn parhau i wneud hyn am flynyddoedd lawer i ddod. Fel y dywedodd Bedwyr Lewis Jones mor bell yn ôl ag 1967:

... fe all cystadlu fod yn beth gwerthfawr ac iach. Mae'r ffaith i gynifer o'n llenorion gorau yn ein canrif ni fynd dan y driniaeth rywdro neu'i gilydd yn tystio i werth y peth.⁹²

Rhaid cofio hefyd, cyn cloi, nad oes disgwyl cael gwaith heriol iawn bob blwyddyn.

Fel y dywed Gerwyn Williams am wobr Goffa Daniel Owen:

Ai gormod disgwyl i'r gystadleuaeth rhyddiaith sy'n dwyn enw prif nofelydd Cymru o hyd esgor ar weithiau sy'n gwthio peth ar y ffiniau? Yn wir, a fu beirniaid ar fai yn rhoi gormod o bwys ar adegau ar newydd-deb gan ei orseddu'n faen prawf beirniadol yn union fel petaen nhw'n disgwyl chwyldro parhaus a nofel a ailddiffiniau'r ffurf bob blwyddyn?⁹³

⁹⁰ Mary Annes Payne, *Rhodd Mam* (Llandysul, 2007).

⁹¹ Siân Melangell Dafydd, *Y Trydydd Peth* (Llandysul, 2009).

⁹² Bedwyr Lewis Jones, 'Y Busnes Cystadlu 'ma', *Barn*, 62 (Rhagfyr 1967), t. 40.

⁹³ Gerwyn Williams, 'Daniel, y Fedal a'r Nofel; y nofel a'r Eisteddfod Genedlaethol, 1977-2002', *Taliesin*, cyfrol 116, Eisteddfod 2002, t.99, tt. 78-110.

Dyma bwynt diddorol. Mae'n anodd gwthio'r ffiniau bob blwyddyn, mae'n siŵr gen i, ac efallai na ddylai'r beirniaid roi cymaint o bwyslais ar feddwl am bethau newydd a chanolbwyntio, yn hytrach, ar ansawdd y gwaith, ac ar gael stori dda a fydd yn apelio at y gynulleidfa. Mae'n rhaid gwthio'r ffiniau ar adegau, wrth gwrs, ond nid ar draul gwaith sy'n safonol mewn ffyrdd eraill.

Mae'n bwysig iawn cynnal safon y gystadleuaeth er mwyn gwneud yn siŵr ei bod yn ffynnu ar ôl yr holl frwydro i gael statws i'r Fedal ac i godi statws y Fedal a'r Wobr fel y bo modd eu cymharu â chystadlaethau'r Goron a'r Gadair. Mae'r geiriau canlynol gan Fflur Dafydd yn ei beirniadaeth yng nghystadleuaeth y Fedal Ryddiaith yn 2012 yn dweud y cyfan am bwrpas y Fedal:

Dros y blynyddoedd, mae cynnyrch arobryn y Fedal Ryddiaith wedi gwneud cyfraniad unigryw at ein llên ac wedi sicrhau bod ffurfiau llenyddol nad ydynt efallai'n cael y sylw dyledus – fel nofelau byrion a chyfrolau o straeon byrion – yn cyrraedd cynulleidfaoedd eang. Mae'r gystadleuaeth hon hefyd yn rhoi cyfle i awduron arbrofi gyda ffurf ac arddull – gyda'r nofelwyr mwy traddodiadol bellach yn dargyfeirio'u cynnyrch at gystadleuaeth Gwobr Goffa Daniel Owen. Daeth nifer o awduron newydd sbon i amlygrwydd trwy'r gystadleuaeth hon hefyd ac mae iddi swyddogaeth hynod bwysig o fewn ein tirlun diwylliannol, wrth i gyfrolau fel *O Tyn y Gorchudd!* [sic] (Angharad Price) ac *Y Trydydd Peth* (Siân Melangell Dafydd) gyfrannu safbwyntiau creadigol newydd i ni ar lefydd cyfarwydd yng Nghymru.⁹⁴

Yn Eisteddfod 2012, ni chafwyd teilyngdod am y tro cyntaf er 1996. A dywedodd

Fflur Dafydd yn ei beirniadaeth eto:

Er bod rhai'n honni ein bod yn byw yn 'oes aur rhyddiaith Gymraeg' ar hyn o bryd, nid adlewyrchwyd hynny, gwaetha'r modd, o fewn cynnwys y gystadleuaeth hon.⁹⁵

⁹⁴ J. Elwyn Hughes (gol.) *Beirniadaeth Fflur Dafydd, cystadleuaeth y Fedal Ryddiaith, Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Cymru Bro Morgannwg 2012* (Llandysul, 2012) t. 122, tt. 116-125.

⁹⁵ *Ibid.*, t. 123.

Dyna siom fawr ar ôl i'r gystadleuaeth fynd o nerth i nerth dros y degawdau, ond cafwyd teilyngdod yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru Sir Ddinbych a'r Cyffiniau yn 2013. Gwelwyd cryn amrywiaeth eto yng nghystadleuaeth y Fedal Ryddiaith o ran safon gwaith y cystadleuwyr, ond dywedwyd bod y goreuon wedi cyflwyno gwaith 'gwydych os nad gwefreiddiol'.⁹⁶

Mae'n gystadleuaeth y mae angen ei diogelu a'i meithrin ymhellach i sicrhau bod awduron profiadol ac awduron newydd yn cystadlu â gwaith o safon i gynnal y traddodiad hwn o ysgrifennu rhyddiaith yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Yn ôl Rhiannon Ifans:

Her cystadleuaeth y Fedal Ryddiaith yw creu llenyddiaeth arhosol.⁹⁷

A dyna a geir yng ngwaith Angharad Price, a nifer o awduron eraill. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae lluo o awduron da wedi ennill Gwobr Goffa Daniel Owen, a rhagwelaf hir oes i'r ddwy gystadleuaeth ryddiaith sydd yn rhoi llwyfan i nifer o awduron newydd ac yn rhoi man iddynt i fedru cael adborth ac i feithrin eu crefft.

Felly, ar ôl pwysu a mesur dylanwad cynyddol cystadleuaeth y Fedal Ryddiaith dros y blynyddoedd ers ei sefydlu, teg yw holi pa arwyddocâd sydd iddi mewn perthynas â gwaith arobryn Angharad Price yn 2002. A pha effaith y mae'r gystadleuaeth fel arfer yn ei chael ar yr enillwyr? A yw pawb yn profi'r un cyhoeddusrwydd ar ôl ennill? A yw barn y beirniaid yn bwysig bob tro?

Mae ennill unrhyw gystadleuaeth, boed wobrau'r Eisteddfod Genedlaethol, Llyfr y Flwyddyn neu wobrau eraill yn denu sylw at y gwaith arobryn a gall hyn effeithio ar

⁹⁶ J. Elwyn Hughes, *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau* Eisteddfod Genedlaethol Sir Ddinbych a'r Cyffiniau, 2013 (Llandysul, 2013), t. 111.

⁹⁷ Rhiannon Ifans, 'Gwe greffus', *Barn*, 608 (Medi 2013), t. 61.

nifer y bobl sy'n prynu'r nofel ac sydd yn ei darllen. Er hyn, nid yw pob nofel sy'n ennill gwobr yn plesio'r darllenwyr er bod y beirniaid yn ei chanmol i'r cymylau. Enghraifft o hyn yw *Seren Wen ar Gefndir Gwyn* gan Robin Llywelyn fel y nodais ynghynt, a dywedodd Ioan Williams mewn erthygl yn *Golwg* ar ôl i'r nofel ennill y Fedal Ryddiaith yn 1992:

Ni chredaf y bydd rhan fwyaf o ddarllenwyr cyffredin Cymru yn mwynhau'r nofel ffantasi hon cymaint â'r beirniaid a roddodd y fedal ryddiaith iddi.⁹⁸

Ategir hyn gan sylw Fflur Dafydd yn y *New Welsh Review*:

Although Llywelyn's novel attracted high praise from the Eisteddfod judges, it was given a cynical reception by the majority of its readers, who found its postmodern style inaccessible and difficult.⁹⁹

Llwyddodd Angharad Price i blesio'r beirniaid a'r gynulleidfa â'i nofel hithau ac roedd yn gwerthu'n gyflym. Rwyf wedi ceisio, yn aflwyddiannus, cael ffigurau gwerthiant gan gyhoeddwr *O! tyn y gorchudd*, sef Gwasg Gomer, ac ar gyfer nofelau arobryn eraill y Fedal Ryddiaith, ond mae hon yn wybodaeth gyfrinachol sy'n cael ei rhyddhau i'r awduron yn unig. Bu'r Lolfa'n ddigon caredig i roi ffigurau gwerthiant bras i mi ar gyfer rhai o nofelau arobryn y Fedal Ryddiaith a gyhoeddwyd ganddynt, ond ni chredaf od budd eu nodi gan na allaf eu cymharu â ffigurau gwerthiant *O! tyn y gorchudd* ei hun i weld a oes gwahaniaeth o ran y gwerthiant. Er hyn, mae'n arwyddocaol fod y nofel bellach wedi'i hargraffu bedair gwaith, a chyhoeddwyd yr argraffiad diweddaraf yn 2013.

Wrth ystyried a fu ennill cystadleuaeth y Fedal Ryddiaith yn hwb i'r nofel ennill cydnabyddiaeth, dywedodd Fflur Dafydd:

⁹⁸ Ioan Williams, 'I'r Beirniaid yn Unig?', *Golwg*, cyfrol 5, rhif 4. 24 Medi 1992, t. 19.

⁹⁹ Fflur Dafydd, 'Re-writing Autobiography', *New Welsh Review*, Summer 2003, t. 29, tt. 24-29.

...it is a guaranteed fast track to recognition in the close-knit literary community of Welsh-speaking Wales.¹⁰⁰

Yn amlwg, mae ennill cystadleuaeth sydd erbyn hyn yn derbyn sylw gan filoedd o bobl, boed yn y pafiliwn ei hun neu ar y teledu a'r radio, yn rhoi hwb i unrhyw nofel, a gall sylwadau cyfoethog y beirniaid ychwanegu at hyn yn ogystal. Mae enillwyr y Fedal a Gwobr Goffa Daniel Owen yn sicrhau gwerthiant a sylw o'r cychwyn cyntaf, gan eu rhoi gam ar y blaen o gymharu â nofelau anfuadugol neu nofelau nad ydynt yn cael eu cyflwyno i gystadlaethau. Serch hynny, nid pob nofel sy'n llwyddo i gyflawni'r hyn a gyflawnwyd pan gyhoeddwyd *O! tyn y gorchudd*, a chredaf nad oes nofel arobryn wedi cyflawni cymaint â hi ers hynny o ran brwdfrydedd ymateb ystod eang o ddarllenwyr. Fel y trafodwyd eisoes, mae, wrth gwrs, nofelau sydd ben ac ysgwydd uwchlaw'r gweddill wedi ennill y Fedal dros y blynyddoedd, ond credaf fod ar rai nofelau angen amser i bobl eu gwerthfawrogi'n iawn ac i weld eu gwir werth gan fod gan bob nofel rywbeth gwahanol i'w gynnig i'r darllenwyr. Mae'n wir dweud bod nofelau da iawn a phoblogaidd wedi ennill er 2002, megis *Atyniad* gan Fflur Dafydd ac *O Ran* gan Mererid Hopwood. Mae'r ddwy nofel wedi bod yn llwyddiannus, nid oes amheuaeth am hynny, ond gwir yw dweud nad ydynt wedi llwyddo i'r fath raddau â nofel Angharad Price sydd, fel y gwelir yn y bennod nesaf, wedi cyrraedd manau na feddyliodd neb y buasai'n eu cyrraedd. Mae nofel arobryn boblogaidd Fflur Dafydd yng nghystadleuaeth Gwobr Goffa Daniel Owen, fodd bynnag, sef *Y Llyfrgell*¹⁰¹, wrthi'n cael ei thro'i'n ffilm ar hyn o bryd, ac *Atyniad* wedi ei haddasu ganddi i'r Saesneg¹⁰².

¹⁰⁰ *Ibid.*, t. 24.

¹⁰¹ Fflur Dafydd, *Y Llyfrgell* (Talybont, 2009).

¹⁰² Fflur Dafydd, *Twenty Thousand Saints* (Talybont, 2008).

I gloi, mae'r ffaith fod y Fedal Ryddiaith wedi datblygu dros y blynyddoedd yn gystadleuaeth y mae awduron newydd a phrofiadol am ei hennill, nid am yr arian fel y cyfryw, ond am y sylw a geir trwy'r seremoni orseddol, sylwadau'r beirniaid, a'r ffaith bod y nofel ar gael i'w phrynu'n syth ar ôl y seremoni, yn cyfrannu at arwyddocâd y gystadleuaeth. Bu'r sylw a'r sylwadau canmoliaethus a gafodd Angharad Price yn ystod ac yn dilyn y seremoni yn werthfawr o ran sicrhau darllenwyr o bob cefndir ac oed, gan ei bod yn nofel y mae pob math o bobl yn gallu uniaethu â hi trwy'r marwolaethau, y bywyd cefn gwlad, dallineb a bywyd teuluol. Bu ennill Llyfr y Flwyddyn y flwyddyn ganlynol hefyd yn sbardun i ragor o sylw i'r awdures ifanc ac i agor y drws i ragor o ddarllenwyr. Yn y bennod nesaf, byddaf yn ymhelaethu ar arwyddocâd ac arbenigrwydd y gwaith, gan ystyried yn fanylach gyswllt y gair 'clasur' â'r nofel hon.

Pennod 2: Dadansoddi *O! tyn y gorchudd*

Canolbwynt fy ngwaith ymchwil yw ceisio canfod pam a sut y mae *O! tyn y gorchudd* wedi dod yn ffenomen lenyddol ac yn glasur mewn cyn lleied o amser. Golyga hyn fod barn darllenwyr cyffredin yn bwysig iawn imi. Yn y bennod nesaf, byddaf yn dadansoddi'r holiaduron a luniais i'r perwyl hwnnw, ond yn y bennod hon, byddaf yn mynegi fy marn fy hun ar y nofel gan gyfeirio at adolygiadau a beirniadaethau ar hyd y ffordd. Byddaf hefyd yn canolbwyntio ar dechneg ysgrifennu Angharad Price drwy'r nofel a'r technegau, y dyfeisiau a'r nodweddion arddull ac ati a welir ynddi.

Fel y nodais yn y cyflwyniad, tua un ar bymtheg oed oeddwn i pan ddarllenais i *O! tyn y gorchudd* am y tro cyntaf. Ni wyddwn hanes y teulu yr adeg honno, ond roeddwn wedi clywed sôn gan bobl ei bod yn nofel werth ei darllen. Cefais dipyn o sioc wrth ddarllen y darn ar ddiwedd y nofel, ac am ychydig funudau, roeddwn wedi fy syfrdanu yn llwyr. Dechreuais feddwl wedyn bod Angharad Price wedi llwyddo i greu nofel arbennig iawn gan lwyddo i dynnu'r darlennydd i mewn i'r stori yn gyfan gwbl.

Ysgrifennodd Angharad Price y nofel yn wreiddiol ar gyfer ei theulu. Ni feddyliodd erioed y byddai'n apelio o gwbl at y cyhoedd, nac yn denu'r holl sylw a'r gwobrau y mae wedi eu derbyn megis y Fedal Ryddiaith yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn 2002, a gwobr Llyfr y Flwyddyn yn 2003:

Heb y teulu, fasa'r gyfrol heb ei sgwennu, a bwriad y sgwennu oedd cofnodi y peth fel rhywbeth i'r teulu. Wnes i erioed feddwl y basa gan bobl eraill ddiddordeb yn y stori.¹⁰³

Holais Angharad Price ynghylch y pwynt hwn:

¹⁰³ Karen Owen, 'Nofel yn creu twristiaeth!', *Go/wg*, cyfrol 15, rhif 38. 5 Mehefin 2003, t. 18.

Mi ddechreuais sgwennu'r gyfrol ryw flwyddyn neu ddwy wedi marwolaeth fy nain, Olwen, a chredaf (erbyn hyn) mai ffordd i gadw cysylltiad efo hi ac efo Tynybraich oedd *O! tyn y gorchudd*. Roeddwn hefyd yn sylweddoli bod y genhedlaeth honno yn diflannu, a bod talp o hanes y teulu yn mynd yn angof.¹⁰⁴ (Gw. Atodiad 1).

Gallai hyn fod yn wir am sawl teulu yng nghefn gwlad Cymru yn ystod yr un cyfnod, ac efallai ei fod yn un o'r rhesymau pam y mae llawer wedi gwirioni ar y nofel – gan ei bod yn crisialu cyfnod yn hanes teulu sy'n dod i ben.

Er ei bwriad gwreiddiol, gwirionodd llawer iawn o bobl ar y llyfr, yn enwedig un o feirniaid yr Eisteddfod Genedlaethol, sef Hywel Teifi Edwards, a ddywedodd:

Dyma'r hunangofiant a'm trawodd o'r dechrau fel gwaith llenor ymwybodol sy'n gwybod bod creu yn gymaint o her i'r hunangofiannydd ag ydyw i'r nofelydd.¹⁰⁵

Fe ddaeth Angharad Price â dyfais newydd i'r hunangofiant confensiynol gan ychwanegu rhywbeth arbennig sydd wedi cyffwrdd â chalonnau llawer iawn. Holais Angharad Price pam y bu iddi ddewis y confensiwn gwahanol hwn ar gyfer y gystadleuaeth:

Mae hynny hefyd yn gysylltiedig â'r Eisteddfod. Llyfr ffeithiol oedd gennyf mewn golwg, ond y testun ar gyfer y Fedal Ryddiaith y flwyddyn honno oedd 'hunangofiant'. Ystyriais roi'r ffidil yn y to, nes imi weld y gallai fod yn hunangofiant ffeithiol neu ddychmygol, felly daeth Rebecca i'm meddwl. Roedd llun mawr sepia ohoni wedi bod yn hongian ar wal y ffermdy pan oeddwn yn blentyn, a minnau yn ferch fach wedi meddwl llawer amdani. Roedd ei hatgyfodi yn syniad digon 'macabre' ar un olwg, a thrafodais y peth efo'r teulu o flaen llaw, yn enwedig efo Lewis a oedd yn frawd iddi (er nad oedd o wedi ei eni pan fu Rebecca farw). Ffurfiwyd cymeriad Rebecca, am wn i, o ferched eraill y teulu, yn enwedig Olwen, fy nain, Mair, fy mam, a Catrin, fy nghyfnither y byddwn yn chwarae efo hi ar y fferm ers talwm. Roeddwn wedi

¹⁰⁴ Cyfweliad e-bost gydag Angharad Price, Gorffennaf 2013.

¹⁰⁵ J. Elwyn Hughes (gol.) *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau* Eisteddfod Genedlaethol Sir Benfro, Tyddewi 2002 (Llandybïe, 2002), t. 108.

bod yn darllen gwaith W. G. Sebald ar y pryd, ac yn edmygu'r ffordd yr oedd yn cymylu'r ffin rhwng ffaith a ffuglen.¹⁰⁶

Bu'r testun 'hunangofiant' yn destun y Fedal Ryddiaith ym 1958, 1978 ac 1986. O ran y testun 'hunangofiant' ym 1958, 1978 ac 1986, ni phwysleisir y naill ffordd na'r llall a ddylai'r hunangofiant ei hun fod yn ddilys neu'n ddychmygol, ac fe fynegodd ambell feirniad yn ystod y blynyddoedd hyn ei fod yn ansicr pa fath i'w wobrwyo. Yn 2002, ychwanegwyd at y testun y geiriau 'dilys neu ddychmygol' gan wneud yn siŵr na oedd dim amwysedd.

Mae'n anodd diffinio *O! tyn y gorchudd* yn nofel neu'n hunangofiant, gan ei bod yn gyfuniad o'r ddwy *genre*:

Camarweiniol fyddai ceisio gwthio'r gyfrol hon i silff yr hunangofiannau traddodiadol – mae'n fwy o lawer na hynny.¹⁰⁷

Mae'r ffeithiau sylfaenol i gyd yn wir, ond nid yw pob manylyn yn wir, wrth gwrs, ac nid yw hyn yn dod yn glir i'r darllenydd hyd nes iddo ddarllen y nofel gyfan. Credaf fod hon yn ddyfais arbennig o effeithiol gan ein bod yn ymwybodol bod Angharad Price wedi ysgrifennu hunangofiant o safbwynt aelod o'i theulu, ond mae'n llawer mwy na hynny. Mae'n gofnod hanesyddol o'r ugeinfed ganrif, mae'n gofnod o'r bywyd cefn gwlad sy'n prysur ddiflannu (neu sydd eisoes wedi diflannu), mae'n gofnod o fywyd y teulu ac o sut y gwnaeth pobl ddelio â dallineb yn ystod yr oes, ac yn fwy na dim, mae'n gofnod emosiynol o fywyd y gallai Rebecca ei hun fod wedi ei brofi. Nofel fer ydyw, ond mae'n llwyddo i grisialu bywyd y teulu yn arbennig ac nid yw'n cuddio dim o'r darnau anhapus.

¹⁰⁶ Cyfweiliad e-bost gydag Angharad Price, Gorffennaf 2013.

¹⁰⁷ Adolygiad gan W. Dyfrig Davies:

www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/llyfrau/straeon/020829otynygorchudd.shtml. Ymwelwyd ar 22/11/2010.

Roedd hi'n eithaf agos rhwng *Maesglasau* (ffugenw Angharad Price) a *Rhywun Arall* fel y dengys sylwadau'r beirniaid, sef Hywel Teifi Edwards, Meg Elis a Robin Llywelyn. Bu 2002 yn flwyddyn gref o ran y cystadlu, gydag un ar hugain yn anfon eu gwaith i'r gystadleuaeth. Dwy nofel a fu'n derbyn sylw pennaf y beirniaid ond llwyddodd *O! tyn y gorchudd* i'w swyno gyda'i stori hudolus. Dywed Hywel Teifi Edwards:

Fe fyddwn i wedi bod yn hapus i wobrwyo *Rhywun arall* pe na bawn wedi fy hudo gan ddawn *Maesglasau*. *Maesglasau* piau'r Fedal Ryddiaith eleni yn fy marn i.¹⁰⁸

Roedd y tri beirniad yn cytuno nad oedd llawer i wahaniaethu rhwng *Rhywun arall* a *Maesglasau* ac y buasai modd gwobrwyo'r ddau. *Maesglasau* a fu'n fuddugol ac mae'r nofel ei hun wedi plesio'r gynulleidfa ar y cyfan yn fawr iawn. Er hyn, nid oedd y gyfrol yn 'berffaith' fel y noda Robin Llywelyn:

Nid yw pob dim yn taro deuddeg a theimplais fod yr ymdriniaeth â charwriaeth Rebecca a'r carcharor rhyfel Eidalaid yn arwynebol, efallai am mai dyn yw'r awdur (fe gredaf) ac nad yw wedi llwyddo gant y cant i fynd o dan groen ei brif gymeriad. Credaf y gellid tocio peth o'r canol a chryfhau'r rhan olaf ond, heb amheuaeth, mae'r gwaith yn deilwng o'r Fedal Ryddiaith.¹⁰⁹

Cytunaf y gallai'r awdures fod wedi mireinio rhai agweddau ar y nofel, yn enwedig y penodau olaf, ond fel y dywedodd Robin Llywelyn, roedd y gwaith yn sicr yn deilwng o'r Fedal Ryddiaith.¹¹⁰

Roedd gwaith cynnar Angharad Price yn debyg iawn i ddull ôl-fodernaidd Robin Llywelyn, awdur sydd ei hun wedi ennill Gwobr Goffa Daniel Owen yn 2004 gyda'i lyfr *Un Diwrnod yn yr Eisteddfod* a'r Fedal Ryddiaith ddwywaith, yn gyntaf ym 1992

¹⁰⁸ J. Elwyn Hughes (gol.) *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Sir Benfro*, Tyddewi 2002 (Llandybie, 2002), t. 112, tt. 106-121.

¹⁰⁹ *Ibid.*, t.120.

¹¹⁰ *Ibid.*

gyda *Seren Wen ar Gefndir Gwyn*, ac ym 1994, gydag *O'r Harbwr Gwag i'r Cefnfor Gwyn*. Mae Angharad Price wedi dadansoddi llawer ar waith Robin Llywelyn dros y blynyddoedd ac mae wedi cyhoeddi astudiaeth o'i waith yn y gyfres *Llên y Llenor*.¹¹¹ Gwnaeth hefyd drafod ei waith yn *Rhwng Gwyn a Du: Agweddau ar Ryddiaith Gymraeg y 1990au*.¹¹² Mae'n hawdd gweld bod gwaith Robin Llywelyn wedi dylanwadu ar Angharad Price ei hun dros y blynyddoedd, a thybed a fu hyn yn ysgogiad iddi yn 2002 i gystadlu am y Fedal Ryddiaith gan wybod ei fod yn un o'r beirniaid? Ac eto, ni fuaswn yn categoreiddio *O! tyn y gorchudd* yn ôl-fodernaidd o gwbl. I'r gwrthwyneb yn hollol a dweud y gwir. Er bod iddi elfennau arbrofol, nofel hanesyddol ydyw sy'n sôn am gynefin a theulu yng nghefn gwlad Meirionnydd.

Hoffwn ganolbwyntio yma ar fy ymateb i i'r nofel gan bwysu a mesur sawl elfen allweddol. Cefais fy ngwefreiddio ganddi, ac rwyf am geisio darganfod pam yr hoffwn y nofel gymaint, yn ogystal â sôn am y darnau sydd ychydig yn wannach na'r gweddill. Y lle mwyaf pwrpasol i ddechrau yw'r bennod gyntaf. Dyma bennod sydd yn llawer mwy telynegol a barddonol ei naws na gweddill y nofel, sydd yn ein tywys ni ar hyd y nant ac yn ei disgrifio, a'r hyn sydd o'i hamgylch, yn fanwl iawn. Y peth cyntaf a'm trawodd oedd y frawddeg gyntaf – "Pwy a greodd dawelwch?"¹¹³ Fel y dywedodd Tudur Dylan ar y rhaglen *Pnawn Da*:

... dyna i chi gwestiwn i'ch hoelio o'r cychwyn cyntaf.¹¹⁴

¹¹¹ Angharad Price, *Llên y Llenor: Robin Llywelyn* (Caernarfon, 2000).

¹¹² Angharad Price, *Rhwng Gwyn a Du: Agweddau ar Ryddiaith Gymraeg y 1990au* (Caerdydd, 2002).

¹¹³ OTYG, t. 7.

¹¹⁴ *Pnawn Da*, S4C, 2002. Tudur Dylan yn siarad am *O! tyn y gorchudd*, Angharad Price.

Teimlaf fod Angharad Price yn ceisio ein denu i mewn yn syth bìn trwy ofyn cwestiwn rhethregol sy'n peri i'n meddwl gychwyn ar daith gyda hithau yn ein tywys. Yr un diben sydd i'r ail frawddeg:

Pwy a luniodd yr hyn nas clywir, nas gwelir, nas cyffyrddir; nas blasir, nas arogleuir?¹¹⁵

Clywn ambell hanes am y nant a chawn ddisgrifiadau blodeuog a byw trwy gydol y bennod gyntaf hon (yn ogystal â gweddill y nofel) sy'n ychwanegu yn syth at ein crediniaeth bod yr hunangofiant yma yn gyfan gwbl wir. Mae'r nant fel petai hefyd yn cyfeirio at wythiennau Rebecca a'i gwreiddiau yn y Cwm ac yn yr ardal:

Yn wir, mae'r man arbennig yma yn rhan o wead y prif gymeriad a'r nant fel ei gwaed yn llifo drwy ei gwythiennau.

Mae gan Rebecca Jones wreiddiau – gwreiddiau dwfn, cadarn. Hi yw y lle a'r lle yw hi – mae'r naill a'r llall yn un goflaid gynnes.¹¹⁶

Fe dynnodd y disgrifiad yma fy sylw yn syth. Disgrifiad o'r awyr ydyw wrth i'r teulu hela defaid y mynydd:

Cychwynnem yn oriau mân y bore, a'r diwrnod newydd yn troi'n las, yn binc, yn felyn, yn wyn, fel petai clais y nos yn gwella.¹¹⁷

Mae'n ddisgrifiad sy'n creu darlun clir yn y meddwl, ac roedd yn gwneud imi deimlo'n freuddwydiol, fel naws y bennod gyntaf ei hun. Ysgrifennwyd y nofel gyfan yn y person cyntaf unigol, o safbwynt Rebecca, a chawn wybod yn gynnar iawn yn y bennod ei bod bellach yn ddynes eithaf hen gan ei bod yn colli ei chlyw a'i golwg. Mae'r bennod gyntaf yn y presennol, fel petai, gyda'r ail yn camu yn ôl i'r adeg cyn

¹¹⁵ OTYG, t. 7.

¹¹⁶ Adolygiad gan W. Dyfrig Davies:

www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/llyfrau/straeon/020829otynygorchudd.shtml. Ymwelwyd ar 22/11/2010.

¹¹⁷ OTYG, t. 13.

iddi gael ei geni, ac yna yn symud ymlaen wrth iddi fynd yn hŷn. Yn niwedd y nofel, gwelwn adleisiau o'r bennod gyntaf unwaith eto, gan ein bod ni'n ôl yn y presennol:

Dim ond un deunydd a wna'r tro ar gyfer y leinin hwn. Mae'n ddeunydd arbennig. Nis clywir. Nis gwelir. Nis cyffyrddir. Nis blasir. Nis arogleuir.¹¹⁸

Mae'r bennod gyntaf yn gosod y naws, yn enwedig y naws hanesyddol trwy sôn am Wylliaid Cochion Mawddwy ac am Hugh Jones, yr emynydd o Faesglasau. Mae'n ein trwytho yn hanes yr ardal, y teulu a'r diwylliant o'r cychwyn cyntaf, diwylliant sydd bellach yn angof yn y rhan fwyaf o Gymru, diwylliant y mae'n werth ei gofio a'i gofnodi cyn iddo ddarfod o'r tir yn gyfan gwbl. Dyma a ddywed gan Angharad Price wrth gael ei chyfweld gan Karen Owen:

Mi roedd dweud stori'r teulu'n bwysig iawn i mi ... mae'n debyg bod y nofel hefyd yn olrhain yr 20fed ganrif ar ei hyd, a bod hynny'n taro rhyw ddant efo pobol ar ddechrau canrif newydd.¹¹⁹

Ategir hyn gan ddyfyniad gan Sally Cline a Carole Angier:

The question here is whether the life of the person is a window on the times or whether the times are a window into the life of that person? Life writers must ask how much is someone a product of their times, their period, the knowledge, scientific, medical, psychoanalytic, literary of that particular society?¹²⁰

Rydym yn dilyn taith bywyd teulu Rebecca o'i safbwynt hi, ond rhoddir mwy o sylw i fywyd ei brodyr nag iddi hi yn y nofel, rhywbeth na sylwais arno'n ormodol wrth ddarllen y nofel am y tro cyntaf. Dim ond wedi imi orffen y nofel y sylwais mai'r rheswm mai gwyllo a bod o gymorth yr oedd Rebecca oedd am iddi farw'n ifanc iawn mewn gwirionedd. Credaf fod hon yn ddyfais arbennig o glyfar gan ei bod yn

¹¹⁸ OTYG, t. 148.

¹¹⁹ Karen Owen, 'Nofel yn creu twristiaeth'. *Golwg*, cyfrol 15, rhif 38. 5 Mehefin 2003, t. 18.

¹²⁰ Sally Cline and Carole Angier, *The Arvon Book of Life Writing, Writing Biography, Autobiography and Memoir* (London, 2010), t. 25.

chwarae ar gonfensiwn arferol yr hunangofiant gan roi tro bach yn y gynffon.

Llwyddodd y disgrifiadau gan Rebecca o'i theulu a theimladau ei theulu i gyffwrdd â'm calon lawer gwaith. Dywed Angharad Price ei hun mewn cyfweiliad ar y rhaglen deledu 'Y Sioe Gelf':

Techneg neu ddyfais oedd Rebecca yn fwy na dim i adrodd hanes gweddi y teulu, ac os 'di rhywun yn darllen y llyfr mae'n dod yn reit amlwg na chydig iawn ma' hi'n cyfrannu at ddatblygiad y stori – rhan oddefol sydd gan Rebecca yn y llyfr, sylwebu ma' hi.¹²¹

Dyma syniad gwych nad ydwyf wedi ei weld yn y Gymraeg o'r blaen, ac er nad oes gan Rebecca ran fawr yn y nofel, teimlaf fy mod wedi cael dod i'w hadnabod yn dda trwy brofiadau ei theulu. Gallwn feddwl nad oedd yn proses hawdd iawn mynegi stori ffeithiol gan ychwanegu unigolyn at y stori a sicrhau bod popeth yn disgyn i'w le trwy gydol y nofel, ond credaf fod Angharad Price wedi gwneud cyfiawnder â Rebecca a'i theulu. Dywed Hywel Teifi Edwards ar 'Y Sioe Gelf':

Pan o'n i'n cyrraedd diwedd y stori, a gweld yr hyn oedd Angharad wedi'i neud, ew, o'n i'n meddwl bod hyn yn beth odidog iawn. Fe wnaeth hi greu bywyd i Rebecca, y ferch fach a fu farw yn un ar ddeg.¹²²

Fel y dywedais o'r blaen, yn y bennod gyntaf hefyd, cawn wybod rhagor am darddiad enw'r nofel wrth inni gael hanes yr emynydd a'r llenor o Faesglasau, Hugh Jones (1749-1825). Bu ef hefyd yn athro ac yn gyfieithydd ac mae ei emynau'n enwog yng Nghymru. Cawn wybod am ei dröedigaeth a newidiodd grefydd ei deulu:

Newidiwyd am byth y daith dros ben y bryn i eglwys Mallwyd yn daith hyd yr wtra i gapel yn Ninas Mawddwy.¹²³

¹²¹ *Y Sioe Gelf*, 05/01/2003, S4C, Angharad Price a Hywel Teifi Edwards yn trafod y nofel *O! tyn y gorchudd*.

¹²² *Ibid.*

¹²³ OTYG, t. 15.

Mae Rebecca, yn y bennod gyntaf, wrth ddisgrifio gwaith Hugh Jones yn rhyfeddu ynghylch y tebygrwydd rhwng yr emyn 'O! tyn y gorchudd' a hanes ei theulu hithau:

Ymbil am gael gweld yn glir sydd yn emyn Hugh Jones. Ymbil am dynnu ymaith rhyw orchudd tywyllol.
Rhyfedd o beth.
Ychydig a wyddai Hugh Jones y byddai i'r geiriau, ganrifoedd yn ddiweddarach yng nghwm Maesglasau, adleisiau dwys i'n teulu ni.¹²⁴

Dyma ddechrau y gyfres o emynau, penillion, englynion a dyfyniadau barddol a geir yn y nofel. Maent i'w gweld o'r cychwyn cyntaf un hyd y diwedd. Cânt eu cyfuno â'r testun yn graff ac yn glyfar iawn a chredaf eu bod yn ychwanegu'n fawr at naws y nofel ei hun ac at ein gwybodaeth o'r teulu llenyddol a dawnus hwn. Fel y dywed Tudur Dylan Jones:

Dwi'n meddwl bod yr englynion yn ychwanegu achos fel ma' Angharad yn sôn mae'r teulu 'ma yn deulu llengar ... nifer ohonyn nhw'n feirdd, ac yn emynwyr wrth gwrs yn ôl y teitl, felly os na fasa'r englynion wedi cael eu cynnwys, dwi'n meddwl fyse'r hanes yn anghyflawn a dwi'n falch 'i bod hi wedi'u cynnwys nhw.¹²⁵

Cânt eu cynnwys yn gyffyrddiadau addas iawn trwy'r nofel. Yn yr un modd, y mae'r wyth llun yn ychwanegu at ein teimlad o berthyn ac yn peri inni ddod i adnabod y teulu. Maent i gyd yn ychwanegu at y teimlad bod y nofel yn adrodd hanes cwbl wir, ac y cawn gipolwg ar fywyd teulu yng nghefn gwlad Meirionnydd. Mae'r llun o deulu Tynybraich tua 1912 ar dudalen 52 yn arbennig. Yr hyn sydd fwyaf trawiadol yw disgrifiad Angharad Price ohono ym mhennod 3. Mae'n ddisgrifiad hynod fanwl a chraff sydd wedi'i ysgrifennu'n hyfryd ac yn deimladwy. Unwaith eto, mae disgrifiadau Angharad Price yn creu darlun byw yn y meddwl, a chewch weld y llun yn glir o'i disgrifiad yn unig:

¹²⁴ OTYG, t.20.

¹²⁵ 'P'nawn Da', S4C, 2002. Tudur Dylan yn siarad am *O! tyn y gorchudd*, Angharad Price.

Dau ddarn o les o boptu i'r rhesen ganol, fel dau was y neidr a ddaeth i orffwys yn fy ngwallt.¹²⁶

Er hynny, nid yw'r lluniau na'r dyfyniadau at ddant pawb, fel y dywed Elin Llwyd

Morgan:

Nid oedd gennyf lawer o ddiddordeb yn y dyfyniadau a'r cerddi a ymddengys yn y gyfrol, er i mi fwynhau edrych ar y lluniau...¹²⁷

I mi, mae Angharad Price yn cyfiawnhau ei dewis i gynnwys y dyfyniadau a'r lluniau gan ein bod yn cael hanes teulu go-iawn a chanddo hanes lliwgar. Mae hyn yn rhoi rhagor o wybodaeth bwysig inni am hanes y teulu heb amharu gormod ar y nofel ei hun, sy'n ategu'r ffaith ei bod yn nofel wir hanesyddol/hunangofiant.

Ceir sawl thema gref yn y nofel hon ac maent i gyd yn cysylltu â'i gilydd yn effeithiol. Y themâu amlycaf i mi wrth ddarllen y nofel oedd dallineb, teulu, bywyd cefn gwlad a marwolaeth. Mae Angharad Price yn ymdrin â'r themâu'n deimladwy ac yn glyfar gan beidio â dal yn ôl o ran ei defnydd ohonynt yn y nofel. Mae'n eu trafod yn ddwys ac yn eu defnyddio i glymu'r nofel ynghyd i adrodd hanes y teulu bach cyffredin hwn o Gwm Maesglasau, nad yw mor gyffredin â hynny wedi'r cyfan:

Teulu arferol a chyffredin, ac eto fel gyda phob teulu mae'n siŵr mae yma bethau anghyffredin ac anodd eu derbyn yn rhan o'r byw bob dydd.¹²⁸

Cawn hanes y brodyr dall sy'n thema anghyffredin iawn i lawer o ddarllenwyr y nofel gan fod delio â dallineb yn y cyfnod hwn yn llawer anos nag ydyw heddiw.

Ar ddechrau'r nofel, cawn y cyfeiriad cyntaf at ddallineb wrth i rieni Rebecca

ddarganfod fod eu mab bach newydd, Gruffydd, yn ddall:

¹²⁶ OTYG, tt. 54-5.

¹²⁷ Elin Llwyd Morgan, 'Teulu Tynybraich', *Barn*, 476, 2 Medi 2002, t. 43, tt. 42-3.

¹²⁸ Adolygiad gan W. Dyfrig Davies:

www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/llyfrau/straeon/020829otynygorchudd.shtml. Ymwelwyd ar 22/11/2010.

Ond pryder sydd ar wyneb y ddau wrth syllu i wyneb wythnosau oed fy mrawd bach penddu ... Gwelaf fy nhad yn estyn oriawr o boced ei wasgod. Cydia ym mhen y gadwyn, a siglo'r disg gloyw o flaen llygaid y baban. Atalia'r gadwyn. Gwasga'r watsh yng nghledd ei law cyn ei rhoi heibio eto.¹²⁹

Dyma ddarn dirdynnol iawn sy'n arwain at sioc fawr gyntaf y nofel, sef darganfod bod y mab wedi'i eni'n ddall. Mae Angharad Price wedi ei drin yn gelfydd ac mae'n ingol a theimladwy iawn. Yna, cawn wybod bod mab arall wedi'i eni'n ddall, William. Daeth yn bryd anfon y bechgyn i'r Rhyl i ysgol ragbaratoi. Ceir disgrifiad dirdynnol arall gan Angharad Price o'r bechgyn yn gadael eu cartref a'u teulu, un yn bump oed a'r llall yn dair a hanner:

Esgynnant i ben y drol ac eistedd y tu ôl i'm tad. Closiant. Cydiant yn nwylo'i gilydd. Ymgynghreiriant. Ni ddaw gair gan fy nhad, ond am hudoledd ei gefn mud.¹³⁰

O ganlyniad i anfon y meibion i'r ysgol arbennig hon yn y Rhyl, bu'r teulu'n byw mewn caledi am flynyddoedd er mwyn cynilo arian i dalu am yr addysg a oedd mor werthfawr i'r bechgyn. Ganed mab arall iddynt, Lewis, ond roedd ei sefyllfa yntau ychydig yn wahanol i'w frodyr dall eraill. Fe'i ganed â golwg, ond roedd hwnnw'n prysur ddirywio, ac yn chwech oed, newidiodd ei fywyd am byth wrth iddo yntau droi'n ddall:

Trwy las y bwtsias ar lechwedd yng nghwm Maesglasau, edrychodd i fyw llygad dallineb. A gwelodd y glas yn troi'n llwyd o'i flaen.¹³¹

Bu'r tri brawd dall yn byw bywydau llawn a chawsant bob cyfle i fyw bywyd i'r eithaf:

O blith brodyr a chwiorydd Rebecca a fu byw, roedd tri brawd yn ddall, dau o enedigaeth. Er hyn, roedd ymwybyddiaeth a chariad y rhieni tuag atynt yn golygu fod yn rhaid iddyn nhw fynd i ffwrdd i gael addysg arbennig a'r addysg

¹²⁹ OTYG, t. 47.

¹³⁰ OTYG, t. 56.

¹³¹ OTYG, t. 73.

honno yn dieithrio'r brodyr o'u teulu a hefyd o'r fro. Hyn i gyd mewn cyferbyniad llwyr â Rebecca Jones ei hun.¹³²

Efallai i hyn fod ar draul eu brawd hynaf, Bob, nad oedd yn ddall. Bu rhaid iddo aros gartref i ffermio oherwydd dallineb ei frodyr, er mai ei freuddwyd oedd mynd yn feddyg:

Carai fy nhad ffermio; casâi Bob hynny.¹³³

Nid dewis Bob oedd aros gartref i ffermio, ac roedd hyn yn wir am nifer o feibion fferm eraill ei genhedlaeth, gan fod parhau i drin tir fferm y teulu yn hanfodol. Mae'r thema hon yn berthnasol heddiw wrth i ddyfodol ffermydd teuluol Cymru fynd yn fwyfwy bregus a phlant yn gorfod aros gartref i ffermio er gwaethaf eu breuddwydion. Ar S4C yn ddiweddar (Mehefin 2013) gwelwyd addasiad ffilm o ddrama Theatr Genedlaethol Cymru, 'Tir Sir Gâr', sef 'Tir'.¹³⁴ Stori am ddyfodol fferm ydyw ar ôl i'r tad farw. Mae'r disgwyliad o gynnal a rhedeg y fferm yn disgyn ar ysgwyddau'r plant, ond nid oes sicrwydd y byddant am barhau â'r traddodiad teuluol. Mae hon yn thema bwysig na allwn ei hanwybyddu yma yng Nghymru ac mae'n thema nad yw'n cael ei thrafod ddigon.

Dyma symud ymlaen at thema arall, sef ffermio a bywyd cefn gwlad. Cawn ddarlun o agwedd ar fywyd cefn gwlad sydd bron â diflannu erbyn heddiw, sef yr arfer o helpu cymdogion o ffermydd cyfagos adeg cneifio a hel y cynhaeaf:

¹³² Adolygiad gan W. Dyfrig Davies: www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/llyfrau/straeon/020829otynygorchudd.shtml. Ymwelwyd ar 22/11/2010.

¹³³ OTYG, t. 111.

¹³⁴ 'Tir', S4C, 16/06/2013.

Hyn oedd calon y cynhaeaf i mi, pan oedd holl ffermydd Dinas Mawddwy'n cydweithio. Pawb yn hel gwair yn eu tro, a phawb yn helpu'i gilydd. Dwsin ... pymtheg ... ugain o weithwyr y fro wrthi'n cydweithredu.¹³⁵

Mae'n ddarlun hudolus o fywyd nad yw'r rhan fwyaf ohonom heddiw yn gyfarwydd ag ef, darlun sy'n dangos pwysigrwydd cymdogion a chydweithio er mwyn goroesi. Roedd yn waith llawer mwy corfforol yn y cyfnod hwn nag ydyw erbyn heddiw a dyfodiad y tractor a pheiriannau eraill wedi gwneud y gwaith lawer yn haws. Cawn ein tywys trwy arferion eraill yr oes, lladd moch yn eu plith. Cawn hefyd ddarlun o rôl y fenyw yn y cartref ac ar y fferm. Ni ddisgwylid i'r gŵr helpu'r wraig yn y tŷ o gwbl, ac roedd disgwyl i'r wraig wneud yr holl waith tŷ, gofalu am y plant a helpu ar y fferm yn ôl yr angen. Unwaith eto, gallai hyn ymddangos yn ddarlun hen ffasiwn i ni erbyn heddiw. Cawn hefyd wybod am ddyfodiad y tractor cyntaf i'r cwm wedi'r Ail Ryfel Byd, dyfodiad trydan a stof drydan, peiriant golchi, ffôn a theledu maes o law. Gwnaeth pob un o'r dyfeisiau hyn newid bywyd teulu Maesglasau a newid traddodiadau gan nad oedd bellach angen diwrnod golchi, na cherdded i'r pentref i ffonio. Mae'n braf gwybod bod hanes teulu a fferm o gefn gwlad Meirionnydd wedi'i gofnodi er mwyn i'r cenedlaethau nesaf ddarllen a deall hanes mor gyfoethog â hwn. Er hyn, nid yw'n ddarlun rhamantaidd o gefn gwlad, mae'n darlunio'r da a'r drwg ac yn rhoi golwg gyflawn i ni o'r bywyd yn hytrach na darlun rhy sentimental.

Mae teulu a marwolaeth yn ddwy thema bwysig arall yn y nofel. Nid oedd marwolaeth ymhlith plant yn anghyffredin o gwbl yn ystod y cyfnod y gosodir y nofel ynddo, sef dechrau'r ugeinfed ganrif. Ni fu'r teulu yn ddieithr i angau o gwbl trwy'r nofel a'r farwolaeth fwyaf dirdynnol oedd marwolaeth Olwen Mai, chwaer fach

Rebecca:

¹³⁵ OTYG, t. 82.

Gwrthododd doethion y capel adael inni gladdu Olwen yn gyhoeddus am na chawsai ei bedyddio, ac un henadur brwd yn mynegi'i farn mai yn syth i uffern yr âi'r un fach. Wedi machlud yr haul y gorfu i ni fynd at y fynwent.¹³⁶

Dyma ddarlun sy'n cyffwrdd â'r darlennydd am ei bod yn fabi bach ac yn cael ei thrin yn wahanol am na chafodd ei bedyddio. Rhaid cofio bod mynd i'r capel a'r ffydd Gristnogol yn rhan bwysig iawn o fywydau pobl yr adeg hon, ond yn dilyn y digwyddiad hwn, ni fu tad Rebecca ar gyfyl y capel eto. Yn syth ar ôl inni ddarllen am dristwch Olwen, ceir trasiedi arall yn y nofel, y tro hwn marwolaeth leuan, brawd bach Rebecca, ar ei ben-blwydd yn bump oed o'r diptheria. Mae dawn Angharad Price yma i ddelio â'r sefyllfa mor sensitif yn ychwanegu at naws a theimlad y darn:

Wrth i'r wawr dorri, cofiaf i leuan droi ei ben i edrych arnom, fel petai am i ni fod yn wrthrych olaf ei weld.

Cofiaf i nhad droi ymaith.

Ar ei ben-blwydd yn bump oed y bu farw leuan, yr arlunydd bach.¹³⁷

Collais ambell ddeigr yn wrth ddarllen y rhan hon o'r nofel. Teimlaf fod Angharad Price yn deall hanes a chaledi ei theulu'n berffaith a'i bod yma'n ychwanegu tynerwch i ddarn mor drist yn hanes ei theulu. Mae'n ddarn teimladwy iawn a gaiff ei ddwysáu gan ddawn ysgrifennu ystyrion a phersonol yr awdur. Llwydda i'n denu i mewn a gwneud inni deimlo'n un â'r cymeriadau ac fel petaem yn eu hadnabod yn iawn.

Cyfeirir at farwolaeth yn y bennod gyntaf un, lle mae Rebecca yn edrych yn ôl ar ei bywyd, a hithau bellach yn ei nawdegau. Nid yw hi byth am adael y cwm:

Poen dirdynnol fydd gorfod mynd a'i adael. Ond gwn hyn: pan gaf farw, a gwasgaru fy nghorff hyd dir Maesglasau, byddaf wedi rhoi fy mywyd i gyfannu eto dawelwch y cwm hwn.¹³⁸

¹³⁶ OTYG, t. 61-2.

¹³⁷ OTYG, t. 63.

Mae'n amlwg hefyd fod angau ar ei meddwl o hyd:

Marwolaeth drugarog yw marwolaeth ysglyfaeth y gwalch glas, medden nhw.
Ond a minnau yn fy nawdegau yn rhythu i wyneb angau, ac yn ceisio fy
ngorau ei anwybyddu, ni welaf unrhyw farwolaeth yn drugarog.¹³⁹

Yn y bennod olaf, cawn ein harwain eto at farwolaeth, a theimladau Rebecca. Wrth
imi ddarllen y brawddegau canlynol, a nesáu at ddiwedd y llyfr, credwn fy mod wedi
darllen hunangofiant Rebecca ei hun a'i bod hithau wedi byw i'w nawdegau:

Cefais innau fywyd hir. Rychwantodd yr ugeinfed ganrif, bron. Cefais fywyd
cyforiog o brofiad. Teimlais ddwrn profedigaeth a chleddr llawenydd. Treuliais
oriau mewn tywyllwch. Daeth goleuni eto. Dysgais mai pris cael yw colli.
Mae'r rhan fwyaf o'm cyfoedion wedi mynd bellach. Gwn y dylwn innau
dderbyn marwolaeth. Ond ni fynnaf fynd oddi yma. Rwyf yn dal i ysu byw.¹⁴⁰

Yn yr un modd ag yr agorwyd y nofel y daw'r nofel i ben trwy sôn am lif y nant wrth i
Rebecca weld ei pharhad 'ym mharhad y cwm'.¹⁴¹ Darlun o'r nant sy'n cloi'r nofel
hefyd:

A'r glaw yn powlio i lawr fy ngruddiau, fel petai'r nant ei hun yn llifo drosof, yn
fedydd o fywyd.¹⁴²

Defnyddia Angharad Price ddelwedd y nant trwy'r nofel ac mae'n rhan annatod o
fywyd a hanes y teulu. Cyhyd ag y bydd y nant yn llifo, bydd teulu Tynybraich yn
parhau yng nghwm Maesglasau:

Pan dderfydd llif y nant, bydd yn ddarfod amdanaf innau.¹⁴³

¹³⁸ OTYG, t. 9.

¹³⁹ OTYG, t. 18.

¹⁴⁰ OTYG, t. 141.

¹⁴¹ OTYG, t. 142.

¹⁴² OTYG, t. 148.

¹⁴³ OTYG, t. 12.

Yn y bennod gyntaf, dilynwn lif y nant i lawr y cwm ac wrth ei disgrifio, mae Rebecca yn ei phersonoli, yn rhoi iddi nodweddion dynol:

... yn clywed nant mis Rhagfyr yn chwerthin yn oer i fyny'i llawes.¹⁴⁴

Mae'r nant yn fyw iddi, yn ffrind, yn wythïen. Teimla ei bod yn perthyn i'r nant, eu bod yn rhan o'i gilydd. Gallwn fynd mor bell â dweud bod y nant a'r cwm yn gymeriadau yn y nofel gan eu bod yn chwarae rôl mor amlwg drwyddi draw. Yn ôl W. Dyfrig Davies:

Yn wir, mae'r man arbennig yma yn rhan o wead y prif gymeriad a'r nant fel ei gwaed yn llifo drwy ei gwythiennau.¹⁴⁵

Dywed hefyd:

Pe bai dyn yn chwilio am themâu – yr edau aur sy'n creu'r darlun mawr, un o'r prif themâu heb os yw yr un o warchod a chynnal. Mae Rebecca Jones yn ei henaint yn dal yr un mor frwdfrydig dros ei bro, yn dal i lawenhau wrth gofleidio pob rhan o'r ddaear y troediodd arno [*sic*].¹⁴⁶

Credaf ei fod wedi taro'r hoelen ar ei phen yn y disgrifiad hwn, ac mae'n ategu fy sylw blaenorol sef cyhyd ag y llifa'r nant, y bydd teulu Tynybraich yn parhau yng nghwm Maesglasau. Dyna yn y bôn yw ffermio, cynnal a gwarchod y tir, a theimlaf fod Rebecca yn teimlo agosatrydd cadarn at y cwm lle y'i magwyd hi a lle y bu ei theulu yn cynnal ac yn gwarchod y tir, yn ôl traddodiad y teulu, er 1012.

Teimlwn wrth ddarllen y nofel fod parhad y teulu hefyd yn rhan hanfodol ohoni ac o fywyd y teulu arbennig hwn. Cynnal a gwarchod y cwm i'r genhedlaeth nesaf gael ei

¹⁴⁴ OTYG, t. 12.

¹⁴⁵ Adolygiad gan W. Dyfrig Davies:

www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/llyfrau/straeon/020829otynygorchudd.shtml. Ymwelwyd ar 22/11/2010.

¹⁴⁶ *Ibid.*

fwynhau yw eu bwriad. O un genhedlaeth i'r llall, mae dynion a merched y teulu wedi trin y tir, wedi magu teuluoedd, wedi trin yr anifeiliaid ac yna wedi trosglwyddo'r awenau i'r genhedlaeth nesaf. Mae'n draddodiad hudolus nad ydym yn ei weld lawer mwyach.

Bu llawer o waith ymchwil yn gefndir i ysgrifennu'r nofel hon, a bu Angharad Price yn holi ei theulu a rhai o bobl yr ardal am hanesion ac yn edrych ar hen luniau ac ati.

Wrth siarad ar raglen 'Y Sioe Gelf', dywedodd:

Achos bod rhan fwyaf o'r llyfr yma'n digwydd cyn i fi gael fy ngeni, ro'n i'n dibynnu lot fawr ar dystiolaeth allanol – llyfrau ysgol Rebecca, a hwnnw'n dod â'r cyfan yn fyw iawn. A wedyn y lluniau, a llun y teulu yn enwedig, ac oedd o'n help i fi ddod i nabod y teulu.¹⁴⁷

Er bod y rhan fwyaf o'r nofel yn seiliedig ar ffaith, bu'n rhaid cyfuno ffaith a ffuglen er mwyn i'r nofel weithio gan fod yr awdures wedi dewis ychwanegu cymeriad, ac yn wir y prif gymeriad, ac felly bu'n rhaid ei 'hychwanegu' mewn ffordd at weddill yr hanes, ond yn ddyfais, yn gwylio'r digwyddiadau, yn mynd â rhywun i rywle. Mae hyn yn gweithio'n berffaith gan mai o safbwynt Rebecca y mae'r nofel:

Mae 'na lot fawr o'r gyfrol yn ffeithiol, yn ddyfyniadau llythrennol o'r hyn mae pobl wedi deud wrtha i. A wedyn mae'r gweddill yn gynnyrch fy nychymyg i fy hun.¹⁴⁸

Nid tasg hawdd, mae'n siŵr, fu cyfuno ffeithiau a ffuglen, ond gwnaeth Angharad Price hyn mor gelfydd ac mor argyhoeddiadol fel y mae'n dal sylw'r darllenydd hyd y diwedd ac yna'n datgelu'r gyfrinach fawr. Tro cwbl annisgwyl yn y gynffon oedd hyn i mi ac i lawer o ddarllenwyr eraill hefyd, mae'n siŵr.

¹⁴⁷ *Y Sioe Gelf*, 05/01/2003, S4C, Angharad Price a Hywel Teifi Edwards yn trafod y nofel *O! tyn y gorchudd*.

¹⁴⁸ *Ibid.*

Ceir llawer o ddarnau hynod ddisgrifiadol trwy gydol y nofel. Mae llawer ohonynt yn fanwl iawn sy'n manylu ar bethau na fyddai pobl fel arfer yn sylwi arnynt – y pethau bach hynny rydym yn dueddol o'u hanwybyddu gan nad ydynt yn sefyll allan. Mae pob darlun y mae'r awdures yn ceisio ei ddisgrifio i ni yn fyw yn ein meddyliau, mor fyw nes y teimlwn ein bod yn rhan o'r stori, ac yn sefyll ochr yn ochr â'r cymeriadau. Dyma Angharad Price yn dangos ei dawn ysgrifennu hudolus inni trwy ddefnyddio geiriau sy'n llawn ystyr a thrwy greu darluniau cofiadwy iawn, hyd yn oed wythnosau, misoedd a blynnyddoedd wedi inni ddarllen y nofel. Fel y soniais o'r blaen, fy hoff ddisgrifiad yw'r un o'r awyr wrth iddynt fynd i hel defaid y mynydd. Y lliwiau a chymharu'r awyr â chlais; dyma ddisgrifiad sydd yn bendant wedi aros yn y cof gan ei fod yn creu darlun mor fyw, mor wir.

Gan fod rhai o brif gymeriadau'r nofel yn ddall, mae disgrifiadau gan eraill yn bwysig iawn iddyn nhw ym mhob sefyllfa. Trwy ddisgrifiadau eraill y maent yn gweld y byd, nhw yw eu llygaid. Mae un darn yn aros yn y cof wrth sôn am bwysigrwydd disgrifiadau i bobl ddall:

Cofiaf yn dda eistedd wrth ei [Lewis] ymyl un dydd ar garreg drws Tynybraich, ac yntau'n gofyn:
"Dwed wrtha i rŵan be weli di."
Minnau, yn fy ffolineb, yn gweld dim arbennig o'm blaen ac yn dweud, "dim byd". Sylweddolais yn syth i mi ymateb yn fyrbwyl, a chywilyddio, gan fynd ati i ddisgrifio'r olygfa o'm blaen yn boenus o fanwl.¹⁴⁹

Rydym yn gallu cymryd rhai pethau'n ganiataol weithiau pan fo rhywbeth yn arferol i ni, a phan nad ydym yn defnyddio'n synhwyrau i'r eithaf ac yn gwerthfawrogi yr hyn a welwn, a glywn, a deimlwn ac a flaswn. Gall y pethau bach hyn droi'n bethau mawr wrth i'n synhwyrau waethygu neu bylu:

¹⁴⁹ OTYG, tt. 75-6.

Câi Lewis fodd i fyw o gymharu disgrifiadau hefyd, ar ôl gofyn i ddau wahanol ddisgrifio'r un gwrthrych. Nodai ym mha fodd y gwahaniaethent. Sylwai ar bwyslais gwahanol yn y ddau ddisgrifiad. Pendronai paham. Defnyddiai olwg ei gymdeithion i ddod i'w hadnabod yn well.¹⁵⁰

Wrth ddisgrifio, ceisiwn greu darlun, cyfleu darlun i'w drosglwyddo i eraill o'r hyn a welwyd gennym, a llwydda Angharad Price i lunio disgrifiadau cryno ond yn llawn cyfoeth a gwerth. Medr ddarlunio golygfa yn gyflawn mewn ychydig eiriau. Fel y soniais eisoes, un o'r disgrifiadau gorau yn y nofel yw'r disgrifiad a gawn o'r llun teuluol. Wrth ddarllen y disgrifiad yn unig, gwelir y darlun yn glir. Mae hi'n tynnu'r darlennydd i mewn, ac yn ein harwain ar daith drwy atgofion Rebecca. Credaf ei fod yn effeithiol gan mai'r disgrifiadau hyn yw ein llygaid i'r gorffennol, i fywyd teulu cyffredin o ganolbarth Cymru ac i fywyd sy'n prysur ddiflannu o gefn gwlad Cymru. Mewn llenyddiaeth yn gyffredinol, mae disgrifiadau yn bwysig iawn, ond credaf eu bod yn bwysicach yma gan nad oes llawer ohonom erbyn heddiw yn gyfarwydd â'r bywyd hwn. Mae pob manylyn yn bwysig.

Yn ogystal â bod yn nofel ddwys sy'n sôn am ddigwyddiadau difrifol a thrist yn hanes teulu Tynybraich, ceir hefyd ynddi ychydig o hiwmor, yn enwedig hiwmor iach yn ymwneud â'r brodyr dall:

Chwarddai'n [Lewis] braf wrth sôn am y tro hwnnw yr arhosai am fws i'w gludo i ganol y dref. Clywodd ru'r bws yn dod, estynnodd ei ffon wen i'w atal, a gofyn am diced i ganol y dref.
Nid hwn oedd y bws, meddai'r gyrrwr wrth ei gwsmer dall:
'*You need the green bus, mate.*'¹⁵¹

A hefyd, y stori am Wili'n cwmpo:

¹⁵⁰ OTYG, t. 76.

¹⁵¹ OTYG, t. 74.

Ond daeth un dydd Gwener pan adawyd mwdwl o wair yn ddi-feind ar ei lwybr. Baglodd Wili drosto; cwmpo ar ei hyd ar lawr, a phowlio din-dros-ben yr holl ffordd at waelod y rhiw. Rhuthrwyd ato. Gorwedddai yntau'n hurt ar y gwair, a'r hurtrwydd yn graddol droi'n anniddigrwydd. Roedd y ddau fag bara yn dal yn ei ddwy law, a'r dorth fach wen yn dal dan ei gesail.¹⁵²

Mae'r nofel hon yn cynnwys cyfuniad o hiwmor a thristwch gan beri i'r darlennydd fod un funud yn chwerthin, a'r funud nesaf â deigr yn dod i'w lygaid. Dyma nofel a all gyffwrdd â'ch teimladau ar sawl lefel.

Cyfieithiad

Ers blynnyddoedd bellach, mae llyfrau Cymraeg o bob math wedi'u cyfieithu i ieithoedd eraill, ac nid yw *O! tyn y gorchudd* yn eithriad. Fe'i cyfieithwyd i'r Saesneg gan Lloyd Jones, sy'n nofelydd yn y Gymraeg a'r Saesneg, yn 2010.¹⁵³ Ychydig yn wahanol i'r arfer cyffredin, cyhoeddwyd fersiwn Saesneg y nofel ochr yn ochr â'r fersiwn Cymraeg gwreiddiol. Mae adolygiad ar wefan Gwales gan Suzy Ceulan Hughes yn dechrau â'r frawddeg hon – 'Well, I'm not sure whose feet I'd like to kiss first: Angharad Price's for writing this exquisite novel; Lloyd Jones's for his superb translation; or the publishers for bringing the two together in this parallel text.'¹⁵⁴ Dyna ichi frawddeg arbennig i ddechrau adolygiad. Brawddeg sy'n gwneud i rywun fod eisiau gwybod rhagor am yr hyn sy'n cael ei adolygu.

Trwy edrych ar wefannau Gwales¹⁵⁵ a Gomer,¹⁵⁶ gwelaf mai cymharol ychydig o lyfrau Cymraeg sydd wedi'u cyfieithu i'r Saesneg, er bod yr arfer ar gynydd. Mae

¹⁵² OTYG, t. 89.

¹⁵³ *The Life of Rebecca Jones / O! tyn y gorchudd* (Trosiadau/Translations) cyfieithiad gan Lloyd Jones (Llandysul, 2010).

¹⁵⁴ Adolygiad gan Suzy Ceulan Hughes ar wefan www.gwales.com trwy ganiatâd Cyngor Llyfrau Cymru: <http://www.gwales.com/goto/biblio/cy/9781848511750/>. Ymwelwyd ar 22/11/2010.

¹⁵⁵ www.gwales.com.

¹⁵⁶ www.gomer.co.uk.

nofelau megis y canlynol wedi'u cyfieithu i'r Saesneg: *Un Nos Ola Leuad* (*One Moonlit Night*)¹⁵⁷ gan Caradog Prichard y cyhoeddwyd y cyfieithiad ohoni ym 1995, *Te yn y Grug* (*Tea in the Heather*)¹⁵⁸ gan Kate Roberts yn 1968, *Traed Mewn Cyffion* (*Feet in Chains*)¹⁵⁹ gan Kate Roberts yn 1977, *Seren Wen ar Gefndir Gwyn* (*White Star*)¹⁶⁰ gan Robin Llywelyn yn 2003, *O'r Harbwr Gwag i'r Cefnfor Gwyn* (*From Empty Harbour to White Ocean*)¹⁶¹ ym 1996, *Y Goeden Wen* (*White Tree*)¹⁶² gan Sonia Edwards yn 2006, cyfrol y bu bron iddi ennill y Fedal Ryddiaith yn 2001, *Rhwng Noson Wen a Phlygain* (*A White Veil for Tomorrow*)¹⁶³ gan Sonia Edwards yn 2001. Mae nifer o nofelau eraill sydd wedi'u cyfieithu yn rhan o gyfres Trosiadau/Translations Gwasg Gomer, e.e. *Y Lôn Wen* (*The White Lane*, 2009),¹⁶⁴ *Si Hei Lwli* (*Twilight Song*, 2004),¹⁶⁵ *Hen Dŷ Ffarm* (*The Old Farmhouse*, 2001),¹⁶⁶ *Triptych* (2001),¹⁶⁷ *Gwaliadir* (*Walesland*, 2006)¹⁶⁸, ac wrth gwrs, *O! tyn y gorchudd* (*The Life of Rebecca Jones*, 2010).¹⁶⁹ Wrth edrych ar y llyfrau Cymraeg sydd wedi'u cyfieithu, maent yn cynnwys gwaith rhai o nofelwyr enwocaf a mwyaf amlwg Cymru megis Kate Roberts, Robin Llywelyn ac Angharad Tomos. Felly, credaf ei bod yn arwyddocaol fod nofel Angharad Price, a ysgrifennodd am ei theulu ac na chredai y byddai o ddiddordeb i odid neb, wedi cael ei chynnwys yn y gyfres hon. Mae'n werth sôn yma am Gyfnewidfa Lân Cymru lle y gwelir rhestr o weithiau Cymraeg sydd wedi'u cyfieithu i amrywiaeth eang iawn o ieithoedd ar draws y byd, er enghraifft:

¹⁵⁷ Caradog Prichard, *One Moonlit Night* (cyfieithiad gan Philip Mitchel) (Edinburgh, 1995).

¹⁵⁸ Kate Roberts, *Tea in the Heather* (cyfieithiad gan Wyn Griffith) (Cardiff, 1968).

¹⁵⁹ Kate Roberts, *Feet in Chains* (cyfieithiad gan John Idris Jones) (Cardiff, 1977).

¹⁶⁰ Robin Llywelyn, *White Star* (cyfieithiad gan Gwen Davies) (Cardigan, 2003).

¹⁶¹ Robin Llywelyn, *From Empty Harbour to White Ocean* (cyfieithiad gan Robin Llywelyn) (Cardiff, 1996).

¹⁶² Sonia Edwards, *White Tree* (cyfieithiad gan Sonia Edwards) (Cardiff, 2006).

¹⁶³ Sonia Edwards, *A White Veil for Tomorrow* (cyfieithiad gan Sonia Edwards) (Cardiff, 2001).

¹⁶⁴ Kate Roberts, *The White Lane* (cyfieithiad gan Gillian Clarke) (Llandysul, 2009).

¹⁶⁵ Angharad Tomos, *Twilight Song* (cyfieithiad gan Elin ap Hywel) (Llandysul, 2004).

¹⁶⁶ D. J. Williams, *The Old Farmhouse* (cyfieithiad gan Waldo Williams) (Llandysul, 2001).

¹⁶⁷ R. Gerallt Jones, *Triptych* (cyfieithiad gan R. Gerallt Jones) (Llandysul 2001).

¹⁶⁸ Nigel Wells, *Walesland* (cyfieithiad i'r Gymraeg gan Caryl Lewis) (Llandysul, 2006).

¹⁶⁹ Angharad Price, *The Life of Rebecca Jones* (cyfieithiad gan Lloyd Jones) (Llandysul, 2010).

Mae cyfieithiadau diweddar o'r wasg yn cynnwys cyfrol o farddoniaeth gan Menna Elfyn wedi ei chyfieithu i'r Sbaeneg gan Eli Tolaretxipi, a gafodd ei lansio fis Mai yng Ngwlad y Basg, gyda chyfieithiad Basgeg i ddilyn.¹⁷⁰

Hefyd ar wefan y Gyfnewidfa Lên, ceir Silff Lyfrau sy'n cynnwys 'detholiad blynyddol o lyfrau a argymhellir gan y Gyfnewidfa ar gyfer cyfieithu dramor'.¹⁷¹ Ar y silff eleni, er enghraifft mae *Blasu*¹⁷² gan Manon Steffan Ros, *Ras Olaf Harri Selwyn*¹⁷³ gan Tony Bianchi, a *Gwreiddyn Chwerw*¹⁷⁴ gan Jerry Hunter. Yn 2002, cyfieithwyd *O'r Harbwr Gwag i'r Cefnfor Gwyn*, Robin Llywelyn i'r Eidaleg gan Erminia Passannanti, *Da porto deserto a bianco oceano*.¹⁷⁵ Mae'r prosiect hwn yn helpu trwy ariannu cyhoeddwr tramor i gyfieithu gwaith llenyddol o Gymru. Mae'n brosiect ardderchog sy'n cynnig cam arall i awduron o Gymru o ran cyrraedd cynulleidfaoedd ar draws y byd.

Bellach, mae *The Life of Rebecca Jones*¹⁷⁶ wedi'i gyhoeddi heb y testun Cymraeg yn gyfochrog yn 2012. Dywedir ar y clawr cefn:

The Life of Rebecca Jones is a powerful meditation on one family's passage through the twentieth century. It was an instant classic when first published in Welsh.¹⁷⁷

Yn syth, rhoddir disgwyliadau uchel iawn i'r darlennydd Saesneg fod y nofel hon yn un sydd wedi cydio yng nghalonau'r genedl yn ei hiaith wreiddiol, gan wneud swyddogaeth Lloyd Jones yn bwysicach byth, felly, o ran trosglwyddo'r iaith goeth a'r

¹⁷⁰ Cyfnewidfa Lên Cymru: <http://waleslitexchange.org/cy/translation/translations1/P30>. Ymwelwyd ar 07/09/2013.

¹⁷¹ Cyfnewidfa Lên Cymru: <http://waleslitexchange.org/cy/books/our-bookshelf1/>. Ymwelwyd ar 07/09/2013.

¹⁷² Manon Steffan Ros, *Blasu* (Talybont, 2012).

¹⁷³ Tony Bianchi, *Ras Olaf Harri Selwyn* (Llandysul, 2012).

¹⁷⁴ Jerry Hunter, *Gwreiddyn Chwerw* (Pwllheli, 2012).

¹⁷⁵ http://waleslitexchange.org/cy/translation/by_title_filter/d. Ymwelwyd ar 07/09/2013.

¹⁷⁶ Angharad Price, *The Life of Rebecca Jones*, Translated from Welsh by Lloyd Jones (London, 2012).

¹⁷⁷ *Ibid*, y clawr ôl.

stori wefreiddiol mor gywir â phosibl er mwyn ceisio sicrhau y caiff y darlennydd Saesneg yr un teimpladau gwefreiddiol ag a gafodd y darlennydd yn Gymraeg.

Mewn darlith gan Angharad Price ym 1997 ar y proses o gyfieithu, ceir sawl pwynt pwysig sydd yn rhaid i ni eu cofio wrth ystyried y proses o gyfieithu a ddilynwyd gan Lloyd Jones ac, yn wir, bwysigrwydd cyfieithu nofelau Cymraeg i ieithoedd eraill yn gyffredinol:

Gwir bob gair a ddywedodd R. Gerallt Jones yn rhifyn Cymraeg y gyfres Modern Poetry in Translation yn 1995: '*For those of us who write in languages accessible only to a few, translation, however inadequate, is the only way we have of reaching a wider audience; and reaching a wider audience is, in my view, important*' [Johnston 1995, 74]. Ydi, a bod yn wylaidd, mae cyfieithu'n ffordd heb ei hail i farchnata'n llên a'n cynnal ein hunain. Ac ydi, mae hynny yn bwysig: dangos i bobloedd eraill y byd y trysor o lenyddiaeth sydd gennym yn y Gymraeg.¹⁷⁸

Er hyn, a oes modd cyfieithu nofel o'r Gymraeg i'r Saesneg yn llwyddiannus heb gollu rhywfaint ar yr ystyr, y naws a'r profiad? Ar wefan Maes-e o dan y pwnc trafod 'O! Tyn y Gorchudd',¹⁷⁹ ceir sylw gan Boris:

Os da chi heb ddarllen y nofel gwnewch hynny nawr. Dyma'r ddadl gryfaf ers dipyn i mi ei weld dros sicrhau parhad y Gymraeg – wedi'r cyfan, fyddai O! Ty'n y Gorchudd [*sic*] dim [*sic*] yn gweithio mewn iaith arall.¹⁸⁰

Roeddwn innau ar y pryd yn cytuno â'r sylw hwn gan Boris, ond ar ôl darllen cyfieithiad Lloyd Jones, rwy'n anghytuno. Mae Lloyd Jones, nofelydd Saesneg yn bennaf, hefyd wedi cyhoeddi nofelau yn y Gymraeg, sef *Y Dŵr*¹⁸¹ ac *Y Daith*.¹⁸² Mae

¹⁷⁸ Angharad Price, 'Cyfoeth Cyfieithu' Angharad Price. Darlith S4C a draddodwyd yng Ngŵyl y Gelli, Mai 1997. *Taliesin*, cyfrol 100, Gaeaf 1997, t. 23, tt. 11-39.

¹⁷⁹ Maes-e.com: O Tyn y Gorchudd: <http://maes-e.com/viewtopic.php?f=9&t=2827>. Ymwelwyd ar 04/12/2010.

¹⁸⁰ *Ibid.*

¹⁸¹ Lloyd Jones, *Y Dŵr* (Talybont, 2009).

¹⁸² Lloyd Jones, *Y Daith* (Talybont, 2011).

ei ddawn i gyfieithu rhyddiaith i'w gweld yn amlwg rhwng y tudalennau, ac ategir hyn gan Katie Gramich yn ei hadolygiad ar y cyfieithiad yn *Y Traethodydd*:

Mae Lloyd Jones yn addasu ei lais i lais Rebecca Jones mewn ffordd hynod sensitif. Ond nid geiriau merch yn unig oedd yn rhaid i Lloyd Jones dafleisio. Mewn gwirionedd, mae llawer o gyweiriau gwahanol yn y testun cymhleth hwn, sy'n ymdebygu i'r 'cwilt clytwaith' rydym yn gweld Rebecca hithau yn ei wnïo yn y stori.¹⁸³

Ac yna wrth sôn am gyfieithu'r dyfyniadau o waith Hugh Jones, yr emynydd o Faesglasau:

Mae gorchest Lloyd Jones yma yn haeddu clod arbennig. Hawdd o beth fyddai gor-wneud yr iaith hynafol, ond mae'r cyfieithydd yn efelychu urddas y Gymraeg gwreiddiol heb aberthu ystwythder.¹⁸⁴

Mae cyfieithu rhyddiaith a barddoniaeth yn dasg ynddi ei hun, ond mae cyfieithu iaith gywrain a disgrifiadau Angharad Price yn ogystal â'r holl ddyfyniadau blodeuog a geir trwy gydol y nofel yn dasg anos, mae'n siŵr. Wrth i Gwion Hallam ystyried a ddylai'r cyfieithiad Saesneg eistedd ochr yn ochr â'r Cymraeg gwreiddiol, dywed:

Dywed (Lloyd Jones) mai ei fwriad fel cyfieithydd oedd 'diflannu': colli ei lais er mwyn i lais y nofel wreiddiol gael siarad. A dyna sy'n digwydd. Nofel Angharad Price yw hi o hyd, wrth gwrs. Hi sydd berchen ei holl stori, ei hystyr a'i thaith, a'r un ias a'r un wefr mae'n ei rhoi.¹⁸⁵

Ac mae'n ychwanegu:

Ynglwm wrth hyn y daw'r unig beth negyddol: llyfr dwyieithog yw hwn. Yn ddi-os, mae manteision i gyhoeddi'r ddwy iaith ochr yn ochr fel hyn; i ddysgwyr Cymraeg yn enwedig, o bosib. Ond ymddengys mai manteision i bobl ym myd addysg neu ymchwil ydyw yn bennaf; rhai â diddordeb yng nghreffft y cyfieithu ei hun, neu yn y berthynas – neu ddiffyg perthynas – rhwng yr ieithoedd. Ac mae hynny'n ddifyr a phwysig. Ond o ran y nofel ei hun fel cyfanwaith ac o ran hyrwyddo a dosbarthu'r addasiad, onid cyfrol uniaith Saesneg fyddai orau? Y Gymraeg, fel y soniwyd eisoes yw holl guriad y nofel

¹⁸³ Katie Gramich, Adolygiad o *O! tyn y gorchudd / The Life of Rebecca Jones*, Angharad Price, cyfieithwyd gan Lloyd Jones, *Y Traethodydd*, Ebrill 2011, t. 123, tt. 122-5.

¹⁸⁴ *Ibid.*

¹⁸⁵ Gwion Hallam, 'Gwion Hallam sy'n ail-fyw gwefr *O! Tyn y Gorchudd* yn Saesneg, ond yn gofyn a ddylai'r fersiwn Saesneg a'r Gymraeg eistedd ochr yn ochr', *Taliesin*, 140 (Haf 2010), t. 153, tt. 152-4.

(ac – yn ddigamsyniol – nofel Gymraeg yw hi, wedi ei hysgrifennu yn Saesneg!) ond gan fod *The Life of Rebecca Jones* yn bodoli hefyd erbyn hyn, onid gwell fyddai iddi hithau gael troedio ar ei phen ei hun? Yna lledu ei hadenydd a chodi. Mynd â Chymru – a'r Gymraeg – at y byd a wnâi hi wedyn, mae hynny'n sicr.¹⁸⁶

Dyma bwynt dilys iawn gan Gwion Hallam. Anodd yw tybio y byddai unrhyw ddarllenlydd di-Gymraeg yn gwerthfawrogi cael y fersiwn gwreiddiol ochr yn ochr â'r cyfieithiad, ond eto mae'n rhaid bod y dull hwn yn gweithio gan fod Gwasg Gomer yn eu cyhoeddi fel cyfres. Byddai'r fersiwn dwyieithog yn addas i ddysgwyr neu i unigolion sydd am ei ddarllen yn y Gymraeg ond heb fod yn hollol hyderus y byddent yn deall popeth yn Gymraeg.

Yn narlith Angharad Price, mae hefyd yn sôn am y pwyntiau y mae angen eu hystyried wrth gyfieithu gwaith o un iaith i iaith arall:

Roedd saith elfen yn y gwaith gwreiddiol – saith plyg ieithyddol a diwylliannol – y bu'n rhaid eu trin a'u trafod yn hir gyda'm cyd-gyfieithwyr wrth gyfieithu o'r Gymraeg. Dyma'r saith elfen: cyfeiriadaeth; cystrawen; cywair; diwylliant; miwsig; geirfa; priod-ddull. Y saith elfen hon, am a welaf i, sydd raid eu hystyried wrth gyfieithu o unrhyw iaith.¹⁸⁷

Cyfeirio y mae Angharad Price yma at y proses o gyfieithu darn o waith gan Robin Llywelyn o'r Gymraeg i'r Almaeneg a hefyd i'r Saesneg. Mae'r Gymraeg yn iaith mor wahanol i'r Saesneg. Gellir defnyddio, er enghraifft, yr amheronol yn y Gymraeg i amrywio'r brawddegau, ond ni ellir gwneud hyn yn y Saesneg. Trafodir hyn yn fanylach gan Angharad Price yn ei darlith.¹⁸⁸

Dywed Lloyd Jones:

¹⁸⁶ *Ibid.*, t. 154.

¹⁸⁷ Angharad Price, 'Cyfoeth Cyfieithu', Darlith S4C a draddodwyd yng Ngŵyl y Gelli, Mai 1997. *Taliesin*, cyfrol 100, Gaeaf 1997, t. 27, tt. 11-39.

¹⁸⁸ *Ibid.*

As soon as I read Angharad's book, I knew it was a pocket masterpiece which deserved a wider audience. And I really enjoyed the experience of translating it: I only hope that I've done it justice. Of course, no translation can truly capture the original, especially a book which is so quintessentially Welsh as *O! tyn y gorchudd*. I wanted to mirror its sensitivity, its shyness, its quiet reflectiveness and its ancient dignity.¹⁸⁹

Mae'n siŵr mai baich mawr i Lloyd Jones fu cyfieithu nofel a fu'n gymaint o lwyddiant yn ei hiaith wreiddiol, ond ceir pwynt teg iawn gan Angharad Price yn ei darlith ar gyfieithu:

Cyfieithwn o'r Gymraeg, felly, a'i gweld yn aeddfedu, a gweld ieithoedd eraill yn esgor ar bethau newydd yn ei sgil! Tra bo pawb wrthi am y gorau'n synio am y golled sy'n digwydd wrth gyfieithu ... canolbwyntiwn ar yr ennill, ar y cyfoethogi sy'n digwydd wrth greu, cydraddoli a chadarnhau'r berthynas rhwng ieithoedd, ar y cyfoethogi sy'n digwydd wrth gyf-ieithu.¹⁹⁰

Mae'n rhaid inni feddwl am gyfieithu yn gam cadarnhaol yn hytrach nag yn gam negyddol ac, yn wir, mae'n gam cadarnhaol iawn bod rhagor o bobl yn cael mwynhau'r nofel arbennig hon. Efallai y dylem feddwl am gyfieithu rhagor o'n nofelau Cymraeg. Yn ôl Katie Gramich:

Yr hyn y mae Angharad Price wedi llwyddo i'w wneud, yn debyg i'w neiniau llenyddol, Kate Roberts a Margiad Evans, yw consurio'r meirw allan o'u beddau er mwyn rhoddi iddynt fywyd newydd yn y llyfr hwn. Yn hyn o beth, mae Lloyd Jones wedi gweithredu fel bydwraig dyner a theimladwy yn trosglwyddo Rebecca i'r Cymry di-Gymraeg a, hwyrach, i boblogaeth fyd-eang o ddarllenwyr Saesneg.¹⁹¹

Mae gennym gorff o lenyddiaeth cyfoethog a gwerthfawr iawn gan nifer mawr o awduron sy'n deilwng o gael cynulleidfa y tu hwnt i Glawdd Offa mewn amryw o ieithoedd. Wrth edrych ar y rhyngryd, deuthum ar draws nifer mawr o adolygiadau

¹⁸⁹ Angharad Price, *The Life of Rebecca Jones*, 2012. Translator's Notes, Lloyd Jones, t. 158, tt. 158-9.

¹⁹⁰ Angharad Price, 'Cyfoeth Cyfieithu'. Darlith S4C a draddodwyd yng Ngŵyl y Gelli, Mai 1997. *Taliesin*, cyfrol 100, Gaeaf 1997, t. 26, tt. 11-39.

¹⁹¹ Katie Gramich, 'Adolygiad o *O! Tyn y Gorchudd* / *The Life of Rebecca Jones*, Angharad Price, cyfieithwyd gan Lloyd Jones', *Y Traethodydd*, Ebrill 2011, t. 125, tt. 122-5.

o fersiwn Saesneg *O! tyn y gorchudd*, sef *The Life of Rebecca Jones*¹⁹² a gyhoeddwyd yn 2012. Daw'r adolygiadau hyn o wefannau megis *The Independent*,¹⁹³ *World Literature Today*¹⁹⁴ a *GoodReads*.¹⁹⁵ Dywedir yn adolygiad *The Independent*:

Price's book achieves a rare feat indeed. A lovingly crafted account of Welsh-speaking rural life on the brink of dissolution or at least transformation, it serves both as a touching, tender document and as a thoroughly artful exercise in storytelling – one that, in methods and motifs, can claim a place on the shelf beside Berger, Sebald and Ondaatje. Widely hailed as the first Welsh classic of the 21st century, it now stands tall – whether great-aunt Rebecca would have liked it or not – as a peak of modern British writing too.¹⁹⁶

Dyma ddyfyniad o *Goodreads*:

The Life of Rebecca Jones has all the makings of a classic, fixing on a vanishing period of rural history, and the novel's final, unexpected revelation remains unforgettable and utterly moving.¹⁹⁷

Canmoliaeth a geir hefyd yn adolygiad yr *Historical Novel Society*:

It reads like a memoir — the author is closely related to this family — but it is actually a novel. I can't say why, because to do so would destroy the central premise. I defy anyone to read it and not be moved. It is like nothing I've ever read before. I put the book down feeling different about myself and the world. My only regret is that I couldn't enjoy it in its original language. Highly recommended for those who like their reading to be both quiet and deeply felt.¹⁹⁸

¹⁹² Angharad Price, *The Life of Rebecca Jones* (cyfieithwyd gan Lloyd Jones) (London, 2012).

¹⁹³ *The Independent*: <http://www.independent.co.uk/arts-entertainment/books/reviews/the-life-of-rebecca-jones-a-novel-by-angharad-price-trans-lloyd-jones-7660996.html>. Ymwelwyd ar 06/09/2013.

¹⁹⁴ *World Literature Today*: <http://www.worldliteraturetoday.org/2012/may/editors-choice-life-rebecca-jones-angharad-price#.UgY9LSIwaM8>. Ymwelwyd ar 06/09/2013.

¹⁹⁵ *GoodReads*: <http://www.goodreads.com/book/show/13501245-the-life-of-rebecca-jones>. Ymwelwyd ar 06/09/2013.

¹⁹⁶ *The Independent*: <http://www.independent.co.uk/arts-entertainment/books/reviews/the-life-of-rebecca-jones-a-novel-by-angharad-price-trans-lloyd-jones-7660996.html>. Ymwelwyd ar 06/09/2013.

¹⁹⁷ *GoodReads*: <http://www.goodreads.com/book/show/13501245-the-life-of-rebecca-jones>. Ymwelwyd ar 06/09/2013.

¹⁹⁸ *Historical Novel Society*: <http://historicalnovelsociety.org/reviews/the-life-of-rebecca-jones/>. Ymwelwyd ar 06/09/2013.

Braf iawn yw gwybod bod pobl y tu hwnt i Glawdd Offa'n gallu mwynhau a gwerthfawrogi dawn ysgrifennu Angharad trwy gyfieithiad teimladwy Lloyd Jones a dod i wybod am hanes ardal o Gymru yn ystod yr ugeinfed ganrif.

Yn fy nghyfweliad ag Angharad Price, gofynnais iddi am ei barn am gyfieithiad Lloyd Jones o'i nofel. Dyma ei hymateb i'r cwestiwn:

Doeddwn i ddim yn awyddus i gyfieithu 'O, Tyn y Gorchudd' yn wreiddiol, yn rhannol am fy mod yn credu na ellid gwneud hynny yn foddhaol, ac yn rhannol gan nad oeddwn eisio i ragor o bobl fynd i'r fferm a tharfu ar fy ewythr wrth iddo geisio gwneud ei waith! Yn 2009 holodd Lloyd Jones a fyddai'n iawn iddo fynd ati i'w chyfieithu, ac erbyn hynny teimlwn fod y llyfr wedi cael digon o gyfle i 'fyw' yn y Gymraeg (heb i gyfieithiad Saesneg ddechrau anadlu i lawr ei war). Roedd Lloyd ei hun wedi ei fagu ar fferm yn Eryri, ac roeddwn yn edmygu ei sgwennu dyfeisgar mewn nofel fel 'Mr Vogel'. Llwyddodd yn rhyfeddol i gyfleu'r holl gyweiriau Cymraeg gwahanol, heb sôn am y darnau o englynion ac emynau. Ond mi wnes i fusnesu llawer gormod yn y cyfieithiad! Er mawr syndod, roedd gennyf syniad clir o'r math o Saesneg y dylai Rebecca ei lefaru (Saesneg nad oedd yn rhy rwydd ac idiomatig). Roedd Lloyd yn hael, ac yn barod i newid ambell frawddeg, ac rydw i'n ddiolchgar iddo am adael i mi wneud hynny. Cyfaddawd ydi'r cyfieithiad Saesneg, fel unrhyw gyfieithiad. Ond un canlyniad gwerthfawr oedd bod aelodau di-Gymraeg y teulu (sef plant a wyrion Gruffydd a Lewis) wedi gallu darllen hanes eu teulu.¹⁹⁹

Dyweddodd Angharad Price hefyd fod y nofel ar hyn o bryd yn cael ei chyfieithu i Fengali! Yn ogystal, gwelaf yn awr ar wefan *Y Gyfnewidfa Lân*²⁰⁰ bod hawliau'r nofel wedi'u gwerthu i gwmni DTV o'r Almaen, felly tybiaf y bydd fersiwn Almaeneg ar gael mae o law. Mae'n siŵr na feddyliodd erioed y byddai ei nofel am hanes ei theulu yng nghefn gwlad Cymru yn cyflawni cymaint ac y byddai'n cyrraedd cynifer o bobl ag y mae wedi'i wneud. Ar wefan MacLehose Press,²⁰¹ sef cyhoeddwy'r fersiwn uniaith Saesneg o *O! tyn y gorchudd* yn 2012, dywedir:

¹⁹⁹ Cyfweliad e-bost gydag Angharad Price, Gorffennaf 2013.

²⁰⁰ <http://waleslitexchange.org/en/books/view/o-tyn-y-gorchudd-the-life-of-rebecca-jones>.

Ymwelwyd ar 22/03/2014.

²⁰¹ MacLehose Press: <http://maclehosepress.com/blog/the-lives-of-the-life-of-rebecca-jones/>.

Ymwelwyd ar 06/09/2013.

And of course the next step is for the rights to be sold in Europe and America and beyond so that Rebecca will be granted a fourth life, and a fifth, a sixth, maybe even a tenth or a seventeenth. All lived in the remote valley where her family have farmed the land for a thousand years.²⁰²

Dyma lwyddiant rhyfeddol i nofel o Gymru a ddechreuodd ar ei thaith fel nofel i'r teulu yn unig.

Yn ogystal â chael ei chyfieithu i'r Saesneg, mae *O! tyn y gorchudd* hefyd wedi'i recordio ar CD. Mae'n ymuno â nofelau poblogaidd eraill sydd wedi'u rhoi ar CD gan gynnwys *Martha, Jac a Sianco*,²⁰³ *Y Dylluan Wen*,²⁰⁴ *Y Stafell Ddirgel*,²⁰⁵ *Te yn y Grug*,²⁰⁶ *Un Nos Ola Leuad*,²⁰⁷ *Cysgod y Cryman*,²⁰⁸ *Y Gongol Felys*²⁰⁹ ac *I Ble'r Aeth Haul y Bore*.²¹⁰ Mae cael nofel ar CD yn cynnig profiad arall i'r sawl sy'n gwrando ar eiriau Angharad Price. Mae hefyd yn agor y drysau i gynulleidfa newydd o 'ddarllenwyr', er enghraifft y deillion, a chredaf fod hynny'n bwysig iawn, yn enwedig yn achos y nofel hon, gan fod dallineb yn thema mor bwysig drwyddi. Gofynnais i Angharad Price a gredai i hyn fod yn gam gwerthfawr, gan gofio hefyd fod Merched y Wawr Meirionnydd wedi ariannu'r proses o greu fersiwn Braille o'r nofel:

Golygai cael y fersiwn CD bod Lewis wedi gallu gwrando ar y llyfr yn cael ei ddarllen, er imi fy hun wneud recordiad iddo yn fuan wedi 2002.

Gobeithio bod rhywbeth yn y llyfr sydd o ddiddordeb i bobl sydd ddim yn gweld. Adroddodd Lewis lawer o'i brofiadau a'i atgofion wrthyf, a hynny mewn modd cofiadwy a dirdynnol, a rhoddais y cyfan yn y gwaith. Ond rydw i'n siŵr

²⁰² *Ibid.*

²⁰³ Caryl Lewis, *Martha, Jac a Sianco*. Cyhoeddwyd y CD yn 2005 gan Gwmni Recordiau Sain.

²⁰⁴ Angharad Jones, *Y Dylluan Wen*. Cyhoeddwyd y CD yn 2005 gan Tympan.

²⁰⁵ Marion Eames, *Y Stafell Ddirgel*. Cyhoeddwyd y CD yn 2005 gan Tympan.

²⁰⁶ Kate Roberts, *Te yn y Grug*. Cyhoeddwyd y CD yn 2004 gan Gwmni Recordiau Sain.

²⁰⁷ Caradog Prichard, *Un Nos Ola Leuad*. Cyhoeddwyd y CD yn 2004 gan Gwmni Recordiau Sain.

²⁰⁸ Islwyn Ffowc Elis, *Cysgod y Cryman*. Cyhoeddwyd y CD yn 2005 gan Tympan.

²⁰⁹ Meinir Pierce Jones, *Y Gongol Felys*. Cyhoeddwyd y CD yn 2007 gan Tympan.

²¹⁰ Eirug Wyn, *I Ble'r Aeth Haul y Bore*. Cyhoeddwyd y CD yn 2005 gan Tympan.

fod yna lawer o bethau na soniodd amdanynt hefyd, am na fynnai neu am na allai. Felly, rydw i'n fwy nag ymwybodol fy mod yn sgwennu 'o'r tu allan' am ddallineb. Rebecca yn sôn am ei brodyr a geir yn y gwaith, nid profiad y brodyr eu hunain. Llyfr gwahanol fyddai hwnnw.²¹¹

Mae cael y nofel ar CD hefyd yn galluogi pobl i wrando ar y nofel wrth iddynt deithio yn y car, er enghraifft, gan fod bywydau pobl mor brysur y dyddiau hyn ac nad oes gan bawb yr amser na'r cyfle i ddarllen nofelau.

Mae llwyddiant a chreffft Angharad Price wrth ysgrifennu *O! tyn y gorchudd* yn amlwg wrth ddadansoddi'r nofel gan fod ei dawn ysgrifennu'n llifo trwy'r penodau i gyd. Mae hi wedi llwyddo i gyfleu cymaint mewn nofel mor fyr a gwelir o ddadansoddiad y bennod hon nad hyd y nofel sy'n bwysig, ond ei chynnwys teimladwy, hanesyddol sy'n agor llygaid llawer ohonom i oes na wyddem lawer amdani.

Ar ôl pwyso a mesur rhinweddau'r nofel, ac ystyried ei chynnwys a'i themâu, yn ogystal â'r cyfieithiad, credaf ei bod yn gywir dweud ei bod yn waith penigamp a'i bod ar y trywydd iawn i fod yn nofel arbennig o boblogaidd. Yng ngoleuni sylwadau'r beirniaid llenyddol ac ar ôl i mi ddadansoddi'r nofel dros fy hun, teimlaf fod nodweddion 'clasur' i'w gweld yn y nofel hon. Mae'r stori'n ddirdynol ac yn un y gall llawer o bobl uniaethu â hi ond eto mae'n agor drysau i fyd gwahanol i lawer ohonom, a chredaf ei bod yn cyfateb i'r dim i sylw John Sutherland a nodais yn y rhagymadrodd:

'Classic' is a category that defines what we regard as culturally important; what, when all else goes under, must be preserved...²¹²

²¹¹ Cyfweliad e-bost ag Angharad Price, Gorffennaf 2013.

²¹² John Sutherland, *50 literature ideas you really need to know* (London, 2011), t. 17.

Ategir y diffiniad hwn gan y sylwadau rwyf wedi'u nodi yn y bennod hon, er enghraifft o Maes-e.com ac ymateb W. Dyfrig Davies. Byddaf, yn y bennod nesaf, yn trafod rhagor ar hyn trwy ddadansoddi atebion yr holiaduron a gefais, er mwyn gweld a ydyn nhw'n cytuno neu'n anghytuno â'r awgrym fod *O! tyn y gorchudd* yn haeddu statws 'clasur' ac i ystyried eu barn gyffredinol am y nofel.

Pennod 3: Dadansoddi ymatebion yr holiaduron

Wrth gynllunio'r astudiaeth hon, penderfynais y byddai o fudd imi greu holiadur er mwyn gallu cael barn y cyhoedd a darllenwyr y nofel amdani. Bu rhaid meddwl, cyn penderfynu ar y cwestiynau, pa fath o drywydd yr oeddwn am ei gymryd â'r holiadur, a'r hyn yr hoffwn ei ddysgu drwyddo. Y peth pwysicaf imi ei gael allan o'r holiaduron hyn oedd pam y mae'r llyfr hwn wedi cyffwrdd â chynifer o bobl, ac ym mha ffyrdd, gan geisio dadansoddi o'r atebion sut y mae'r nofel wedi troi'n ffenomen lenyddol. A oedd dynion yn ymateb yn wahanol i ferched? A oedd oedran yn effeithio ar eu barn? Ac a oedd lleoliad y darllenwyr yn berthnasol o gwbl? Tybiaf fod y darllenydd yn bwysig i bob awdur, er bod pob darllenydd yn rhydd i ddehongli'r deunydd fel y myn. Penderfynais ar un ar hugain o gwestiynau i'w rhoi yn yr holiaduron, yna ceisio eu dosbarthu i bob cwr o Gymru.


Y cam cyntaf a gymerais wrth eu dosbarthu oedd holi'r rhai o blith fy ffrindiau a'm teulu y gwyddwn eu bod wedi darllen y nofel. Fe greais grŵp ar *Facebook* yn holi am atebion, ac yn wir, cefais ymateb gwych. Cysylltais hefyd â phob papur bro trwy'r wlad gan eu holi a fyddent yn fodlon cynnwys llythyr yr oeddwn wedi ei ysgrifennu i geisio denu pobl i ateb fy holiadur. Yn ogystal, gofynnais i fudiad Merched y Wawr roi gwybodaeth amdano yn eu cylchgrawn tymhorol sef *Y Wawr*. Fe ddysgais hefyd fod y nofel yn bwnc trafod ar wefan *Maes-e*, ac fe roddais nodyn yno yn gofyn am atebion. Anfonais e-bost i adrannau Cymraeg y prifysgolion ac i ambell sefydliad cyhoeddus megis Adran Gyfieithu Llywodraeth Cymru'n gofyn am adborth, ac yn wir, rwyf wedi cael ymatebion gwych, felly hoffwn ddiolch yn fawr iawn i bawb a atebodd holiadur, a roddodd sylwadau imi, neu a ddosbarthodd yr holiadur i'w ffrindiau.

Proses diddorol iawn oedd derbyn ymatebion amrywiol bobl i'r nofel. Ar y cyfan, roedd yr ymateb yn ddigon tebyg ac roedd y rhan fwyaf wedi'i mwynhau'n fawr iawn. Ni ddatgelir manylion personol neb a gyfrannodd trwy ateb holiadur yn y traethawd hwn. Rwyf wedi rhifo pob holiadur o 1 – 46 a chyfeirir at bob holiadur unigol yn ôl ei rif.

Mewn traethawd o'r math hwn, roedd cael barn y darlennydd cyffredin yn dra phwysig ac nid oeddwn am ganolbwyntio ar adolygiadau gan ysgolheigion ac arbenigwyr llenyddol yn unig. Y rheswm dros hyn yw fod darllen yn rhywbeth personol i bawb a gall bawb ddehongli llenyddiaeth mor wahanol i'w gilydd. Y darllenwyr cyffredin yn bennaf sy'n prynu'r llyfrau i'w darllen ac i obeithio eu mwynhau, ac maent yn dweud wrth eu ffrindiau am y llyfrau da neu wael y maent yn eu darllen.

Rhoddaf drosolwg yn gyntaf o'r bobl a atebodd fy holiadur. Cefais 46 ymateb gan 40 o fenywod a 6 o ddynion. Rwy'n ymwybodol nad yw'n nifer hafal o gwbl, ond tybed a yw hyn yn adlewyrchu cynulleidfa gyffredin y nofel? Gwnes fy ngorau i gyrraedd ystod eang o bobl o Gymru a'r tu hwnt, ond mae'n rhaid defnyddio'r atebion y llwyddwyd i'w casglu.

Isod, ceir graff o ystod oedran y bobl a atebodd yr holiaduron.



Sylwer na chefais yr un ymateb gan neb o dan 18 oed. Gwnaeth hyn fy synnu gan i mi ddarllen y nofel yn y chweched dosbarth ac roedd llawer o'm ffrindiau wedi'i darllen yn ystod yr un cyfnod hefyd. Yn wir, roedd rhai o'r bobl rhwng 18 a 25 oed wedi'i darllen pan oeddent yn yr ysgol, ond tybed a yw athrawon Cymraeg yn annog eu myfyrwyr i ddarllen y nofel hon bellach a hithau heb fod ar faes llafur TGAU na Safon Uwch? Credaf ei bod yn nofel werth ei rhoi ar faes llafur TGAU, os nad ar faes llafur Safon Uwch. Mae'n llawn haeddu ei lle yno ochr yn ochr â gweithiau eraill sydd wedi ennill y Fedal Ryddiaith a Gwobr Goffa Daniel Owen, megis gwaith Angharad Tomos ac Eirug Wyn.

Dyma fap sy'n nodi lleoliad yr ymatebwyr:



Yn ychwanegol at hyn, cefais ymateb gan unigolion o Gaer, o ganolbarth Lloegr ac o Unol Daleithiau America.

Diddorol yw nodi o'r map uchod imi gael y rhan fwyaf o'm hymatebion o ogledd a chanolbarth Cymru. Ni chefais yr un ymateb o sir Benfro nac o sir Gaerfyrddin ond cefais nifer o ymatebion o ardal lleoliad y nofel, sef de Meirionnydd a Dyffryn Dyfi, a llawer iawn o Wynedd. Fel y nodais, anfonais gais am ymatebion i bob papur bro yng Nghymru, felly byddai Cymry o bob cwr wedi gallu ymateb yn ôl eu dymuniad. Efallai nad yw'r nofel wedi apelio at bobl nad ydynt yn gyfarwydd â chanolbarth Cymru neu a oedd yn poeni y byddai'r nofel yn rhy dafodieithol neu'n sôn am bethau anghyfarwydd iddynt. Mae nofel Caryl Lewis, *Martha Jac a Sianco*²¹³ yn llawn tafodiaith gref Ceredigion, ac efallai i rai, er enghraifft o ogledd Cymru, ei chael yn anodd darllen y nofel neu ei hosgoi yn gyfan gwbl oherwydd hyn. Dyna un perygl o ysgrifennu nofel sydd yn rhy dafodieithol, gellwch golli darllenwyr o rannau eraill o Gymru, ond ni chredaf fod *O! tyn y gorchudd* yn dafodieithol iawn o gwbl. Mae'r llyfr

²¹³ Caryl Lewis, *Martha Jac a Sianco* (Talybont, 2004).

wedi cyrraedd yn bell yn y Gymraeg, heb sôn am fod ar gael i gynulleidfa ehangach drwy'r cyfieithiad Saesneg a'r cyfieithiad i Fengali.

Yn yr holiaduron, gofynnais am farn bersonol yr ymatebwyr am y llyfr – a fu i'r nofel gyffwrdd â hwy ac a oeddent yn ei hoffi ai peidio. Dywedodd y rhan helaethaf iddynt fwynhau'r llyfr yn fawr a chefais atebion megis y canlynol i'r cwestiwn '*A oeddech yn ei hoffi ai peidio?*':

Mi wnaeth rhywbeth ym mhob pennod fy nghyffwrdd, megis marwolaeth plentyn, neu ddallineb y brodyr, a'r ffaith fod yno dristwch anhygoel yn perthyn i hanes y teulu yma a'u bod nhw wedi parhau i frwydro, er bod ganddynt ddigon o reswm i gwyno.²¹⁴

Oeddwn, ac ar ôl ei darllen, un o'r llyfrau gorau yn y Gymraeg imi ei ddarllen erioed. Ma' hi'n nofel 'fawr' yn fy nhyb i, am y rheswm fod y stori yn 'gafael' ac yn unigryw a gwreiddiol.²¹⁵

Roeddwn i wrth fy modd. Wedi ei argymhell i bawb wedyn, a phwysleisio ei fod yn un o'r llyfrau gorau i mi erioed ei ddarllen yn Gymraeg a'r Saesneg.²¹⁶

Er i'r feirniadaeth gael argraff arnaf, roeddwn i'n rhyfedd o gyndyn o'i darllen – yn poeni y byddai'n ymdebygu i waith Angharad Tomos a Kate Roberts ond siomwyd fi ar yr ochr orau a does dim dwywaith yn fy meddwl i ei bod hi'n glasur o nofel.²¹⁷

Er yr holl ganmol, cefais ychydig o ymatebion llai canmoliaethus a'r rheswm mwyaf cyffredin dros yr ymateb hwn oedd trafferth wrth ddarllen y bennod gyntaf. Roedd dau (holiaduron #22 a #26) wedi ei chael yn anodd iawn cael gafael ar y nofel gan ddarllen ychydig iawn ohoni:

²¹⁴ Ateb holiadur #9.

²¹⁵ Ateb holiadur #23.

²¹⁶ Ateb holiadur #17.

²¹⁷ Ateb holiadur #45.

Wnes i ddim darllen yn bell iawn – methu cael gafael arni ar y dechrau...²¹⁸

gan ychwanegu: ‘Dechrau anafaelgar!’²¹⁹

Ateb holiadur #26 oedd:

‘nes i’n bersonol ddim mwynhau’r llyfr!...heb orffen darllen y llyfr...methu
‘mynd i fewn’ iddo!²²⁰

O’r sylwadau, tybiaf i’r bennod gyntaf fod yn heriol i rai ac iddynt roi’r gorau i ddarllen y nofel ar sail y bennod hon. Gallai arddull flodeuog a disgrifiadol y bennod gyntaf fod wedi bod yn annisgwyl i rai darllenwyr gan beri iddynt feddwl bod yr holl nofel wedi’i hysgrifennu yn yr arddull farddonol a breuddwydiol hon, er nad ydyw mewn gwirionedd. Mae’r bennod gyntaf yn wahanol, yn rhoi hanes yr ardal a’r teulu inni. Cawn ein tywys ar daith ar hyd cwm Maesglasau gan ddilyn llif y nant.

Er i rai ddiflasu ar y bennod gyntaf a rhoi’r llyfr i’r naill ochr, gwnaeth y mwyafrif barhau i’w ddarllen, ac o’u hymateb gwelaf eu bod yn falch iawn iddynt wneud hynny:

Hoffais y llyfr yn fawr iawn, er imi gael trafferth gyda’r bennod gyntaf – methu cael gafael ar y stori o gwbl!²²¹

Cafwyd ymateb tebyg gan holiadur #41:

Cymryd amser i ddod iddi ac wedyn ei darllen a methu ei rhoi lawr.²²²

Roedd yr ymateb nesaf yn ddiddorol hefyd:

²¹⁸ Ateb holiadur 22.

²¹⁹ Ateb holiadur #22.

²²⁰ Ateb holiadur #26.

²²¹ Ateb holiadur #4.

²²² Ateb holiadur #41.

Ar y darlleniad cyntaf wnes i deimlo fod y bennod gyntaf yn eithaf trwm ond ar yr ail ddarlleniad roeddwn yn teimlo ei bod wedi ei hysgrifennu'n hyfryd. Dwi'n meddwl ei fod yn llyfr gwerth chweil a rhyw deimlad ysbrydol yn rhedeg trwyddo.²²³

Felly roedd y darllenydd hwn wedi mwynhau ac wedi gwerthfawrogi'r llyfr yn well yr ail dro. Teimlais innau'r un fath; fy mod yn deall bwriad y stori yn well yr ail dro gan sylwi yn fwy ar y manylion, ac ar Rebecca yn enwedig. Sylwais mai edrych i mewn, mewn ffordd, yr oedd Rebecca trwy'r nofel ac nad oedd yn rhan o ddigwyddiadau'r teulu. Credaf ei bod yn haws gwerthfawrogi'r bennod gyntaf ar ôl darllen gweddill y nofel, ond mae'r bennod yn ei lle am reswm, i'n harwain trwy'r cwm a chawn wybod bod Rebecca bellach 'yn fy nawdegau yn rhythu i wyneb angau...'.²²⁴

Gofynnais i'r ymatebwyr nodi yr hyn a wyddent am *O! tyn y gorchudd* cyn ei darllen. Diben hyn oedd cael gwybod a oedd pobl wedi sôn am y nofel wrthynt neu a oeddent yn ymwybodol o hanes y teulu eisoes. Nododd ambell un eu bod wedi clywed beirniadaeth y Fedal Ryddiaith:

Dim ond yr hyn a gyhoeddwyd yn y feirniadaeth oddi ar lwyfan yr eisteddfod.²²⁵

Sylwadau'r beirniaid ac adwaith darllenwyr.²²⁶

Roedd rhai hefyd yn ymwybodol o darddiad teitl y nofel:

Bod y teitl yn llinell o emyn Hugh Jones Maesglasau.²²⁷

²²³ Ateb holiadur #27.

²²⁴ OTYG, t. 18.

²²⁵ Ateb holiadur #19.

²²⁶ Ateb holiadur #28.

Roedd ambell un wedi clywed canmoliaeth gan bobl eraill:

Rhywun arall wedi dweud ei bod yn wych – a rhaglen radio yn ei thrafod.²²⁸

Felly roedd llawer wedi dod i wybod am y nofel trwy eu ffrindiau ac o ddarllen adolygiadau. Roedd y nofel yn destun sgwrs ac yn amlwg yn cyffwrdd â phobl nes peri iddynt ei hargymell i'w ffrindiau a hyd yn oed ystyried mynd i ymweld â chwm Maesglasau a hefyd gael teulu Tynybraich i ymweld â chlybiau Merched y Wawr ac ati.

Gan fod y nofel ei hun yn seiliedig ar hanes teulu go-iawn, teulu cyffredin sydd wedi gorfod delio â nifer o rwystrau ar hyd y blynyddoedd – rhai cyffredin a rhai mwy anghyffredin megis dallineb y plant, mae pobl am wybod rhagor amdanynt a gweld drostynt eu hunain yr ardal a'r lluniau a siarad â'r teulu presennol am eu hanes.

Roedd nifer o'r ymatebion a gefais yn dweud yr hoffent fynd i ymweld â'r ardal er mwyn cyfoethogi eu profiad o'r nofel ac i weld y lleoliad drostynt eu hunain.

Y cwestiwn a holais oedd '*A yw darllen y nofel wedi eich ysgogi i ymweld â'r ardal gan ddilyn ôl troed Rebecca?*' a dyma rai o'r ymatebion:

Ydy, a chefais y cyfle i ymweld ag ardal Maesglasau gyda ffrind i mi o ardal Dinas Mawddwy yn lled ddiweddar.²²⁹

Do – wedi ymweld â Maesglasau, a gweld y creiriau teuluol yn

Nhynybraich.²³⁰

²²⁷ Ateb holiadur #20.

²²⁸ Ateb holiadur #3.

²²⁹ Ateb holiadur #25.

²³⁰ Ateb holiadur #4.

Dydw i heb wneud eto, ond yn aml iawn yn meddwl am y nofel wrth deithio ar hyd yr A470 ger Dinas Mawddwy. Bywyd yn rhy brysur! Bydd rhaid i mi wneud ryw dro!!²³¹

Wedi bod yno ddwywaith gyda Merched y Wawr, cerdded at Maesglasau a chyfle i edrych ar hen ddogfennau a lluniau gyda'r teulu yn Nhynybraich. Wedi cerdded hefyd ar adegau eraill ar hyd y mynyddoedd gerllaw.²³²

Ymysg yr atebion hefyd, dywedodd rhai fod y disgrifiadau yn y nofel yn ddigon

iddynt:

Mae hi wedi creu awch ynof i fynd am dro yn sicr, ond mae'r ardal wedi'i disgrifio mor wych, mae gen i lun go dda yn fy mhen o'r hyn y buaswn yn ei ganfod yno beth bynnag. Ond pe bai yno daith yn mynd i'r ardal yn unswydd, yna fyswn i wrth fy modd yn ymuno â nhw.²³³

Naddo ond wedi meddwl am y peth buaswn, mae disgrifiadau o'r lle yn hyfryd ond tebyg o fod yr un ffordd mae THPW yn meddwl am Eryri ydi o, ni fydd mor 'arbennig' i mi o'r tu allan.²³⁴

Naddo. Hen ddigon cyfarwydd efo'r ardal yn barod. Os fyswn i ddim, mi fysai fy nychymyg yn ddigon, anaml dwi'n cael awydd i fynd i ardal arbennig ar ôl darllen nofel.²³⁵

Mae'r ateb nesaf hefyd yn adrodd cyfrolau am ddawn ysgrifennu Angharad Price ac yn cadarnhau ei bod wedi llwyddo i gyfleu tawelwch y cwm i'r darlennydd:

Byddai'n syniad braf ond byddwn ofn tarfu ar yr heddwch a'r llonyddwch.²³⁶

Atebodd sawl un arall gan ddweud yr hoffent ymweld â'r ardal ond nad ydynt wedi cael y cyfle hyd yn hyn. Nid yn unig y gall pobl ymweld â Thynybraich a cherdded mynyddoedd cwm Maesglasau, mae Wyn ac Olwen Jones, aelodau presennol o'r teulu sy'n byw ac yn ffermio yn Nhynybraich, hefyd yn teithio ar hyd a lled y wlad yn

²³¹ Ateb holiadur #21.

²³² Ateb holiadur #27.

²³³ Ateb holiadur #9.

²³⁴ Ateb holiadur #24.

²³⁵ Ateb holiadur #17.

²³⁶ Ateb holiadur #39.

cynnal sgysiau â grwpiau gwahanol o bobl. Holais Catrin Jones, merch Wyn ac Olwen Jones, am yr effaith y mae cyhoeddi'r nofel wedi'i gael arnyn nhw fel teulu:

Mae 'na gryn effaith wedi bod ar fywyd dyddiol pawb yn Nhynybraich gan fod 'na gymaint o bobol yn dŵad i fyny i weld y cwm... ac mae Mam a Dad yn brysur ar 'u *roadshow* bach nhw'u hunen yn mynd o gwmpas cymdeithasau a chlybiau ledled Cymru yn adrodd yr hanes. Anodd genna i goelio na fyddai hynny wedi datblygu pe na byddai *O! tyn y gorchudd*.²³⁷

Mae'n wir bod bywydau'r teulu cyfan wedi newid yn sgil y nofel, yn enwedig gan iddi ennill lliaws o wobrau er pan gipiodd y Fedal Ryddiaith yn 2002, ond credaf fod hwn yn newid cadarnhaol a diddorol i'r teulu. Mae'n gyfle iddynt i adrodd eu hanes yn ffermio yn y cwm ers dros fil o flynyddoedd, ac mae eu hanes bellach ar gof a chadw i'r cenedlaethau a ddêl fwynhau'r hanes a mwynhau dawn ysgrifennu hyfryd Angharad Price. Gofynnais i Angharad Price ei hun sut y teimlai hithau ynghylch effaith y nofel ar ei theulu sy'n byw yn Nhynybraich. Dyma ei hymateb:

Roeddwn wedi arfer gymaint â chyflwyno gwaith i gystadleuaeth, wnes i ddim meddwl am oblygiadau ennill, a chyn i mi sylweddoli rhywsut roedd y gwaith 'teuluol' yn waith cyhoeddus, ac aelodau o 'nheulu yn gymeriadau mewn llyfr a oedd yn cael ei ystyried yn nofel. Rydw i'n dal i deimlo'n amwys am hynny i gyd ac yn ddiolchgar bod y teulu wedi bod mor raslon ynghylch y cyfan. Fel y soniais uchod, buont yn rhan o'r broses o'r dechrau, ac maen nhw wedi bod yn gefnogol a graslon ers cyhoeddi'r llyfr. Ond mae bywydau'r teulu yn dal i fynd yn ei flaen fel arfer: mae 'na ddefaid angen eu cneifio a gwair angen ei hel, a dydi cael llyfr ar silff ddim yn mynd i newid hynny!²³⁸

Braf yw meddwl bod cwm bach yng nghornel sir Feirionnydd yn denu cymaint o sylw a bod yr hanes hwn o ddiddordeb i bobl o bob math ac o bob man. Gan i deulu Tynybraich gofnodi dros fil o flynyddoedd o achau eu teulu bellach, mae'r teulu hwn yn rhan o hanes Cymru, hanes â sail iddo a hanes gwerthfawr ac mae'n bwysig bod

²³⁷ Ateb mewn sgwrs â Catrin Jones, Tynybraich am effaith y nofel ar ei theulu, Mehefin 2013.

²³⁸ Cyfweliad e-bost ag Angharad Price, Gorffennaf 2013.

Angharad Price wedi cofnodi'r hanes mewn nofel. Credaf fod y dyfyniad nesaf yn taro'r hoelen ar ei phen:

Prin y gellir talu clod uwch i'r gyfrol na dweud bod y sawl a'i darllenodd yn ysu am gael ymweld â'r cwm hwnnw.²³⁹

Mae'r ffaith i'r nofel ddenu cynifer o bobl i fferm Tynybraich a bod Wyn ac Olwen Jones yn ymweld â chymaint o gymdeithasau a chlybiau ledled y wlad yn brawf fod y nofel yn boblogaidd trwy Gymru (a'r tu hwnt erbyn hyn, yn sgil y cyfieithiad i'r Saesneg) a bod pobl am wybod rhagor.

Dywedodd un darlennydd a atebodd yr holiadur fod y lluniau wedi cyfrannu i'w hawydd i ymweld ag ardal y nofel.²⁴⁰ Cefais ymateb cadarnhaol, ar y cyfan, i'r defnydd o luniau ac o ddyfyniadau yn y nofel. Cred rhai eu bod yn ychwanegu llawer at y nofel gan beri i'r profiad fod yn fwy real, ond i eraill roedd y dyfyniadau yn enwedig yn amharu ar lif y darllen. Roedd bron pob ymatebydd yn nodi iddynt fwynhau gweld lluniau o'r teulu ac i hyn achosi iddynt deimlo'n agosach at y teulu ac iddynt gael darlun cliriach yn y meddwl:

Ychwanegu – rhoi blas y cyfnod i'r rheini ohonom y mae cyfnod y nofel yn ddieithr i ni.²⁴¹

Diddorol iawn oedd cael lluniau a'r cerddi a.y.y.b. ac yn ychwanegu at fy niddordeb o ddarllen y llyfr.²⁴²

Dwi ddim yn cofio sylwi arnyn nhw ar y pryd – felly rhaid imi ddweud nad oeddynt wedi amharu ar y pleser o ddarllen y nofel.²⁴³

²³⁹ Papurau Bro, BBC Lleol y De Ddwyrain:

http://www.bbc.co.uk/cymru/deddwyrain/papurau_bro/tuar_goleuni/newyddion/mai03.shtml.

Ymwelwyd ar 31/01/2011.

²⁴⁰ Ateb holiadur #31.

²⁴¹ Ateb holiadur #19.

²⁴² Ateb holiadur #2.

²⁴³ Ateb holiadur #44.

Maent yn ychwanegu at y nofel. Mae'r lluniau yn rhoi darlun gwell o'r bobl ac o'r lle.²⁴⁴

Mae'r cerddi, emynau a.y.b. yn ychwanegu at y nofel ac maent wedi eu dewis a'u dethol yn ofalus gan gael eu rhoi yn y manau priodol sy'n effeithiol iawn.²⁴⁵

Credaf eu bod yn ychwanegu at y nofel, fel petai yn rhoi darlun mwy byw i chi o'r bywyd sydd yn cael ei ddisgrifio. Mae'r lluniau hefyd yn ychwanegu at dristwch y nofel, mae'n creu darlun o deulu digon cyffredin sydd yn brwydro drwy nifer o rwystrau mewn bywyd.²⁴⁶

Mae'r ateb canlynol o holiadur #9 yn nodi pwynt dilys; sef bod Angharad Price wedi gwneud llawer o waith ymchwil er mwyn ysgrifennu'r nofel hon:

Yn bendant yn ychwanegu at y nofel – mae'r lluniau yn helpu a dweud y gwir. Mae'r llun o'r teulu bach wedi'i serio yn fy nghof, a'i disgrifiad a'i dadansoddiad o'r llun hwnnw yn atgyfnerthu'r cof ohono. Efallai fod yno ormod o ddyfyniadau o gerddi/emynau mewn ambell ddarn, yn rhy agos i'w gilydd, ond dwi'n meddwl fod y rhain yn ychwanegu llwyth at yr ymdeimlad o hunangofiant, ac yn adlewyrchiad da o'r deunydd ffeithiol sydd ei angen mewn hunangofiant, ac yn dangos fod yno beth ymchwil wedi'i wneud cyn mynd ati i lunio'r nofel.²⁴⁷

Credaf mai penderfyniad pwysig iawn oedd cynnwys y lluniau yn enwedig, gan fod hyn yn ategu dilysrwydd y stori. Mae'r hanes yn troi'n ffuglen wrth ychwanegu hanes Rebecca. Y llun a gyffyrddodd â mi fwyaf oedd yr un o'r teulu ar dudalen 52. Cofiaf syllu arno am hydoedd wrth imi ddarllen y llyfr am y tro cyntaf, gan wybod mai nhw oedd y cymeriadau yn y nofel. Teimlais yn fwy o ran o'r nofel, fel petawn i yno pan dynnwyd y llun, yn enwedig wrth ddarllen disgrifiad manwl Angharad Price ohono.

Fel y dywed un ymatebydd:

Credaf eu bod yn ychwanegu'n fawr at y gyfrol – maen nhw'n perthyn iddi ac nid ydynt yn amharu ar y llif. Mae'r llun o'r teulu yn sobreiddiol.²⁴⁸

²⁴⁴ Ateb holiadur #5.

²⁴⁵ Ateb holiadur #1.

²⁴⁶ Ateb holiadur #8.

²⁴⁷ Ateb holiadur #9.

²⁴⁸ Ateb holiadur #39.

Teimlaf fod y dyfyniadau hefyd yn ychwanegu at hanes y teulu, yn enwedig hanes yr emynydd Hugh Jones, Maesglasau. Maent yn perthyn i'r cwm, i'r teulu, i'r ardal ac i Gymru ac maent yn llawn haeddu eu lle yn y llyfr hwn. Dywed un darlennydd eu bod:

Yn ychwanegu at y cyfanwaith. Rwyf i fy hun yn arbennig o hoff o'r arfer o ddefnyddio dyfyniadau. Gallant ychwanegu haenau arwyddocaol i'r sgwennu.²⁴⁹

Caf yr un argraff gan yr ymatebwyr eraill, sef eu bod yn cael rhywbeth ychwanegol o'r nofel wrth ddarllen y dyfyniadau a thrwy edrych ar y lluniau. Maent yn bendant yn rhan annatod o'r stori a byddai rhywbeth ar goll ohoni pe na byddai Angharad Price wedi'u cynnwys. Mae'r emyn sy'n rhoi'r teitl i'r nofel yn enghraifft o hyn, ac mae'n ein harwain at hanes y cwm trwy Hugh Jones, Maesglasau. Mae cael y cyfle i ddarllen yr emyn yn llawn yn rhoi mwy o gyd-destun inni i gefndir y llyfr a'r ardal.

Cwestiwn arall a ofynnais yn yr holiadur oedd: '*Beth yw eich barn am yr iaith a'r eirfa a ddefnyddir?*'. Tybiwn y buaswn yn cael nifer o atebion yn dweud i iaith a geirfa'r bennod gyntaf fod yn her ond i iaith gweddill y nofel fod yn ddealladwy ac yn glir. Mae'r atebion a gefais yn debyg iawn i hyn gyda phawb yn canmol dawn ysgrifennu Angharad Price yn fawr:

Cyfoethog iawn. Ysgrifennu graenus ond mewn iaith naturiol.²⁵⁰

Ardderchog – pleser pur.²⁵¹

Teimlais fod y bennod gyntaf yn anodd i'w deall oherwydd yr eirfa helaeth ac ysgolheigaid ond fel mae'r nofel yn mynd yn ei blaen ac mae mwy o ddeialog mae hi'n bendant yn fwy dealladwy.²⁵²

Eto, ar ôl pasio'r bennod agoriadol teimlaf fod yr iaith a'r eirfa yn wych ac mae'r awdur yn llwyddo i greu teimlad a phoen trwy ei defnydd penigamp.²⁵³

²⁴⁹ Ateb holiadur #45.

²⁵⁰ Ateb holiadur #19.

²⁵¹ Ateb holiadur #3.

²⁵² Ateb holiadur #10.

²⁵³ Ateb holiadur #11.

Mae'r iaith yn wych a dyna sydd wedi fy swyno fwyaf. Mae'r eirfa yn arbennig ac y maent yn aros yn y cof fel barddoniaeth.²⁵⁴

Mae'r eirfa a'r iaith yn ardderchog – mae Angharad wedi etifeddu ei dawn oddi wrth deulu Tynybraich a'i Thad yn bendant. Tydw i ddim yn ysgolhaig ond rwy'n gallu gwerthfawrogi iaith goeth. Mae'n amheus gennyf a allai neb feirniadu'r iaith ardderchog yma.²⁵⁵

Yr ieithwedd yn glogyrnaidd mewn mannau efallai, er ei bod yn gweddu i'r cyfnod a'r ardal yn effeithiol.²⁵⁶

Cyfeirir hefyd yn yr holiaduron at yr elfen dafodieithol yn y nofel. Defnyddir geiriau fel 'lodes'²⁵⁷ a 'ffraeo',²⁵⁸ a chlywir adlais o'r terfyniad -e sy'n nodweddu sir Feirionnydd hefyd, er enghraifft, 'Mae'n ame gen i, Evan.'²⁵⁹ 'Mae arna inne ofn, Evan, dy fod ti'n iawn'.²⁶⁰ Ni sylwais yn ormodol ar hyn, efallai gan fy mod yn dod o'r un ardal, ond ni wnaeth neb nodi i hyn fod yn rhwstr. Mae llawer yn nodi bod yr iaith yn farddonol iawn, a dywed un ymatebydd i hyn weithio'n ardderchog wrth wrando ar y nofel ar CD:

Mae'r iaith yn gyfoethog a sŵn hyfryd iddi hi – wedi llawn werthfawrogi hyn wrth wrando ar y CD. Dwi'n meddwl ei fod yn beth da defnyddio geiriau anghyfarwydd ambell waith neu maent yn medru mynd yn angof ac yn tloidi'r iaith Gymraeg.²⁶¹

Iaith farddonol, gywrain a safonol iawn gyda rhai elfennau tafodieithol a ddefnyddia Angharad Price yn *O! tyn y gorchudd*. Mae ganddi ddawn ysgrifennu o'r radd flaenaf ac mae hyn yn gweddu'n ardderchog i'r nofel hon. Mae'n defnyddio geirfa helaeth yn

²⁵⁴ Ateb holiadur #33.

²⁵⁵ Ateb holiadur #1.

²⁵⁶ Ateb holiadur #25.

²⁵⁷ OTYG, t. 110.

²⁵⁸ OTYG, t. 28.

²⁵⁹ OTYG, t. 47.

²⁶⁰ OTYG, t. 48.

²⁶¹ Ateb holiadur #27.

ei gwaith, ac fel yr ategir gan y dyfyniad isod, mae hyn yn dda o beth i gadw rhai geiriau Cymraeg yn fyw, rhai a allai, fel arall, fynd yn angof:

laith gywrain, ac yn fodd i gadw rhai geiriau Cymraeg yn fyw.²⁶²

Cefais hefyd ymateb gan ddysgwyr a oedd wedi darllen y nofel yn Gymraeg, a dyma ei ymateb i'r iaith:

I come at it from a different angle – as a learner of Welsh. It is good to find a book worth reading which also uses language that a learner can understand. Those who speak one of the many, many dialects in Wales would probably find it a bit “stiff” and “formal” but it suits me fine.²⁶³

Mae'r ymateb hwn yn ddiddorol iawn oherwydd yr ymddengys yr iaith i mi yn iaith lenyddol a blodeuog iawn a fyddai efallai'n anodd ei deall i ddysgwyr, ond fel y dywedodd ymatebydd holiadur #6 uchod, roedd yr iaith yn gwbl addas iddo.

Yn ei nofel ddilynol, *Caersaint*,²⁶⁴ gwelwn unwaith eto yr iaith hyfryd hon yn cael ei defnyddio gan Angharad Price, ond mae'r stori yn hollol wahanol. Mae *O! tyn y gorchudd* a *Caersaint* ar ddau begwn cwbl wahanol o ran lleoliad, cyfnod a chymeriadau:

Mawr fu'r disgwyl am nofel arall gan Angharad Price, wedi llwyddiant ysgubol *O! tyn y gorchudd*. Aeth wyth mlynedd faith heibio, ond o'r diwedd, dyma hi. Allech chi ddim cael dwy nofel fwy gwahanol i'w gilydd.²⁶⁵

Nofel drefol iawn yw *Caersaint* sy'n dilyn hanes Jaman Jones yn nhref Caersaint (tref debyg iawn i Gaernarfon). Yn ôl Sioned Williams:

²⁶² Ateb holiadur #14.

²⁶³ Ateb holiadur #6.

²⁶⁴ Angharad Price, *Caersaint* (Talybont, 2010).

²⁶⁵ Adolygiad Angharad Tomos: <http://s4c.co.uk/pethe/caersaint-adolygiad-angharad-tomos/>. Ymwelwyd ar 31/01/2011.

Mae'n nofel realaidd sy'n weddol syml o ran ei ffurf ond mae ynddi haen gyfoethog o ystyr sy'n codi pwyntiau awgrymog ynglŷn â pherthynas llywodraethu a chymuned mewn llawer i dref yng Nghymru.²⁶⁶

Mae'n nofel ddychanol iawn ei harddull, ac mae sawl haen, fel petai, i'r cymeriadau ac i'r stori, sydd yn gwbl i'r gwrthwyneb i nofel wledig a syml *O! tyn y gorchudd*.

Mae'n nofel sy'n awgrymu llawer heb ddweud yn uniongyrchol yr hyn a olygir, gan beri i'r darllenydd feddwl a dod i'w gasgliadau ei hun am yr ystyr. Mwynheais ddarllen *Caersaint* gan ei bod mor wahanol i nofel flaenorol Angharad Price. Roedd safon yr ysgrifennu'n arbennig, ond rhaid cyfaddef nad oedd y stori ei hun yn apelio ataf gan nad dyma'r math o nofelau y byddaf fel arfer yn eu darllen. Rwyf wedi darllen llawer o lenyddiaeth greadigol a beirniadol gan Angharad Price, ac mae ei dawn ysgrifennu'n amlwg bob tro.

Tynnwyd fy sylw gan y dyfyniad nesaf yn holiadur #9:

... da chi'n gallu deud mai awdur sydd â gafael wych ar yr iaith sydd wrth waith, ac nid rhyw gyw lenor.²⁶⁷

Mae Angharad Price yn meithrin ei dawn ysgrifennu ers blynyddoedd gan gystadlu mewn lliaws o gystadlaethau gan gynnwys cystadlu am y Fedal Ryddiaith deirgwaith cyn ei hennill yn 2002. Ni ddisgrifiwn Angharad Price fel llenor a chanddi ddiffyg hyder yn ei gallu, ond fel llenor sydd am i'w gwaith fod cystal ag y gall fod cyn iddo weld golau dydd. Teimlaf ei bod yn drwyadl iawn, ac yn benderfynol o ddatblygu ei dawn ysgrifennu cymaint â phosibl cyn cyhoeddi. Dywed hi ei hun:

Treuliais ran fwyaf o'r 1990au yn fyfyrwraig y tu allan i Gymru – yn Rhydychen, Trier (yr Almaen) ac yn Fienna, gan symud i Gaerdydd o'r diwedd

²⁶⁶ Adolygiad gan Sioned Williams o *Caersaint*. www.bbc.co.uk/cymru/cylchgrawn/llyfrau/adolygiadau/caersaint.shtml. Ymwelwyd ar 16/11/2010.

²⁶⁷ Ateb holiadur #9.

yn 1998, ar ôl cwblhau fy noethuriaeth. Roeddwn ar dân eisiau sgwennu ac roedd hynny'n ffordd imi deimlo fy mod yn rhan o bethau yng Nghymru, felly bob rhyw ddwy flynedd byddwn yn fy ngorfodi fy hun i gwblhau darn mawr o waith creadigol, gan ddefnyddio dyddiad cau cystadleuaeth y Fedal Ryddiaith yn ysgogiad. Doeddwn i ddim yn disgwyl ennill, gan mai pobl hŷn fyddai'n ennill y fath wobrau. Ond roedd yn ddisgyblaeth dda ac roedd cael sylwadau beirniaid – yn rhai negyddol a chadarnhaol – yn brofiad adeiladol. Roedd gennyf barch mawr at feirniad fel John Rowlands gan ei fod mor barod i ymagor i syniadau a thueddiadau newydd.²⁶⁸

Da yw gweld nofelydd ifanc yn defnyddio cystadlaethau megis cystadleuaeth y Fedal Ryddiaith yn yr Eisteddfod Genedlaethol i ddysgu ac i gael adborth, ac yn y pen draw, yn mynd ymlaen i ennill y wobr, ac yn sgil hynny nifer o wobrau eraill gan gynnwys Llyfr y Flwyddyn am yr un nofel. Mae ei nofel gyntaf *Tania'r Tacsî*²⁶⁹ hithau yn ffrwyth cystadleuaeth y Fedal Ryddiaith ac mae'n amlwg fod Angharad Price yn ddigon bodlon ar y nofel hon cyn ei chyhoeddi:

Sgwennais waith braidd yn ffuantus y tro cyntaf, os cofiaf yn iawn, a hwnnw wedi ei ysgogi gan gyfnodau a dreuliais yn yr Eidal. Gwaith fymryn yn llai ffuantus yr eildro, er bod hwnnw hefyd yn ormod o bwddin, a hwnnw'n waith ffantasiol a oedd yn seiliedig ar ffordd y pererinion i ynys Enlli. Erbyn heddiw rydw i'n diolch i'r nefoedd na welsant erioed olau dydd. Y trydydd tro sgwennais 'Tania'r Tacsî' (yn Fienna). Roedd y gwaith hwnnw yn gryfach yn yr ystyr fod gennyf rywbeth penodol i'w ddweud. Roeddwn yn ceisio cyfleu'r profiad o fod yn ferch ifanc nad oedd yn teimlo y gallai gyfranogi o'r gymdeithas yr oedd yn byw ynddi, ac a oedd rhywsut yn ymwrthod â'i diwylliant ei hun. Mae hwnnw hefyd yn waith anaeddfed ac anghyflawn, ac rydw i'n gresynu iddo gael ei gyhoeddi (ac yn ymfalchïo ei fod bellach allan o brint!). Eto, mae mwy o ddiffuantrwydd ynddo na dim ond y 'chwarae' ôl-fodernaidd a welwyd ynddo ar y pryd, efallai.²⁷⁰

Felly, erbyn i Angharad Price ysgrifennu *O! tyn y gorchudd*, roedd wedi cael llawer o adborth ar ei gwaith ac roedd wedi gwneud llawer o waith ymchwil i ysgrifennu nofel hynod o boblogaidd a hynod o gyfoethog o ran iaith a chynnwys. Mae'r ysgrifennu'n

²⁶⁸ Cyfweliad e-bost gydag Angharad Price, Gorffennaf 2013.

²⁶⁹ Angharad Price, *Tania'r Tacsî* (Llandysul, 1999).

²⁷⁰ Cyfweliad e-bost gydag Angharad Price, Gorffennaf 2013.

cyfrannu cymaint at apêl *O! tyn y gorchudd* ac ni fyddai'r nofel wedi cyffwrdd â chynifer o bobl yn fy marn i heb yr ysgrifennu graenus trwyddi.

Er mwyn canfod a oedd *O! tyn y gorchudd* wedi apelio at bobl na fyddent fel arfer yn darllen nofelau cofiannol / hanesyddol, gofynnais yn yr holiadur iddynt nodi hyn.

Dywedodd 27 eu bod yn hoff o ddarllen nofelau fel hyn fel arfer a dywedodd 14 nad oeddent at eu dant o gwbl gan nodi ychydig o eithriadau megis *Dygwyl Eneidiau*,²⁷¹ a *Teulu Lòrd Bach*.²⁷² Bu'r adolygiadau a'r enw da ar lafar, felly, yn ddigon i'w perswadio i ddarllen nofel efallai na fyddent wedi'i darllen fel arfer, ac yna ei mwynhau. Mae'n rhaid cofio hefyd nad yw *O! tyn y gorchudd* yn nofel gofiannol / hanesyddol gyffredin gan fod iddi elfennau ffuglenol a ffeithiol a fyddai'n denu cynulleidfa ehangach iddi, mae'n siŵr, na phe bai'n hunangofiant confensiynol.

Roeddwn am wybod gan y darllenwyr hyn pam y credent fod *O! tyn y gorchudd* wedi'i ddisgrifio fel llyfr sy'n 'glasur cyfoes, gwerthwr gorau a wnaeth gyffwrdd â chalonnau'r darllenwyr'.²⁷³ Dyma gwestiwn pwysig iawn, efallai y cwestiwn pwysicaf yn yr holiadur gan fy mod am wybod safbwynt y darllenwyr ynghylch hyn, ac nid darllen adolygiadau gan ysgolheigion am y nofel a chlywed eu barn nhw yn unig. Fel y nodwyd eisoes, gellir dadlau mai barn y darllenwyr cyffredin sydd bwysicaf gan mai nhw sy'n prynu'r llyfr, yn trafod y llyfr â'u ffrindiau a'u teuluoedd.

²⁷¹ Gwen Pritchard Jones, *Dygwyl Eneidiau* (Caernarfon, 2006).

²⁷² Geraint V. Jones, *Teulu Lòrd Bach* (Llandysul, 2008).

²⁷³ Gwybodaeth bellach gan y cyhoeddwr, Gwasg Gomer: <http://www.gwales.com/goto/biblio/cy/9781848511750/>. Ymwelwyd ar 15/01/2011.

Cefais lawer o atebion diddorol a chynhwysfawr iawn i'r cwestiwn hwn. Roedd sawl un wedi meddwl yn ddwys am y cwestiwn a hoffwn ddiolch i bob un am ei sylwadau gwerthfawr. Dechreuaf gydag ateb holiadur #31:

... roedd y nofel yn croniclo cyfnod arbennig yn hanes Cymru. Er i'r nofel gael ei gosod ym Maesglasau, mae'n ddrych i sawl fferm/bro arall yng Nghymru a'r modd yr oeddynt yn dygymod â'r newidiadau a oedd yn eu gwynebu boed hynny yn ieithyddol, amaethyddol, diwylliannol a.y.y.b.²⁷⁴

Dyma bwynt teilwng iawn sy'n ystyried arwyddocâd hanesyddol y nofel. Mae cofnodi ffordd o fyw sy'n prysur ddiflannu yn werthfawr bob tro, ond mae'r nofel hon yn ei chofnodi'n wahanol ac yn glyfar, ac felly mewn gwirionedd yn creu stori o ddigwyddiadau a hanes go-iawn. Roedd atebion holiaduron #14 a #4 hefyd yn cytuno:

... hanes Cymru a Chymry yn cael ei ddweud mewn ffordd ddiddorol.²⁷⁵

Mae'n stori deimladwy iawn, a'r ffaith iddi fod yn ffeithiol wir o fewn ffuglen ddychmygol yn ychwanegu at ei hapêl.²⁷⁶

Roedd y dull hwn o gyfuno ffaith a ffuglen yn y fath ffordd yn gwbl newydd i mi pan ddarllenais y nofel, ac nid wyf wedi dod ar draws dim byd tebyg oddi ar hynny. Mae hyn yn ymdebygu i raddau i *Un Nos Ola Leuad*²⁷⁷: cyfunwyd ffaith a ffuglen yn y nofel honno ond gwnaeth Caradog Prichard hynny mewn ffordd wahanol i Angharad Price trwy dynnu ar ei atgofion o'i blentyndod ef ei hun ym Methesda. Er mai stori ddigon cyffredin mewn gwirionedd a geir yn y nofel am deulu digon cyffredin, mae'r ffordd y mae Angharad Price wedi ymdrin â'r stori yn ychwanegu'n sylweddol at ei heffaith:

²⁷⁴ Ateb holiadur #31.

²⁷⁵ Ateb holiadur #14.

²⁷⁶ Ateb holiadur #4.

²⁷⁷ Caradog Prichard, *Un Nos Ola Leuad* (Dinbych, 1961).

Oherwydd bod yna ryw onestrwydd rhyfeddol yn perthyn iddo; mae'n bersonol iawn ei naw; mae adnabyddiaeth ddofn o'r cymeriadau yn cael ei gyfleu; mae'n ddirdynnol; mae'r tristwch ar y diwedd mai'r hyn a allasai fod wedi bod sydd yma yn taro gan i'r darllenwydd wirioneddol gredu fod popeth sydd yno wedi digwydd!²⁷⁸

Gonestrwydd: dyma ran bwysig o nofel fel hon ac mae'n siŵr ei fod yn brofiad

gwahanol i Angharad Price ysgrifennu nofel mor gofiannol am ei theulu gan

ailadrodd straeon a gafodd gan aelodau o'i theulu ei hun. Ond byddai'r nofel yn

anorffenedig heb y gonestrwydd hwn gan mai dyma un o ragoriaethau'r nofel.

Rydym yn rhan o fywydau'r teulu, yn rhan o'u teimladau a'u hemosiwn, yn rhan o'u

hapusrwydd, eu galar a'u tristwch:

Gan iddo fy ennyn i mewn gyda'i agwedd bersonol ond eto storïol a oedd yn dangos stori realistig a sensitif iawn.²⁷⁹

Nid yw ddim syndod i mi fod y llyfr yn bopeth a enwir gennych uchod. Mae'r stori yn llifo mor rhwydd a gallaswn feddwl ei fod wedi cyffwrdd â chalonnau pawb a'i darllenodd oherwydd mae'n hanes hollol wir ac mae rhannau sensitif iawn ynddo.²⁸⁰

Mewn hunangofiant, boed yn wirionedd neu'n ffuglen neu'n cyfuno'r ddau, mae'r

stori yn bwysig ac yn *O! tyn y gorchudd* cawn stori ddirdynnol sydd bellach yn rhan

o'n hanes ni fel cenedl, ac nid hanes teulu Tynybraich yn unig. Ond mae pethau'n

newid, ac mae'r cyfnod y sonnir amdano yn y nofel wedi hen fynd erbyn hyn:

Credaf fod llawer o ddarllenwyr yn medru uniaethu gyda chefnidir digon cyffredin y llyfr, ond bod dallineb aelodau'r teulu yn rhywbeth gwahanol a hynny rhywsut wedi newid cwrs eu bywyd. Mae yma ymdeimlad dwfn o fod â gwreiddiau ac o berthyn trwy'r nofel; efallai ei fod o ar goll ym mywydau nifer o bobl heddiw a bod nifer yn deisyfu am hynny??²⁸¹

²⁷⁸ Ateb holiadur #30.

²⁷⁹ Ateb holiadur #7.

²⁸⁰ Ateb holiadur #1.

²⁸¹ Ateb holiadur #27.

Mae'n siŵr y byddai llawer ohonom yn cytuno â'r pwynt olaf yn y dyfyniad uchod. Mae'r teimlad o berthyn yn gryf yn y nofel, hyd yn oed yn achos y brodyr dall pan oeddent yn byw yn Lloegr. Wrth ddarllen, mae'n amlwg na wnaeth eu calonnau erioed adael Tynybraich, eu cartref genedigol gan fod eu teulu'n parhau i fod yno, ac am mai dyma lle y'u magwyd nhw.

Soniodd sawl un am yr iaith wrth ateb y cwestiwn hwn, a sut yr oedd Angharad Price wedi defnyddio iaith a oedd yn addas i'r llyfr:

Ei defnydd o iaith, namyn dim. Mae hi mor flodeuog, ond eto ddim yn orflodeuog – mae hi'n llifo ac yn arddangos ei dawn ysgrifennu, ond eto ddim yn brolio. Mae hi mor sensitif hefyd wrth drafod materion dwys – mae hi'n cyffwrdd calonnau'r darllenwyr wrth ddelio â marwolaethau, a thrychinebau megis dallineb mewn ffordd sensitif ond heb fod yn rhy sentimental nac ychwaith ei stretsio'n ormodol.²⁸²

Credaf i'r modd y peidiodd Angharad Price fod â chuddio rhannau o'r gwir, er enghraifft marwolaeth Olwen fach yn faban, fod yn allweddol i lwyddiant y nofel. Cawsom wybod am y da a'r drwg, am y caledi ac am yr amseroedd gwell. Soniwyd un neu ddwy o weithiau yn yr atebion am y 'tro' ar ddiwedd y nofel ac ychwanegodd hyn yn fawr at apêl y llyfr ar ôl i'r darllenydd ddod i wybod am yr hyn yr oedd Angharad Price wedi'i gyflawni:

Roedd hi'n nofel wych. Wedi ei hysgrifennu'n dda a'r iaith yn naturiol a graenus. Roedd hi'n dwist gwahanol ar yr un hen nofel Gymreig am deulu tlawd yn byw ar fferm yng nghefn gwlad Cymru amser maith yn ôl. Roedd y diwedd glo hefyd wrth gwrs yn tynnu ar emosiwn pobl.²⁸³

Credaf ei bod yn cael ei gweld fel clasur oherwydd nad oes unrhyw nofel debyg iddi ar gael yn y Gymraeg, felly yr oedd yn chwa o awyr iach i fyd llenyddiaeth Cymru yn 2002. Mae'r nofel hefyd yn tynnu darllenwyr i mewn i'w

²⁸² Ateb holiadur #9.

²⁸³ Ateb holiadur #17.

chanol ac yn gwneud iddynt gydymdeimlo â'r hyn sy'n digwydd yn y nofel, ac yna'r tro annisgwyl yn tynnu ar dannau'r galon.²⁸⁴

Cymharwyd arddull Angharad Price ag arddull Kate Roberts gan un ymatebydd.²⁸⁵

Mae'r ddwy yn ysgrifennu'n gynnil ac yn graff, a gallant ddenu'r darlennydd i fyd y stori. Byddai'n fraint i Angharad Price gael ei chymharu â 'Brenhines ein Llên' a gyfrannodd gymaint i lenyddiaeth Cymru yn ystod ei bywyd, ac ystyrir rhai o'i gweithiau hithau'n 'glasuron' erbyn hyn, megis *Traed Mewn Cyffion*²⁸⁶ a *Te yn y Grug*.²⁸⁷ Nid yw *Traed Mewn Cyffion* yn wahanol iawn o ran ei deunydd i *O! tyn y gorchudd* gan fod y ddwy nofel yn sôn am galedi bywyd teulu ar ddechrau'r ganrif ddiwethaf, yn ogystal ac am gyfnod a ffordd o fyw sydd bron yn angof i ni erbyn hyn.

Rhestrir nifer o elfennau amrywiol yn ymateb holiadur #46:

Yn fy marn i, cyfuniad o ffactorau: hanes a dycnwch rhyfeddol y teulu, y darlun o ardal a chyfnod, y ffaith bod y ffordd o fyw honno'n dod i ben i bob pwrpas, y bywyd nas profwyd gan Rebecca, yr ysgrifennu ei hun, y lluniau yn y gyfrol, ac i raddau personoliaeth ddiymhongar Angharad Price ei hun. Yn sicr, mae rhagor na hyn a bydd barn pawb yn amrywio, ond, i mi, dyma rai o brif atyniadau'r gyfrol.²⁸⁸

Nodwyd nifer o ffactorau hefyd yn ateb holiadur #39 a chredaf fod pwyntiau'r ddau ateb yn crisialu atyniad y nofel. Maent yn darlunio rhinweddau'r nofel, a'r elfennau hynny sydd wedi bod yn sail i'w llwyddiant ar hyd y blynyddoedd:

- (i) Mae'r arddull yn wych ac eto'n ddarllenadwy a dealladwy. Mae'r disgrifiadau o'r fro a'r bobl ynddi yn gwbl orchestol ar adegau. Daw pob personoliaeth yn fyw ynddi gan ddangos rhinweddau a gwendidau pob un yn ei dro, hyd yn oed y fam hir-ddioddefus yn ing clefyd Alzheimers.

²⁸⁴ Ateb holiadur #15.

²⁸⁵ Ateb holiadur #41.

²⁸⁶ Kate Roberts, *Traed Mewn Cyffion* (Aberystwyth, 1936).

²⁸⁷ Kate Roberts, *Te yn y Grug* (Dinbych, 1959).

²⁸⁸ Ateb holiadur #46.

- (ii) Mae'r stori yn ddirdynnol ar adegau – anaml iawn y bydda i'n colli deigr yn wrth ddarllen nofel ond fe wnes i y tro hwn, yn enwedig wrth ddarllen am y ddau blentyn bach dall yn gadael eu cartref a gwewyr y fam a'r tad. Fel mam roedd hyn yn cyffwrdd fy nghalon yn fawr.
- (iii) Mae'r disgrifiadau o'r fro a'r cartref yn afaelgar iawn (cefais flas hefyd ar erthygl Angharad Price am Fynydd Tynybraich yn *Y Mynydd Hwn*). Fel yng ngwaith Thomas Hardy mae'r lle ei hun fel petai'n gymeriad yn y nofel.
- (iv) Ei rhinwedd pennaf yw ei chynildeb. Er y tristwch anhraethol ynddi nid oes unrhyw sentimentalïaeth na gogordroi uwch ei ben. Mae'r gosodiad syml diaddurn droeon yn effeithiol dros ben.²⁸⁹

Gofynnais yn yr holiadur: '*A ydych yn darllen enillwyr y Fedal Ryddiaith fel arfer?*'

Dywedodd pedwar ar hugain eu bod yn darllen yr enillwyr bob blwyddyn, ac mae'n glod i'r gystadleuaeth ei hun fod cynifer yn darllen y llyfrau buddugol hyn o ganlyniad i'r feirniadaeth a'r cyhoeddusrwydd a gaiff y llyfr ar lwyfan y brifwyl ac oddi arno.

Dywedodd rhai eu bod yn darllen y llyfr buddugol ambell dro, ond nid bob blwyddyn, dywedodd eraill fod angen i'r nofel apelio atynt er mwyn iddynt fynd ati i'w darllen, ac roedd rhai yn dibynnu ar y feirniadaeth:

Nawr ac yn y man. Os bydd testun cyfrol/nofel yn apelio.²⁹⁰

Weithiau, mae'n dibynnu ar ymateb y bobl sydd o'm cwrpas i iddyn nhw. Megis Mam a Dad, Dad ddaru fy mherswadio i roi ail gyfle i *O! tyn y gorchudd*.²⁹¹

Mae'n dibynnu ar y feirniadaeth!²⁹²

Ddim bob tro – ond mae'r nofel hon wedi gwneud imi bigo ambell un arall yn y llyfrgell!²⁹³

²⁸⁹ Ateb holiadur #39.

²⁹⁰ Ateb holiadur #15.

²⁹¹ Ateb holiadur #17.

²⁹² Ateb holiadur #4.

²⁹³ Ateb holiadur #30.

Da yw gwybod bod *O! tyn y gorchudd* wedi ysgogi darllenwyr i ddarllen nofelau eraill a wobrwyyd gan y Fedal, gan brofi fod y gystadleuaeth ei hun yn llawn haeddu ei lle ar lwyfan yr Eisteddfod Genedlaethol. O ran y rheini a ddywedodd eu bod yn darllen nofelau arobryn y Fedal Ryddiaith, gofynnais iddynt: ‘...sut y tybiwch mae’r nofel hon yn cymharu â nhw?’ Cefais ymateb cadarnhaol iawn i’r cwestiwn hwn gan i’r rhan fwyaf nodi y credant fod *O! tyn y gorchudd* yn un o’r goreuon, os nad yr orau:

Credaf fod hon yn aros yn y cof yn llawer gwell na rhai eraill yr wyf wedi eu darllen, mae hon yn unigryw.²⁹⁴

Cafwyd disgrifiadau synhwyrus, ac ysgrifennu coeth iawn, yn y nofel hon, yr hyn sy’n ddigon cyffredin yn nofelau buddugol y Fedal Ryddiaith – er na cheir mo hynny bob blwyddyn wrth gwrs! Mae fel petai *O! tyn y gorchudd*, fodd bynnag, yn ymddangosiadol fwy “clasurol” na nifer o nofelau eraill sydd wedi cipio’r un wobwr, efallai oherwydd ei hieithwedd a’i harddull, a ystyrir braidd yn hen ffasiwn gan rai.²⁹⁵

Rwyf wedi cael blas arbennig ar sawl un arall e.e. *Ysgrifau’r Hanner Bardd*, *Y Graith*, *Cyn Daw’r Gaeaf*, *Y Llyffant*, a *Gwenddydd* ond credaf fod *O! tyn y gorchudd* yn rhagori arnynt.²⁹⁶

Un o’r goreuon, os nad y gorau, yn ystod y cyfnod diweddar. *Tri Mochyn Bach*, *Eirug Wyn a Rhwng Noson Wen a Phlygain*, *Sonia Edwards* hefyd yn fy ‘nhri uchaf’ ers 1990 (rhaid dweud bod nifer o gyfrolau clodwiw eraill hefyd!).²⁹⁷

Mewn dosbarth ar wahân. Mae nifer o’r cyfrolau sy’n ennill yn perthyn i’r ail ddosbarth ac yn fy marn i yn annheilwng iawn o ennill un o brif wobrau llenyddol yr iaith Gymraeg.²⁹⁸

Dydy arddull ac iaith y nofel hon ddim mor ‘ysgafn’ / modern â rhai megis *Mererid Hopwood*, *Dylan Iorwerth* neu *Cefin Roberts*, ond dyna pam mae hi’n fwy o ‘glasur’.²⁹⁹

I fi – fwy at fy nhast a ddim mor ‘arallfydol’ a ‘gwahanol’, e.e. *Robin Llywelyn* ac *Ifan Morgan Jones*.³⁰⁰

Un o’r goreuon yn sicr – *Tylluan Wen*, *Angharad Jones* hefyd wedi plesio.³⁰¹

²⁹⁴ Ateb holiadur #8.

²⁹⁵ Ateb holiadur #25.

²⁹⁶ Ateb holiadur #39.

²⁹⁷ Ateb holiadur #46.

²⁹⁸ Ateb holiadur #45.

²⁹⁹ Ateb holiadur #14.

³⁰⁰ Ateb holiadur #34.

Mae'n sefyll allan. Rhai mwy diweddar yn fwy anodd i'w dilyn.³⁰²

Cadw at safon uchel arferol yr Eisteddfod Genedlaethol, ac yn un o'r goreuon hefyd.³⁰³

Ni allaf ateb y cwestiwn hwn heb fod yn rhagfarnllyd, oherwydd i mi mae'r nofel hon yn glasur ac ar yr un lefel â'r clasuron megis *Un Nos Ola Leuad*, felly i mi nid oes unrhyw nofel Fedal Ryddiaith yn cymharu â hi.³⁰⁴

Tebyg iawn yw'r ymatebion hyn, gyda llawer yn nodi bod *O! tyn y gorchudd* yn haws ei darllen gan ei bod yn sôn am gyfnod, am leoliad ac am deulu go-iawn yn hytrach nag am fyd arall, neu'n adrodd stori anodd ei chredu. Yn ôl holiadur #22, fodd bynnag:

Anoddach mynd i mewn iddi.³⁰⁵

Cytunaf â'r sylw hwn. Mae sawl ymatebydd wedi nodi i'r bennod gyntaf beri trafferth iddynt, ac ymddengys nad yw'r nofel wedi apelio cymaint at rai o'r herwydd. Ond wrth ystyried yr holl ymatebion, nid yw hyn wedi effeithio ar eu barn ac fel y gwelir o'r sylwadau canmoliaethus uchod, cred llawer o'r darllenwyr fod *O! tyn y gorchudd* yn un o'r nofelau gorau i ennill y Fedal Ryddiaith er pan ddechrewyd y gystadleuaeth yn Eisteddfod Genedlaethol Machynlleth, 1937.

'A oedd unrhyw wendidau yn y nofel i chi? Beth oeddynt a pham?' oedd un o'r cwestiynau eraill a ofynnais yn yr holiadur. Ar wahân i'r hyn y soniais amdano ar ddechrau'r bennod, sef bod sawl un wedi cael trafferth gyda'r bennod gyntaf, nododd rhai fod rhan olaf y nofel yn wannach na gweddill y nofel:

³⁰¹ Ateb holiadur #19.

³⁰² Ateb holiadur #32.

³⁰³ Ateb holiadur #31.

³⁰⁴ Ateb holiadur #15.

³⁰⁵ Ateb holiadur #22.

Ni welais unrhyw wendidau ynddi ac eithrio efallai tua thri chwarter y ffordd drwyddi lle nad oedd llawer yn digwydd. Efallai fod ar y mwyaf o athronyddu yn y darn hwn.³⁰⁶

Teimlo bod pethau'n colli stêm rhyw ychydig at y diwedd – trafod y cyfnod modern ddim cweit mor llwyddiannus a rhyw gymaint o ôl brys ar y rhan yna o'r gwaith.³⁰⁷

Roedd y rhan olaf o'r nofel yn rhuthro i gymharu â'r 2/3 blaenorol.³⁰⁸

Yn y rhan olaf, mae Angharad Price yn disgrifio 'taith' Rebecca o amgylch y byd wrth iddi fynd i'r llyfrgell i Ddolgellau i ddarllen am y byd. Credaf nad yw'r darn hwn yn perthyn yn gyfan gwbl i weddill y nofel. Efallai fod Angharad Price yn teimlo bod angen sôn am rywle y tu allan i filltir sgwâr Rebecca a theulu Tynybraich, ond ni chredaf fod ar y nofel ei angen o gwbl. Byddai'r nofel yn gyfanwaith heb y rhan hon, yn fy marn i. Dyma rai ymatebion eraill i'r cwestiwn hwn:

I fi, prin iawn oedd y gwendidau – ni allaf ar hyn o bryd gofio yr un. Dim ond y pleser o'i darllen alla i gofio.³⁰⁹

Dwi'n methu meddwl am yr un!³¹⁰

Cwestiwn olaf yr holiadur oedd: '*Faint o nofelau rydych yn eu darllen yn y Gymraeg o'u cymharu â nofelau Saesneg?*' Dywedodd 18 eu bod yn darllen mwy o nofelau Cymraeg na nofelau Saesneg ac roedd llawer yn nodi eu bod yn darllen yr un faint yn y Gymraeg a'r Saesneg. Dywedodd 10 eu bod yn darllen mwy o nofelau Saesneg na Chymraeg, a gwnaeth un sylw yn holiadur #30 dynnu fy sylw:

Mae tuedd i ddarllen yn y Saesneg mae arna i ofn! Ond rhaid cyfaddef fod rhai nofelau Cymraeg diweddar yn dechrau troi 'nhrwyn yn ôl. Rwyf ar hyn o bryd yn cael blas rhyfeddol ar nofel *Lladd Duw* gan Dewi Prysor.³¹¹

³⁰⁶ Ateb holiadur #39.

³⁰⁷ Ateb holiadur #46.

³⁰⁸ Ateb holiadur #44.

³⁰⁹ Ateb holiadur #34.

³¹⁰ Ateb holiadur #9.

Braf yw gweld darllenydd yn cael ei ddenu yn ôl i ddarllen nofelau Cymraeg. Mae gennym gyfoeth o nofelau yn y Gymraeg sy'n llawn haeddu cael eu darllen a'u gwerthfawrogi gan gynulleidfa mor eang â phosibl. Dywedodd John Rowlands yn ddiweddar:

Bu digon o sôn am fwy nag un 'dadeni barddol', ond dyma bawb yn unfryd erbyn hyn fod y nofel Gymraeg ar i fyny. Gydag awduron mor ddawnus ag Angharad Tomos, Angharad Price, Robin Llywelyn, Wiliam Owen Roberts a Mihangel Morgan wedi sgwennu mor doreithiog – ac mor athrylithgar – go brin y gellir collfarnu llenyddiaeth y cyfnod hwn.³¹²

Mae pedwar o'r pum awdur a enwir yn y dyfyniad uchod wedi ennill y Fedal Ryddiaith ac wedi parhau i ddatblygu eu dawn gan gynhyrchu lliaws o nofelau poblogaidd.

Cwestiwn 18 oedd yr un pwysicaf yn yr holiadur yn fy marn i: '*Caiff y nofel hon ei disgrifio fel "clasur", ond sut y tybiwch chi y mae'n cymharu â chlasuron mawr eraill llenyddiaeth Gymraeg megis Un Nos Ola Leuad ac ati?*' Nid oeddwn wedi disgwyl atebion mor amrywiol ag a gefais ac mae rhai yn dadansoddi'r cwestiwn yn llawer dyfnach nag eraill. Roeddwn am wybod barn yr ymatebwyr am lwyddiant *O! tyn y gorchudd* o'i gymharu â nofelau poblogaidd eraill yn y Gymraeg, nofelau sydd wedi ennill eu plwyf fel rhai o glasuron ein hiaith. Er mai megis dechrau y mae taith lenyddol *O! tyn y gorchudd* o'i chymharu â nofelau megis *Un Nos Ola Leuad*, credaf ei bod wedi cyffwrdd â nifer mawr o bobl ac mae'r ffaith ei bod wedi'i chyfieithu i'r Saesneg ac i Fengali, wedi ei rhoi ar CD a'i throsi i Braille, yn ychwanegu at y llwyddiant. Dyma rai o'r ymatebion a gefais i'r cwestiwn:

³¹¹ Ateb holiadur #30.

³¹² John Rowlands, 'Culni siofinistaidd', *Barn*, 608 (Medi 2013), t. 53, tt. 54-5.

Yn yr un cae ddwedwn i, ac mae'r elfen emosiynol wastad yn cyffwrdd y gynulleidfa Gymreig!³¹³

Yn fy marn i mae *Un Nos Ola Leuad* yn sefyll ar wahân i unrhyw glasur arall, ond fel *O! tyn y gorchudd* mae hithau hefyd yn darlunio bywyd caled a ffordd Gymreig o fyw, ac mae'r ddwy yn rhai sydd yn sefyll allan ac yn aros yn y cof. Mae'r elfen o dafodiaith yn *Un Nos Ola Leuad* yn ei gwneud hi'n nofel gwbl wahanol i'r arddull ddisgrifiadol sydd yn *O! tyn y gorchudd*.³¹⁴

Yn llawn haeddu bod yn yr un categori. Anodd dweud fod un yn well na'r llall am eu bod yn wahanol.³¹⁵

I have never finished *Un Nos Ola Leuad*. I am not sure I can say why but it was boring. It was not a continuous novel but snippets of adventurous children. Probably fun to read for those who have "been there; done that". I like a story that goes somewhere, makes discoveries, gives us a future. *O! tyn y gorchudd* leaves you moving forward to the next generation. You are left to imagine what is coming. There is no 'dead end' after Rebecca's death. *Un Nos Ola Leuad* just says "this is how they were" and I say "this is how many were and are, so what else is new?"³¹⁶

Gwnaeth rhai gymharu *O! tyn y gorchudd* â nofelau eraill – gobeithiwn y byddai'r ymatebwyr yn gwneud hyn er mwyn darganfod pa nofelau eraill y maent yn eu hystyried yn 'glasuron' a pha awduron sy'n aros yn y cof oherwydd eu gwaith:

Buasai *O! tyn y gorchudd* yn bendant yn fy mhump uchaf – yn ogystal â *Cysgod y Cryman* ac *Yn ôl i Leifior*.³¹⁷ Dwi'n meddwl ei bod yn cymharu'n dda iawn. Ges i fwy o flas ar ddarllen *O! tyn y gorchudd* nag *Un Nos Ola Leuad* ond roedd 'na ddisgrifiadau gwych yn honno hefyd. Efallai fod mwy o stori yn *Cysgod y Cryman*, *Yn ôl i Leifior* ac *Y Stafell Ddirgel* a rhai tebyg.³¹⁸

Diddorol yw'r nofelau y mae'r ddau uchod wedi cymharu *O! tyn y gorchudd* â nhw. Cyhoeddwyd *Cysgod y Cryman*³¹⁹ ym 1953, *Yn ôl i Leifior*³²⁰ ym 1956 ac *Y Stafell*

³¹³ Ateb holiadur #28.

³¹⁴ Ateb holiadur #8.

³¹⁵ Ateb holiadur #21.

³¹⁶ Ateb holiadur #6.

³¹⁷ Ateb holiadur #29.

³¹⁸ Ateb holiadur #27.

³¹⁹ Islwyn Ffowc Elis, *Cysgod y Cryman* (Llandysul, 1953).

³²⁰ Islwyn Ffowc Elis, *Yn ôl i Leifior* (Aberystwyth, 1956).

*Ddirgel*³²¹ ym 1969, felly mae'r tair nofel uchod wedi cael cryn amser i'w sefydlu eu hunain ac yn denu darllenwyr newydd o hyd; megis dechrau y mae *O! tyn y gorchudd*, mewn gwirionedd. Credaf innau y bydd *O! tyn y gorchudd*, ymhen blynnyddoedd, yn cael ei hystyried gan lawer yn un o nofelau gorau'r unfed ganrif ar hugain, ond amser a ddengys.

Mae'r atebion canlynol i'r cwestiwn yn cytuno nad yw *O! tyn y gorchudd* wedi cael digon o amser eto i fwrw gwreiddiau:

Dwi ddim yn meddwl ei bod hi wedi cael digon o amser i'w sefydlu ei hun fel clasur eto – does yna ddim gymaint o ffws wedi'i wneud ohoni eto. Wrach y cymrith [*sic*] amser cyn i bobl lwyr sylweddoli ei gwerth.³²²

Anodd dweud – haws barnu mewn rhyw ddeng mlynedd arall. Ond anos hefyd i nofel sefyll allan dyddiau yma – yng nghyfnod C. Prichard, K. Roberts, Islwyn Ffowc Elis, ychydig iawn o ddeunydd oedd yn cael ei gyhoeddi, felly roedd yn haws i waith gael sylw, ac wrth gwrs, doedd nofelau ddim yn cystadlu i'r fath raddau â mathau mwy cyfoes o adloniant. Wedi dweud hynny, mi fyddai hi yr un mor anodd ceisio cymharu nofel Saesneg gyfoes â gwaith Dickens neu'r chwirydd Brontë.³²³

Dim cweit yn yr un cae. Amser a ddengys.³²⁴

Credaf fod modd ei chymharu â'r clasuron eraill, ond nid yw'n cael cymaint o sylw am ei bod yn dal yn nofel eithaf diweddar – h.y. o'i chymharu ag *Un Nos Ola Leuad* a *Cysgod y Cryman*.³²⁵

Gwir yw dweud ei bod yn cymryd amser i sefydlu statws a pharch i nofel, ond credaf fod *O! tyn y gorchudd* ar y trywydd iawn i gael ei hystyried ar yr un lefel â'r nofelau a enwir uchod.

Awgrymwyd gan rai atebion hefyd:

Dwn i ddim fydde *O! tyn y gorchudd* yn gwneud ffilm dda??³²⁶

³²¹ Marion Eames, *Y Stafell Ddirgel* (Llandybie, 1969).

³²² Ateb holiadur #9.

³²³ Ateb holiadur #46.

³²⁴ Ateb holiadur #32.

³²⁵ Ateb holiadur #15.

Mae hi siŵr o fod yn reit uchel i fyny'r rhestr, ac i ddeud y gwir, hoffwn weld ffilm yn cael ei gwneud ohoni.³²⁷

Mae hi'n dal ei thir ac fe dybiwn i y gwnaiff ennill mwy o dir. Dylai fod yn destun gosod lefel A.³²⁸

Mae cymaint o bosibiliadau i'r nofel hon ddatblygu a chael ei haddasu i gyfryngau eraill, ac mae'n bwysig defnyddio'r adnoddau sydd gennym ar ffurf nofelau i wneud rhaglenni teledu neu ffilm, a'u defnyddio ar feysydd llafur yn ein hysgolion a'n prifysgolion. Yn Saesneg, mae llawer o'r ffilmiau yr awn i'w gweld yn y sinema yn addasiadau o nofelau, ac mae ambell nofel Gymraeg hefyd wedi'i haddasu, er enghraifft, *Y Graith*³²⁹, gan Elena Puw Morgan, a enillodd y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru Caerdydd ym 1938, a *Martha Jac a Sianco*³³⁰ gan Caryl Lewis, sydd hefyd ar faes llafur Safon Uwch ar hyn o bryd.

Er yr ymatebion pendant gan rai fod *O! tyn y gorchudd* yn haeddu cael ei galw'n 'glasur', roedd rhai, a hynny'n ddigon teg, yn cwestiynu ystyr a diffiniad 'clasur':

Diau y dylid diffinio'r hyn a olygir wrth "glasur" i ddechrau, ond os mai nofel boblogaidd sy'n cynnal neu'n tyfu yn ei phoblogrwydd sydd yma, teg ei hystyried yn "glasur" – er na ddylid anwybyddu amwysedd gair haniaethol o'r fath.³³¹

Llwyddiant 'clasur' yn fy marn i yw bod iddi elfen y gall y darllenwyr uniaethu â hi – gallai cynulleidfa oes *Un Nos Ola Leuad* gofio neu hel atgofion am y profiadau neu ddigwyddiadau a drafodir ynddi. Ceir hyn gydag *O! tyn y gorchudd* hefyd ac mae rhai o'r gynulleidfa hyn heddiw wedi bod yn dyst i ddigwyddiadau tebyg. Er hynny, gellir dadlau fod ambell i deimlad, cymeriad, sefyllfa yn ddiamsar ac yn berthnasol i unrhyw gynulleidfa mewn unrhyw oes. Teimlaf mai 'amser' yw'r prif brawf i ddiffinio a yw nofel yn glasur neu beidio; a

³²⁶ Ateb holiadur #27.

³²⁷ Ateb holiadur #11.

³²⁸ Ateb holiadur #45.

³²⁹ Elena Puw Morgan, *Y Graith* (Dinbych, 1943).

³³⁰ Caryl Lewis, *Martha Jac a Sianco* (Talybont, 2004).

³³¹ Ateb holiadur #25.

rhagdybiaf y bydd hon mewn blynyddoedd i ddod yn dal i gael ei chysidro'n 'glasur'.³³²

Pwy sy'n penderfynu beth sy'n "glasur"?³³³

Mae'n amlwg bod diffinio nofel yn 'glasur' yn dibynnu ar farn unigolyn, ond yr hyn a welir yn achos *O! tyn y gorchudd* yw bod llawer o'r un farn, a'i bod wedi cyffwrdd â chynifer o bobl am wahanol resymau. Yn y cyflwyniad nodais fod 'clasur' yn Ngeiriadur Prifysgol Cymru yn cael ei ddiffinio fel 'Gwaith o'r dosbarth blaenaf mewn llên neu mewn celfyddyd, gwaith coeth a gorffenedig',³³⁴ ac o'r ymatebion gwelaf fod *O! tyn y gorchudd* yn cyfateb i'r disgrifiad hwn ym marn y mwyafrif helaeth. Mae'n arbennig i un teulu, ond mae'n crisialu bywyd cefn gwlad Cymru a'r tu hwnt, gan ei wneud yn berthnasol i gynifer, yn enwedig trwy gael ei chyfieithu i'r Saesneg, Bengali, Braille a'i rhoi ar CD.

Yn olaf, rhaid ystyried atebion yr holiaduron yn ôl oedran, yn ôl rhyw ac yn ôl cefndir yr ymatebwyr. Mae hyn yn eithaf syml gan mai dim ond dau o'r ymatebion a gefais a oedd wedi nodi nad oeddent yn hoffi'r nofel o gwbl ac nad oeddent wedi llwyddo i'w darllen hyd y pen; gwryw rhwng 46 a 55 oed o ardal Caernarfon, ateb holiadur #22, a benyw rhwng 36 a 45 oed o ardal Aberystwyth, ateb holiadur #26. Roedd dau arall wedi nodi nad oeddent wedi hoffi'r llyfr cymaint ag eraill, gwryw rhwng 36 a 45 oed o ardal Dinbych, ateb holiadur #43, a benyw rhwng 18 a 25 oed o ardal Caerdydd, ateb holiadur #24. O'r data, ni welaf gysondeb o ran diffyg apêl y nofel i grŵp oedran penodol nac i bobl o un ardal benodol, nac i ryw benodol. Roedd, er enghraifft, bobl o bob oedran wedi cael trafferthion â'r bennod gyntaf. Ymateb cadarnhaol iawn a gefais ar y cyfan i'r nofel yn yr holiaduron, a chredaf fy mod wedi gwneud fy ngorau i

³³² Ateb holiadur #31.

³³³ Ateb holiadur #22.

³³⁴ R. J. Thomas (gol.), *Geiriadur Prifysgol Cymru*, Cyfrol 1 (Caerdydd 1950-67), t. 491.

gyrraedd cynulleidfa mor eang â phosibl er mwyn cael amrywiaeth o ymatebion. Rhaid nodi eto mai merched oedd y rhan fwyaf o ddigon o'r ymatebwyr, a gallai hyn fod yn arwyddocaol oherwydd gellid dadlau bod menywod yn wahanol i ddynion, i ryw raddau, o ran ymateb emosiynol a chwaeth lenyddol, a chofier mai o safbwynt merch y mae'r nofel wedi ei hysgrifennu. Daeth rhai o'r ymatebion gan ddarllenwyr o ardal y nofel ac efallai i'r rhain fod yn fwy brwd amdani oherwydd eu bod yn adnabod ardal y stori'n dda neu am eu bod yn hoff o ddarllen nofelau am eu bro eu hunain. Dylid cadw'r pwyntiau hyn mewn cof wrth ddarllen yr ymatebion, ond ni chredaf o gwbl y dylai hyn dynnu oddi wrth y sylwadau eu hunain. Teimlaf fod pawb wedi ateb yn onest iawn gan beidio â chelu eu teimladau. Yn Atodiad 3, ceir rhagor o fanylion am ymatebwyr yr holiaduron, ac eithrio unrhyw wybodaeth y gellir adnabod yr unigolion trwyddi.

Gwerthfawrogaf yn fawr fod pob ymatebydd wedi rhoi o'i amser i ateb yr holiadur hwn ac i'w ddychwelyd imi, ac rwy'n ddiolchgar iawn i bob un. Roedd hi'n hollbwysig imi gael barn y darllenwyr ar gyfer fy astudiaeth er mwyn ychwanegu haen arall i'r dadansoddi ac er mwyn ceisio bwrw goleuni newydd ar y derbyniad a gafodd y nofel. Dysgais lawer ganddynt a thynnwyd fy sylw at rai agweddau newydd ar y nofel arbennig hon ac at rai safbwyntiau gwahanol.

Casgliad

Wrth ddadansoddi gweithiau a ystyrir yn glasuron llenyddol gan ysgolheigion a chan ddarllenwyr cyffredin, daeth yn amlwg bod angen stori dda, ysgrifennu coeth a stori y gall y darllenydd uniaethu â hi mewn rhyw ffordd er mwyn i nofel lenyddol gael ei hystyried yn 'glasur' fel y cyfryw. Mae rhai gweithiau yn llwyddo i greu argraff arbennig ar ystod eang o ddarllenwyr ac mae eu poblogrwydd yn datblygu dros gyfnod o flynyddoedd. Bu *O! tyn y gorchudd* yn nofel hynod o lwyddiannus hyd yn hyn, ac mae wedi cyrraedd cynulleidfaoedd na fuasai'r teulu y sonnir amdano yn y nofel erioed wedi ystyried y byddai'n eu cyrraedd. Yma yng Nghymru, mae nifer o lyfrau wedi datblygu i gael eu hystyried ymhlith gweithiau mwyaf ein cenedl, a rhai ohonynt yn cael eu galw'n 'glasuron' gan eu bod yn cynnwys y math o ragoriaethau sy'n cael eu hystyried yn hanfodol ar gyfer clasur llenyddol. Mae nofelau megis *Un Nos Olau Leuad* ac *Y Graith* wedi cael eu troi'n ffilmiau ac maent yn nofelau arwyddocaol yn ein hiaith. Mae'n rhaid i nofelau sy'n cael eu hystyried yn glasuron sefyll allan, mae'n rhaid bod ganddynt nodweddion arbennig ac mae'n rhaid iddynt gynnig rhywbeth i bobl o bob oes, boed bum mlynedd neu hanner can mlynedd ar ôl eu cyhoeddi. Wedi darllen yr holl sylwadau gwerthfawr a gefais yn yr holiaduron ac wrth ymchwilio ymhellach i *O! tyn y gorchudd*, mae'n amlwg fod y nofel hon wedi llwyddo i beri i lawer o ddarllenwyr uniaethu â hi ac i agor drysau i fyd hollol anghyfarwydd i nifer ohonynt drwy gyfrwng naratif hunangofiannol sy'n seiliedig ar hanes teulu'r awdur. Mae hefyd yn nofel 'wahanol'; mae'r tro yn y gynffon yn dangos crefft arbennig Angharad Price ac yn ein tynnu i mewn i'r nofel nes ein bod yn teimlo'n rhan o'r teulu. Daw'r 'tro' hwn yn sioc i lawer. Nodweddion fel hyn sy'n arwain y nofel i gael ei hystyried yn glasur, yn ôl barn ysgolheigion a nifer fawr o

ddarllenwyr cyffredin, ac mae'r dyfeisgarwch hwn yn cael ei drosglwyddo i ragor o gynulleidfaoedd o hyd diolch i'r gwaith o gyfieithu'r nofel.

Mae'r Eisteddfod Genedlaethol yn cynnig llwyfan gwerthfawr iawn i awduron Cymru – awduron ifanc ac awduron mwy profiadol, ac mae wedi llwyddo i ddatblygu cystadleuaeth y Fedal Ryddiaith yn wobr werth ei hennill oherwydd y cyhoeddusrwydd a geir yn sgil y fuddugoliaeth. Mae Gwobr Goffa Daniel Owen a'r Fedal Ryddiaith wedi datblygu i fod yn wobrau sy'n cael eu parchu ac y mae pobl am eu hennill. Yn ôl Gerwyn Williams:

... fe ddadleuwn fod y ddwy gystadleuaeth rhyngddynt wedi chwarae rhan ganolog yn pennu'r math o ffuglen fu ohoni er canol y 1970au a'r math o ffuglen a ystyrir yn ffasiynol.³³⁵

Daeth awduron megis Angharad Price yn adnabyddus trwy ennill y Fedal Ryddiaith ac mae rhai o'n hawduron mwyaf poblogaidd megis Angharad Tomos, Robin Llywelyn a Mihangel Morgan wedi ennill y gystadleuaeth ar hyd y blynyddoedd. Bu ennill y Fedal Ryddiaith yn gam cychwynnol arbennig o dda i Angharad Price. Roedd canmoliaeth y beirniaid yn ysgogiad i nifer i fynd ati i brynu'r nofel a'i darllen yn syth, gan gychwyn y proses o ddatblygu'i hapêl ymysg pobl Cymru a thu hwnt. Fel y soniais ym mhennod 1, nid yw pob nofel sy'n ennill cystadleuaeth megis y Fedal Ryddiaith yn ysgogi cymaint o sylw fel y caiff ei chyfieithu i ieithoedd eraill, a chredaf fod y nofel hon, yn wahanol i rai o enillwyr eraill y Fedal, wedi cynnig rhywbeth ychwanegol i'r darlennydd, gan arwain at yr holl sylw cadarnhaol a gafodd ers ei chyhoeddi gyntaf.

³³⁵ Gerwyn Williams, 'Daniel, y Fedal a'r Nofel; y nofel a'r Eisteddfod Genedlaethol, 1977-2002', *Taliesin*, cyfrol 116, Eisteddfod 2002, t. 78, tt. 78-110.

Mae Angharad Price wedi llwyddo i roi ei stamp ei hun ar gonfensiwn yr hunangofiant cyffredin a thrwy wneud hyn, wedi ychwanegu rhywbeth gwahanol ato, rhywbeth sy'n gweddu'n berffaith yn y nofel. Gwelir o'r sylwadau ym mhennod 2 fod y nofel yn un lwyddiannus yng ngolwg y beirniaid llenyddol ac i'r themâu fod yn rhan bwysig o hyn. Darluniodd gyfnod sydd bron yn angof bellach yma yng Nghymru a thrwy ddarlunio'r cyfnod, mae'n darlunio'r caledi a'r tristwch sy'n gysylltiedig ag ef. Serch hynny, yng ngeiriau Hywel Teifi Edwards:

Er bod 'na dristwch dwfn yn y stori, allan o hwnna ma' Angharad wedi creu hyfrydwch – mae'n ddarn o lenyddiaeth sy'n codi calon dyn.³³⁶

Llwydda Angharad Price i gyffwrdd â chymaint o wahanol emosiynau yn y nofel, o dristwch i hapusrwydd, a thrwy hyn ceir nofel ddirdynol iawn. Fe'n tywysir ar daith gyda'r teulu wrth iddynt brofi'r emosiynau hyn.

Bu'r proses cyfieithu'n gam arwyddocaol i *O! tyn y gorchudd* a agorodd y drysau i lawer mwy o bobl trwy'r cyfieithiad i'r Saesneg, a thebyg fydd effaith y cyfieithiad i Fengali a'r Almaeneg sydd ar y gweill. Gwnaeth y fersiwn Braille hefyd agor drysau i'r deillion, sy'n gwbl berthnasol i'r nofel hon am deulu a fu'n brwydro yn erbyn dallineb am flynyddoedd lawer gan geisio rhoi'r cyfleoedd gorau posibl i'w plant dall. Dywed Joyce Chatterton yn 2002:

Mae'n warth mai dim ond 5% o ddeunydd darllen sydd ar gael mewn fformatau y gall pobol ddall neu â golwg rhannol eu darllen. Yr ateb yw sicrhau fod amrywiaeth helaethach o lyfrau ar gael a sicrhau eu bod ar gael i gymaint o bobol ac [*sic*] sydd bosib.³³⁷

³³⁶ Y *Sioe Gelf*, 05/01/2003, S4C, Angharad Price a Hywel Teifi Edwards yn trafod y nofel *O! tyn y gorchudd*.

³³⁷ BBC Cymru: www.bbc.co.uk/cymru/eisteddfod2002/maes/deillion.shtml. Ymwelwyd ar 02/02/2011.

Dengys *O! tyn y gorchudd* ei hun mor bwysig yw darparu ar gyfer y deillion, pobl sydd yn mwynhau darllen a gwranddo ar eiriau cymaint â neb. Dyma thema bwerus yn y nofel, a theimlaf fy mod wedi dysgu llawer drwyddi am fywyd pobl ddall a'r rhwystrau a wynebir ganddynt o ddydd i ddydd. Dyma un o swyddogaethau nofel dda yn fy marn i, sef ein bod yn dysgu rhywbeth wrth ei darllen, efallai yn ddiarwybod inni ar y pryd, ond ar ôl gorffen y llyfr, ein bod yn teimlo ein bod yn gyfoethocach.

Fel y gwelwyd yn y traethawd hwn, disgrifiwyd *O! tyn y gorchudd* gan lawer fel 'clasur', ac ar wefan Gwales, ceir y dyfyniad canlynol amdani:

...clasur cyfoes, gwerthwr gorau a wnaeth gyffwrdd â chalonnau'r darllenwyr...³³⁸

Wedi dadansoddi'r holiaduron, cafwyd bod sawl un yn credu bod y nofel yn haeddu cael ei galw'n 'glasur' a'i bod yn un o nofelau gorau'r Gymraeg. Elwodd Angharad Price ar y blynyddoedd a dreuliodd yn meithrin ac yn datblygu ei dawn ysgrifennu. Creodd argraff arbennig ar Vaughan Hughes fel ar sawl un arall:

... mae ei chyfrol *O! tyn y gorchudd* yn greadigaeth hudolus. Dwn i ddim am neb arall o'i chenhedlaeth sy'n gallu sgwennu Cymraeg mor gyfoethog â Chymraeg Angharad. Af ymhellach. Hyd yn oed yng ngweithiau Kate Roberts ei hun chewch chi ddim gwell Cymraeg na hyn. Nid yn fyrbwyl a charlamus y dywedaf hynny ond yn gwbl ystyriol.³³⁹

Yn ogystal â hyn, mae nifer o'r ymatebion cyhoeddedig i fersiwn Cymraeg a Saesneg y nofel yn defnyddio'r gair 'clasur'/'classic' i'w disgrifio, megis adolygiad *The Independent* a chyflwyniad Jane Aaron i fersiwn dwyieithog y nofel. Wrth ystyried, felly, a yw *O! tyn y gorchudd* wedi meithrin statws 'clasur', rhaid dychwelyd at y rhagymadrodd i ailystyried y nodweddion a nodir yno er mwyn canfod a yw'r

³³⁸ Gwybodaeth bellach gan y cyhoeddwr: <http://www.gwales.com/goto/biblio/cy/9781848511750>. Ymwelwyd ar 15/01/2011.

³³⁹ Vaughan Hughes, 'Eisteddfod Gwynedd', *Barn*, 476 (Medi 2002), tt. 40-1.

nofel yn ateb y gofynion hyn. Rhaid ystyried yn ogystal arwyddocâd y ffaith mai cyfrol arobryn y Fedal Ryddiaith ydyw, a drafodir ym mhennod 1, fy marn bersonol innau a barn academyddion a llenorion a gyflwynir ym mhennod 2, a barn pobl gyffredin trwy'r holiaduron a ddadansoddir ym mhennod 3. Ymatebion cadarnhaol a chanmoliaethus iawn a gefais i'r nofel gan y nifer helaeth o bobl y siaradais â nhw ac o'r adolygiadau a ddarllenais ar bob fersiwn o'r nofel. Bu ennill y Fedal Ryddiaith yn hwb cychwynnol ardderchog i'r nofel, yn enwedig ar ôl cael sylwadau canmoliaethus iawn gan y tri beirniad. Gellir honni'n hyderus y bydd y nofel ar gof a chadw fel un o'r nofelau gorau i ennill y Fedal Ryddiaith erioed, ac y bydd hyn yn sicrhau lle iddi yng nghalonau pobl Cymru a thu hwnt am flynyddoedd lawer. Nid pob nofel sy'n ennill y Fedal sy'n gallu sicrhau'r statws hwn, fel sy'n wir am bob cystadleuaeth, mae'n siŵr, ond credaf i, a nifer o ymatebwyr yr holiaduron, fod y nofel hon yn llawn haeddu cael ei hystyried yn un o'r nofelau gorau i ennill y Fedal. Ar ôl hyn, mynd o nerth i nerth a wnaeth y nofel wrth ddenu rhagor o sylw ar ôl ennill Llyfr y Flwyddyn yn 2003. Gwelwn ragor o bobl yn dod i wybod amdani, a'r ganmoliaeth iddi ar gynnydd. Drwy gyfieithu'r nofel i'r Saesneg, ehangwyd y gynulleidfa bosibl, a chredaf fod sylw John Sutherland yn ddiddorol yn y cyswllt hwn:

The huge majority of books do not outlast the period that gave them birth, nor do they migrate to find homes in other languages.³⁴⁰

Ar ôl i'r nofel gynyddu ei chynulleidfa, dechreuwyd defnyddio'r term 'clasur' i'w disgrifio, er nad yw pawb, fel y gwelwyd, yn cytuno â'r dyfarniad hwnnw. Arwyddocaol hefyd yw'r dwristiaeth lenyddol a ysgogwyd gan y llyfr; yn wir, ers i'r nofel ennill y Fedal Ryddiaith mae'r teulu wedi cael ymwelwyr i'r fferm ac wedi cynnal

³⁴⁰ John Sutherland, *50 literature ideas you really need to know* (London, 2011), t. 17.

sgyrsgiau mewn cymdeithasau amrywiol ledled y wlad. Fel y dywedodd Lloyd Jones yn ei nodiadau yn y cyfieithiad cyfochrog:

Yn wir, bu'r darllen amdano yn sbardun i nifer ymweld â'r cwm. Fel minnau, maent wedi ymateb i grefft gywrain y llyfr, ynghyd â'i agosatrwydd syml; mae fel petasai'r stori yn cael ei hadrodd gan aelod o'ch teulu chi eich hun.³⁴¹

Roedd llawer, fel Lloyd Jones, wedi gwirioni ar y nofel, ond dywedodd rhai fod angen rhagor o amser arni i'w sefydlu ei hun fel 'clasur'. Dyma bwynt teilwng iawn gan mai un mlynedd ar ddeg yn unig sydd er pan enillodd y Fedal Ryddiaith yn 2002. Mae nofelau eraill, megis *Un Nos Ola Leuad a Te yn y Grug*, wedi cael llawer mwy o amser i'w sefydlu eu hunain ac i ddenu rhagor o ddarllenwyr. Ac eto, gellir dadlau bod hon yn nofel i bawb, yn un nad yw'n gwthio ffiniau ffuglen wyddonol, sy'n ymgadw rhag nodweddion arallfydol a dinesig, ac sy'n darlunio bywyd cyffredin pobl gyffredin cefn gwlad Meirionydd. Dyma un o'r rhesymau pennaf dros ei hapêl, sef bod ganddi'r potensial i gael ei chyfieithu i ieithoedd eraill ac y gall cynulleidfaoedd newydd barhau i'w mwynhau gymaint â ni yma yng Nghymru er y gallant fod yn anghyfarwydd â'r wlad y mae'n seiliedig arni, gan werthfawrogi'r hanes. Mae'r dwristiaeth lenyddol a ddisgrifiwyd gan Catrin Jones o Faesglasau hefyd yn arwydd o apêl y nofel, bod ar bobl eisiau gwybod am yr hanes y tu ôl i'r stori a bod rhieni Catrin Jones, Wyn ac Olwen Jones, wrthi'n ddi-baid yn mynd o amgylch Cymru'n rhannu hanes eu teulu. Fel y gwelwn o'r gorffennol, mae llenyddiaeth a ystyrir yn glasurol yn datblygu dros amser, yn ennill rhagor o ganmoliaeth a chlod dros gyfnod o flynyddoedd, weithiau'n cael ei chyfieithu, weithiau'n cael ei gwneud yn rhaglen deledu neu ffilm, ac weithiau ar faes llafur yr ysgolion a'r prifysgolion.

³⁴¹ Lloyd Jones, Nodiadau'r Cyfieithydd, *O! Tyn y Gorchudd, The Life of Rebecca Jones*, cyfieithiad gan Lloyd Jones (Llandysul, 2010), t. xviii.

Wrth gloi, hoffwn nodi bod gan *O! tyn y gorchudd* lawer i'w gynnig i ni yma yng Nghymru a'r tu hwnt, a chredaf yn gryf y byddai'n gwneud ffilm deledu arbennig o dda. Credaf hefyd y dylai athrawon annog eu disgyblion i ddarllen y nofel, nid yn unig er mwyn iddynt ddarllen nofel sydd wedi'i hysgrifennu'n dda mewn iaith gywrain, ond hefyd i ddarllen hanes y teulu o Faesglasau a fu'n dioddef y fath galedi ychydig genedlaethau yn ôl. Byddai hyn yn gam nesaf haeddiannol i'r nofel arbennig hon a mawr obeithiaf y bydd ei statws fel 'clasur' yn parhau i dyfu dros y blynyddoedd i ddod.

Gan iddi gael ei chyfieithu mae pobl o bob cwr o'r byd yn darllen yr hanes hwn, hanes sydd mor Gymreig ac sy'n darlunio bywyd cefn gwlad Cymru yn ystod yr ugeinfed ganrif. Dywedodd John Sutherland wrth ddisgrifio'r ddrama 'King Lear':

... every generation will find its own satisfactory interpretation. And the classic is tolerant of each and every different explanation of itself.³⁴²

Bydd pawb yn dehongli *O! tyn y gorchudd* yn eu ffordd unigryw eu hunain, a bydd, mi fydd y nofel hon yn oddefgar i'r math hwn o ddehongli o'r naill genhedlaeth i'r llall.

Dyweddodd Angharad Price mewn darlith ar 'Gyfoeth Cyfieithu' a draddodwyd yn 1997, bum mlynedd cyn cyhoeddi *O! tyn y gorchudd*, fod 'angen bod yn bowld ... wrth ddangos ein cyfoeth ni i'r byd a chynnig ei rannu'.³⁴³ Ni all y byd ond elwa wrth dderbyn nofel mor gyfoethog â hon.

³⁴² John Sutherland, *50 literature ideas you really need to know* (London, 2011), t. 19.

³⁴³ Angharad Price, 'Cyfoeth Cyfieithu', Darlith S4C a draddodwyd yng Ngŵyl y Gelli, Mai 1997. *Taliesin*, cyfrol 100, Gaeaf 1997, t. 36, tt. 11-39.

Llyfryddiaeth

Llyfrau

BASSETT, T. M (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau* Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru Maldwyn a'i Chyffiniau 1981 (Llandysul, 1981).

CLINE, Sally; ANGIER, Carole, *The Arvon Book of Life Writing, Writing Biography, Autobiography and Memoir* (London, 2010).

ELIS, Islwyn Ffowc, 'Yr Eisteddfod Genedlaethol a'r Nofel Gymraeg', gol. Gerwyn Williams, *Rhyddid y Nofel* (Caerdydd, 1999).

FOSTER, Idris (gol.), *Twf yr Eisteddfod*. Tair darlith gan Helen Ramage, Melville Richards a Frank Price Jones (Abertawe, 1968).

GEORGE, Delyth, Llên y Llenor: *Islwyn Ffowc Elis* (Caernarfon, 1990).

GWILYM, Ifor ap (gol.), *Eisteddfota 3* (Abertawe, 1980).

HUGHES, J. Elwyn (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau* Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Bro Delyn 1991 (Llandysul, 1991).

HUGHES, J. Elwyn (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau* Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru De Powys: Llanelwedd 1993 (Llandybïe, 1993).

HUGHES, J. Elwyn (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau* Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru Bro Colwyn 1995 (Llandybïe, 1995).

HUGHES, J. Elwyn (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau* Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru Meirion a'r Cyffiniau 1997 (Llandybïe, 1997).

HUGHES, J. Elwyn (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau* Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru Môn 1999 (Llandybïe, 1999).

HUGHES, J. Elwyn (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau* Eisteddfod Genedlaethol Cymru Sir Ddinbych a'r Cyffiniau 2001 (Llandybïe, 2001).

HUGHES, J. Elwyn (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau* Eisteddfod Genedlaethol Cymru Sir Benfro, Tyddewi 2002 (Llandybïe, 2002).

HUGHES, J. Elwyn (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau* Eisteddfod Genedlaethol Cymru Casnewydd a'r Cylch 2004 (Llandysul, 2004).

HUGHES, J. Elwyn (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau* Eisteddfod Genedlaethol Cymru Caerdydd a'r Cylch 2008 (Llandysul, 2008).

- HUGHES, J. Elwyn (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Cymru Bro Morgannwg* 2012, (Llandysul, 2012).
- HUGHES, J. Elwyn (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Sir Ddinbych a'r Cyffiniau*, 2013 (Llandysul, 2013).
- HUGHES, Maureen, *The Pocket Guide to Classic Books* (Barnsley, 2010).
- JONES, W. J. (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru Cwm Rhymini* 1990 (Llandysul, 1990).
- JONES, W. J. (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru Ceredigion*, Aberystwyth 1992 (Llandybie, 1992).
- JONES, W. J. (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru Nedd a'r Cyffiniau* 1994 (Llandybie, 1994).
- JONES, W. J. (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru Bro Dinefwr* 1996 (Llandybie, 1996).
- JONES, W. J. (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru Bro Ogwr* 1998 (Llandybie, 1998).
- LÉWIS, Robyn, *A fu heddwch?* (Talybont, 2006).
- LLWYD, Alan, *Y Gaer Fechan Olaf, Hanes Eisteddfod Genedlaethol Cymru 1937-1950* (Llandybie, 2006).
- MORRIS, William (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Cymru Llanrwst* 1951 (Liverpool, 1951).
- NICHOLAS, W. Rhys (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru Abergwaun a'r Fro* 1986 (Llandysul, 1986).
- PRICE, Angharad, *Llên y Llenor: Robin Llywelyn* (Caernarfon, 2000).
- PRICE, Angharad, *O! tyn y gorchudd* (Llandysul, 2002).
- PRICE, Angharad, *Rhwng Gwyn a Du: Agweddau ar Ryddiaith Gymraeg y 1990au* (Caerdydd, 2002).
- PRICE, Angharad, *The Life of Rebecca Jones*, Translated from Welsh by Lloyd Jones (London, 2012).
- RENNISON, Nick, *100 Must-Read Classic Novels* (London, 2006).
- ROWLANDS, E. I. (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Cymru Glynebwy* 1958 (Liverpool, 1958).
- SUTHERLAND, John, *50 literature ideas you really need to know* (London, 2011).

THOMAS, R. J. (gol.), *Geiriadur Prifysgol Cymru*, Cyfrol 1 (Caerdydd 1950-67).

Cylchgronau a Chyfnodolion

ANHYSBYS, 'Amrywiaeth Barn: Sinderela'r Eisteddfod?: Holi nifer o gyn-enillwyr y Fedal Ryddiaith', *Barn*, 198/9 (Gorffennaf/Awst 1979), tt. 86-90.

ANHYSBYS, 'Sylwadau'r mis. Golwg Newydd'. *Barn*, 276 (Ionawr 1987), t. 6.

ANHYSBYS, 'Yr Eisteddfod ar y Groesffordd', *Barn*, 11 (Medi 1963), t. 319.

BAINES, Menna, 'Y "Saint" yn eu Gogoniant, Holi Angharad Price am ei nofel newydd', *Barn*, 566 (Mawrth 2010), tt. 33-4.

CHAPMAN, T. Robin, 'Rhyw fath o fywyd: cofiannau Cymraeg cyfoes', *Y Traethodydd*, rhif 677 (Ebrill 2006), tt. 69-77.

DAFYDD, Fflur, 'Re-writing Autobiography', *New Welsh Review*, Summer 2003, tt. 24-29

ELIS, Meg, Ymestyn y Dychymyg Cymreig, Trafod *Dirgel Ddyn*, Mihangel Morgan, *Barn*, 368 (Medi 1993), tt. 45-6.

GRAMICH, Katie, Adolygiad o *O! tyn y gorchudd / The Life of Rebecca Jones*, Angharad Price, cyfieithwyd gan Lloyd Jones, *Y Traethodydd*, Ebrill 2011, tt. 122-5.

HALLAM, Gwion, 'Gwion Hallam sy'n ail-fyw gwefr *O! Tyn y Gorchudd* yn Saesneg, ond yn gofyn a ddylai'r fersiwn Saesneg a'r Gymraeg eistedd ochr yn ochr', *Taliesin*, 140 (Haf 2010), tt. 152-4.

HUGHES, Bethan Mair, 'Fforwm Beirniadol: Seren Wen ar Gefndir Gwyn', *Tu Chwith*, cyfrol 1, Llenyddiaeth Gyfoes (Ebrill/Mai 1993), tt. 39-42.

HUGHES, Bethan Mair, 'Nid gêm Nintendo yw hyn, ond bywyd!', *Tu Chwith*, cyfrol 1, Llenyddiaeth Gyfoes (Ebrill/Mai 1993), tt. 43-6.

HUGHES, Geraint, 'Nofel y Fedal', *Taliesin*, 24 (Gorffennaf 1972), tt. 144-6.

HUGHES, Vaughan, 'Blwyddyn Rhyddiaith, Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol De Powys', *Barn*, 368 (Medi 1993), tt. 42-3.

HUGHES, Vaughan, 'Eisteddfod Gwynedd', *Barn*, 476 (Medi 2002), tt. 40-1.

HUGHES, Vaughan, 'Y Cyfansoddiadau a'r Beirniadaethau', *Barn*, 284 (Medi 1986), tt. 309-11.

IFANS, Rhiannon, 'Gwe grefftus', *Barn*, 608 (Medi 2013), t. 61.

IWAN, Dafydd, 'Llyfr y flwyddyn '85 – Fy Newis', *Barn*, 276 (Ionawr 1986), tt. 35-6.

- JAMES, Meleri Wyn, Plesio'r Sglyfs a'r Siwds, *Golwg*, cyfrol 7, rhif 14. 1 Rhagfyr 1994, t. 19.
- JONES, Bedwyr Lewis, 'Y Busnes Cystadlu 'ma', *Barn*, 62 (Rhagfyr 1967), t. 40.
- JONES, Gwerfyl Pierce, 'Eisteddfod Genedlaethol Cymru Ceredigion, Aberystwyth. Cyhoeddi Testun y Fedal Ryddiaith. Llythyr gan Gwerfyl Pierce Jones (Cadeirydd Is-bwyllgor Llenyddiaeth', *Barddas*, 168 (Ebrill 1991), t. 21.
- LEWIS, R. H. 'Gwobr Goffa Daniel Owen: Golwg ar statws y nofel yn yr Eisteddfod Genedlaethol', *Barn*, 218 (Mawrth 1981), tt. 89-90.
- LLOYD-MORGAN, Ceridwen, 'Llên: Hollol Amherthnasol', *Barn*, 355/6 (Awst/Medi 1992), t. 52.
- MORGAN, Elin Llwyd, 'Teulu Tynybraich', *Barn*, 476, Medi 2002, tt. 42-3.
- MORGAN, Mihangel, 'Braslun o Hanes y Fedal Ryddiaith (Bur) 1937-1987, Rhan 1', *Barddas*, 164-5 (Rhagfyr/Ionawr 1990-1), tt. 43-7.
- MORGAN, Mihangel, 'Braslun o Hanes y Fedal Ryddiaith (Bur) 1937-1987, Rhan 2', *Barddas*, 166 (Chwefror 1991), tt.13-8.
- OWEN, Karen, 'Nofel yn creu twristiaeth!', *Golwg*, cyfrol 15, rhif 38. 5 Mehefin 2003, t. 18.
- OWEN, Karen, 'Pen Ôl-Foderniaeth?', *Golwg*, cyfrol 8, rhif 19. 25 Ionawr 1996, t. 16.
- PARRY, Thomas, 'Rhyddiaith y Fedal', *Barn*, 11 (Medi 1963), tt. 321-3.
- PRICE, Angharad, 'Cyfoeth Cyfieithu'. Darlith S4C a draddodwyd yng Ngŵyl y Gelli, Mai 1997. *Taliesin*, cyfrol 100, Gaeaf 1997, tt. 11-39.
- ROWLANDS, John, 'Culni siofinistaidd', *Barn*, 608 (Medi 2013), tt. 54-5.
- ROWLANDS, John, 'Holi Prifeirdd a Phrif Lenor Eisteddfod Nedd', *Taliesin*, 87 (Hydref 1994), tt. 9-20.
- ROWLANDS, John, 'Nid "Seren Wib"', *Golwg*, cyfrol 7, rhif 48. 10 Awst 1995, t. 25.
- ROWLANDS, John, 'Yr Eisteddfod a'r Nofel, 1938-1962', *Barn*, 15 (Ionawr 1964), tt. 86-7.
- THOMAS, M. Wynn, Dadeni Gwefreiddiol a Chwarae Bach. Mihangel Morgan, Dirgel Ddyn. *Golwg*, cyfrol 5, rhif 50. 26 Awst 1993, tt. 20-1.
- TOMOS, Angharad, 'Styrbio'r Gymru Gymraeg? Adolygiad o *Smôc Gron Bach*, Eirug Wyn', *Taliesin*, 87 (Hydref 1994), tt. 107-9.
- TUDUR, Non, 'Moli tre'r Cofi', *Golwg*, cyfrol 22, rhif 24. 25 Chwefror 2010, tt. 24-5.

WILIAMS, Gerwyn, 'Daniel, y Fedal a'r Nofel; y nofel a'r Eisteddfod Genedlaethol, 1977-2002', *Taliesin*, 116, Eisteddfod 2002, tt. 78-110.

WILLIAMS, Ioan, 'I'r Beirniaid yn Unig?', *Go/wg*, cyfrol 5, rhif 4. 24 Medi 1992, t. 19.

WILLIAMS, Ruth, 'Si Hei Lwli', *Go/wg*, cyfrol 4, rhif 4. 26 Medi 1991, tt. 20-1.

Gwefannau

Adolygiad gan W. Dyfrig Davies:

www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/llyfrau/straeon/020829otynygorchudd.shtml.

Ymwelwyd ar 22/11/2010.

Adolygiad gan Suzy Ceulan Hughes ar wefan www.gwales.com trwy ganiatâd

Cyngor Llyfrau Cymru: <http://www.gwales.com/goto/biblio/en/9781848511750/>.

Ymwelwyd ar 22/11/2010.

Adolygiad o *Caersaint* gan Angharad Tomos:

<http://s4c.co.uk/pethe/caersaint-adolygiad-angharad-tomos/>. Ymwelwyd ar

31/01/2011.

Adolygiad o *Caersaint* gan Sioned Williams:

www.bbc.co.uk/cymru/cylchgrawn/llyfrau/adolygiadau/caersaint.shtml Ymwelwyd ar 16/11/2010.

Adolygiad Saesneg o *O! tyn y gorchudd*:

http://www.walesliterature.org/books.cfm?lan=e&book_id=75&switch=book_info.

Ymwelwyd ar 15/01/2011.

Cyfres Clasuron BBC Radio Cymru:

<http://www.bbc.co.uk/programmes/b007scy9/broadcasts/2010/11>

Ymwelwyd ar 22/03/2014.

Cyfnewidfa Lên Cymru, Cyfieithiadau:

<http://waleslitexchange.org/cy/translation/translations1/P30>. Ymwelwyd ar 07/09/2013.

Cyfnewidfa Lên Cymru, Silff Lyfrau: <http://waleslitexchange.org/cy/books/our-bookshelf1/>.

Ymwelwyd ar 07/09/2013.

Cyfnewidfa Lên Cymru, Cyfieithiadau Llythyren D:

http://waleslitexchange.org/cy/translation/by_title_filter/d. Ymwelwyd ar 07/09/2013.

Cyfnewidfa Lên Cymru, *O! tyn y gorchudd (The Life of Rebecca Jones)*

<http://waleslitexchange.org/en/books/view/o-tyn-y-gorchudd-the-life-of-rebecca-jones>.

Ymwelwyd ar 22/03/2014.

Cyfrol y Fedal Ryddiaith ar gwyno ddisg:

<http://www.bbc.co.uk/cymru/eisteddfod2002/maes/deillion.shtml>. Ymwelwyd ar 02/02/2011.

Diffiniad o 'classic': <http://dictionary.reference.com/browse/classic>. Ymwelwyd ar 10/10/2010.

Diffiniad o 'classic': <http://www.answers.com/topic/classic#ixzz1CnqjucNF>. Ymwelwyd ar 10/10/2010.

Diffiniad o 'autobiography': <http://www.answers.com/topic/autobiography>. Ymwelwyd ar 11/10/2010.

Good Reads:

<http://www.goodreads.com/book/show/13501245-the-life-of-rebecca-jones>. Ymwelwyd ar 06/09/2013.

Gwybodaeth bellach gan y cyhoeddwr, Gwasg Gomer am *The Life of Rebecca Jones/O! tyn y gorchudd*: <http://www.gwales.com/goto/biblio/cy/9781848511750/>. Ymwelwyd ar 15/01/2011.

Historical Novel Society:

<http://historicalnovelsociety.org/reviews/the-life-of-rebecca-jones/>. Ymwelwyd ar 06/09/2013.

The Independent:

<http://www.independent.co.uk/arts-entertainment/books/reviews/the-life-of-rebecca-jones-a-novel-by-angharad-price-trans-lloyd-jones-7660996.html>. Ymwelwyd ar 06/09/2013.

Maclehose Press:

<http://maclehosepress.com/blog/the-lives-of-the-life-of-rebecca-jones/>. Ymwelwyd ar 06/09/2013.

Medal i Angharad: <http://www.bbc.co.uk/cymru/eisteddfod2002/maes/medal.shtml>. Ymwelwyd ar 02/02/2011.

Maes-e.com: <http://maes-e.com/viewtopic.php?f=9&t=2827>. Ymwelwyd ar 04/12/2010.

Papurau Bro, BBC Lleol De Ddwyrain:

http://www.bbc.co.uk/cymru/deddwyrain/papurau_bro/tuar_goleuni/newyddion/mai03.shtml. Ymwelwyd ar 31/01/2011.

World Literature Today:

<http://www.worldliteraturetoday.org/2012/may/editors-choice-life-rebecca-jones-angharad-price#.UgY9LSlwaM8>. Ymwelwyd ar 06/09/2013.

Teledu

Pnawn Da, S4C, 2002. Tudur Dylan yn siarad am *O! tyn y gorchudd*, Angharad Price.

Wedi 3, S4C, 19/01/2011. Ceri Elen Morris yn trafod *Un Nos Ola Leuad*.

Wedi 6, S4C, 28/08/2002. Angharad Price yn cael ei chyfweld.

Y Sioe Gelf, S4C, 05/01/2003. Angharad Price a Hywel Teifi Edwards yn trafod y nofel *O! tyn y gorchudd*.

Cefndirol

COEN, Stanley J. *Between Author and Reader, A Psychoanalytic Approach to Writing and Reading* (West Sussex, 1994).

Dr Angharad Price, Prifysgol Bangor:

<http://www.bangor.ac.uk/ysgolygymraeg/staff/angharad.php.cy>. Ymwelwyd ar 15/01/2011.

Enghraifft o waith Angharad Price: Mynydd Tynybraich:

http://www.bangor.ac.uk/ysgolygymraeg/gwaith/angharad_mynydd.php.cy.

Ymwelwyd ar 15/01/2011.

JENKINS, David (gol.), *Erthyglau ac Ysgrifau Llenyddol, Kate Roberts* (Abertawe, 1978).

LEAR, Anne, SHARRAD, Paul, (ed.), *Self, Life and Writing* (Hebden Bridge, 2000).

PRICE, Angharad, "O! Tyn y Gorchudd": golwg ar fywyd a gwaith Hugh Jones, Maesglasau', *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion 2003*. Cyfres Newydd, cyfrol 10 (Llundain, 2004).

PRICE, Angharad, 'Ymbapuroli', *Taliesin*, 140, Haf 2010, t. 93-101.

Traethawd Ymchwil

WILLIAMS, Debbie Ann, *Rhyddiaith i Ennill*, Thesis (M.Phil.), Prifysgol Aberystwyth, 2008.

Atodiad 1

Cyfweliad e-bost gydag Angharad Price, Gorffennaf 2013.

1. Fe wnaethoch geisio am y Fedal Ryddiaith deirgwaith cyn ei hennill, a derbyn canmoliaeth uchel iawn bob tro. Ar wahân i Tania'r Tacsî ac O! tyn y gorchudd, a oes darnau o'r gweithiau eraill wedi gweld golau dydd? A oedd rhesymau am beidio â chyhoeddi'r gweithiau yma? A oeddech yn defnyddio'r Fedal Ryddiaith fel modd o fagu eich crefft a cael beirniadaeth?

Treuliais ran fwyaf o'r 1990au yn fyfyrwraig y tu allan i Gymru – yn Rhydychen, Trier (yr Almaen) ac yn Fienna, gan symud i Gaerdydd o'r diwedd yn 1998, ar ôl cwblhau fy noethuriaeth. Roeddwn ar dân eisiau sgwennu ac roedd hynny'n ffordd imi deimlo fy mod yn rhan o bethau yng Nghymru, felly bob rhyw ddwy flynedd byddwn yn fy ngorfodi fy hun i gwblhau darn mawr o waith creadigol, gan ddefnyddio dyddiad cau cystadleuaeth y Fedal Ryddiaith yn ysgogiad. Doeddwn i ddim yn disgwyl ennill, gan mai pobl hŷn fyddai'n ennill y fath wobrau. Ond roedd yn ddisgyblaeth dda ac roedd cael sylwadau beirniaid - yn rhai negyddol a chadarnhaol - yn brofiad adeiladol. Roedd gennyf barch mawr at feirniaid fel John Rowlands gan ei fod mor barod i ymagor i syniadau a thueddiadau newydd.

Sgwennais waith braidd yn ffuantus y tro cyntaf, os cofiaf yn iawn, a hwnnw wedi ei ysgogi gan gyfnodau a dreuliais yn yr Eidal. Gwaith fymryn yn llai ffuantus yr eildro, er bod hwnnw hefyd yn ormod o bwddin, a hwnnw'n waith ffantasiol a oedd yn seiliedig ar ffordd y pererinion i ynys Enlli. Erbyn heddiw rydw i'n diolch i'r nefoedd na welsant erioed olau dydd.

Y trydydd tro sgwennais 'Tania'r Tacsî' (yn Fienna). Roedd y gwaith hwnnw yn gryfach yn yr ystyr fod gennyf ryw beth penodol i'w ddweud. Roeddwn yn ceisio cyfleu'r profiad o fod yn ferch ifanc nad oedd yn teimlo y gallai gyfranogi o'r gymdeithas yr oedd yn byw ynddi, ac a oedd rhywsut yn ymwrthod â'i diwylliant ei hun. Mae hwnnw hefyd yn waith anaeddfed ac anghyflawn, ac rydw i'n gresynu iddo gael ei gyhoeddi (ac yn ymfalchïo ei fod bellach allan o brint!). Eto, mae mwy o ddiffuantrwydd ynddo na dim ond y 'chwarae' ôl-fodernaidd a welwyd ynddo ar y pryd, efallai.

2. Wrth ddarllen Cyfansoddiadau a Beirniadaethau 1993, gwelaf eich bod yn sôn am Faesglasau yn y gwaith yma. A oedd gennyfch fwriad ers dipyn i ysgrifennu cyfrol am eich teulu ac am Gwm Maesglasau?

Rargian, ydi hynny'n wir? Dydw i ddim wedi edrych arno ers hynny; fyddai gen i ddim stumog! Diddorol, er hynny, ydi clywed fy mod yn sôn am Faesglasau, er nad ydi hynny yn fy synnu: roedd yn rhan mor bwysig o 'mhlentyndod i ac mae'n rhywle mor arbennig.

3. *Rydych yn dweud mewn cyfweliad yn Golwg (cyf 15, rhif 83) nad oeddech yn 'disgwyl i'r gyfrol fod o lawer o ddiddordeb i neb arall', a'ch bod wedi ysgrifennu'r gwaith 'fel rhywbeth i'r teulu'. A oeddech felly wedi synnu at yr holl ymateb i'r nofel gan feirniaid a'r cyhoedd a'i fod yn cael ei ddisgrifio fel 'clasur' mor fuan?*

Mi ddechreuais sgwennu'r gyfrol ryw flwyddyn neu ddwy wedi marwolaeth fy nain, Olwen, a chredaf (erbyn hyn) mai ffordd i gadw cysylltiad efo hi ac efo Tynybraich oedd 'O, Tyn y Gorchudd'. Roeddwn hefyd yn sylweddoli bod y genhedlaeth honno yn diflannu, a bod talp o hanes y teulu yn mynd yn angof. Er i mi ddefnyddio dedlein cystadleuaeth yr Eisteddfod i 'ngorfodi fy hun i wneud y gwaith, rhywbeth ar gyfer y teulu oedd o. Roedd y teulu'n rhan weithredol o'r broses ymchwilio ac – i raddau llai – o'r sgwennu. Roeddwn wedi arfer gymaint â chyflwyno gwaith i gystadleuaeth, wnes i ddim meddwl am oblygiadau ennill, a chyn i mi sylweddoli rhywsut roedd y gwaith 'teuluol' yn waith cyhoeddus, ac aelodau o 'nheulu yn gymeriadau mewn llyfr a oedd yn cael ei ystyried yn nofel. Rydw i'n dal i deimlo'n amwys am hynny i gyd ac yn ddiolchgar bod y teulu wedi bod mor raslon ynghylch y cyfan. Dydw i ddim yn deall y busnes 'clasur' yma o gwbl, a chredaf fod llawer wedi ymateb yn frwd i'r gwaith gan ei fod yn adlewyrchu bywydau llawer o Gymry yn ystod yr ugeinfed ganrif.

4. *O ble y daeth y syniad o ddefnyddio Rebecca fel 'dyfais' yn y nofel? Pam na wnaethoch ddewis ysgrifennu hunangofiant confensiynol? Ac o ble y daeth y syniad?*

Mae hynny hefyd yn gysylltiedig â'r Eisteddfod. Llyfr ffeithiol oedd gennyf mewn golwg, ond y testun ar gyfer y Fedal Ryddiaith y flwyddyn honno oedd 'hunangofiant'. Ystyriais roi'r ffidil yn y to, nes imi weld y gallai fod yn hunangofiant ffeithiol neu ddychmygol, felly daeth Rebecca i'm meddwl. Roedd llun mawr sepia ohoni wedi bod yn hongian ar wal y ffermdy pan oeddwn yn blentyn, a minnau yn ferch fach wedi meddwl llawer amdani. Roedd ei hatgyfodi yn syniad digon 'macabre' ar un olwg, a thrafodais y peth efo'r teulu o flaen llaw, yn enwedig efo Lewis a oedd yn frawd iddi (er nad oedd o wedi ei eni pan fu Rebecca farw).

Ffurfiwyd cymeriad Rebecca, am wn i, o ferched eraill y teulu, yn enwedig Olwen, fy nain, Mair, fy mam, a Catrin, fy nghyfnither y byddwn yn chwarae efo hi ar y fferm ers talwm. Roeddwn wedi bod yn darllen gwaith W.G. Sebald ar y pryd, ac yn edmygu'r ffordd yr oedd yn cymylu'r ffin rhwng ffaith a ffuglen.

5. *Wrth fynd yn ôl at eich gwaith cynnar yn nghystadleuaeth y Fedal Ryddiaith, teimlaf o'r beirniadaethau fod yna naws ôl-fodernaidd yno. Rydych hefyd wedi ysgrifennu am waith Robin Llywelyn. A yw ei waith ef wedi dylanwadu arnoch mewn rhyw fodd yn eich gwaith creadigol?*

Gan fy mod yn astudio ieithoedd modern yn y brifysgol, roeddwn wedi darllen llawer o lenyddiaeth arbrofol mewn ieithoedd Ewropeaidd eraill. Pan ddarllenais 'Seren Wen...' Robin Llywelyn, gwirionais o weld y gallai llenor Cymraeg fod yr un mor 'wahanol' a dychmygus, a hynny mewn ffordd wreiddiol a oedd yn gydnaws â'i ddiwylliant ei hun. Roedd yn adeg cynhyrfus: dychwelais at 'Y Pla' Wil Roberts a sylweddoli mor bwysig oedd y nofel honno, ac roeddwn wrth fy modd â'r hyn yr oedd Mihangel Morgan ac Angharad Tomos (ac eraill) yn ei wneud hefyd, tra bo 'Tu Chwith' yn corddi'r dyfroedd a 'Taliesin' dan olygyddiaeth John Rowlands a Gerwyn Williams yn llawn syniadau ac egnïon newydd. Does dim dwywaith nad oedd y cyfan yn ddylanwad mawr ar lawer ohonom oedd yn ymddiddori mewn sgwennu a darllen ar y pryd. Erbyn troad y ganrif, fodd bynnag, roeddwn yn dechrau teimlo bod angen symud ymlaen, ac roedd dod ar draws gwaith Sebald, er enghraifft, yn cynnig profiad newydd eto a realaeth fwy sobr yn apelio o'r newydd.

6. *Beth yw eich barn am y cyfieithiad o 'O! Tyn y Gorchudd'? A gredech y byddai'r nofel yn gweithio mewn iaith arall? A oed gennyh ran flaengar yng ngolygu cyfieithiad Lloyd Jones?*

Doeddwn i ddim yn awyddus i gyfieithu 'O, Tyn y Gorchudd' yn wreiddiol, yn rhannol am fy mod yn credu na ellid gwneud hynny yn foddhaol, ac yn rhannol gan nad oeddwn eisiau i ragor o bobl fynd i'r fferm a tharfu ar fy ewythr wrth iddo geisio gwneud ei waith! Yn 2009 holodd Lloyd Jones a fyddai'n iawn iddo fynd ati i'w chyfieithu, ac erbyn hynny teimlwn fod y llyfr wedi cael digon o gyfle i 'fyw' yn y Gymraeg (heb i gyfieithiad Saesneg ddechrau anadlu i lawr ei war). Roedd Lloyd ei hun wedi ei fagu ar fferm yn Eryri, ac roeddwn yn edmygu ei sgwennu dyfeisgar mewn nofel fel 'Mr Vogel'. Llwyddodd yn rhyfeddol i gyfleu'r holl gyweiriau Cymraeg gwahanol, heb sôn am y darnau o englynion ac emynau. Ond mi wnes i fusnesu llawer gormod yn y cyfieithiad! Er mawr syndod, roedd gennyf syniad clir o'r math o Saesneg y dylai Rebecca ei lefaru (Saesneg nad oedd yn rhy rwydd ac idiomatig). Roedd Lloyd yn hael, ac yn barod i newid ambell frawddeg, ac rydw i'n ddiolchgar iddo am adael i mi wneud hynny. Cyfaddawd ydi'r cyfieithiad Saesneg, fel unrhyw gyfieithiad. Ond un canlyniad gwerthfawr oedd bod aelodau di-Gymraeg y teulu (sef plant a wyrion Gruffydd a Lewis) wedi gallu darllen hanes eu teulu. Mae'r llyfr yn cael ei gyfieithu i Bengali ar hyn o bryd: fydda i ddim yn gallu ymyrryd yn yr un modd efo hwnnw, a da o beth!

7. Beth oedd ymateb a barn teulu Tynybraich eich bod am ysgrifennu nofel am eu bywydau a bywydau'r teulu?

Fel y soniais uchod, buont yn rhan o'r broses o'r dechrau, ac maen nhw wedi bod yn gefnogol a graslon ers cyhoeddi'r llyfr. Ond mae bywydau'r teulu yn dal i fynd yn ei flaen fel arfer: mae 'na ddefaid angen eu cneifio a gwair angen ei hel, a dydi cael llyfr ar silff ddim yn mynd i newid hynny!

8. Mae'r nofel wedi ei rhoi ar gryno ddisg, a hefyd wedi ei trosi'n llyfr Braille gyda chymorth Merched y Wawr Meirionnydd. A deimlwch fod hyn wedi bod yn gam gwerthfawr gan ei fod yn llyfr am ddeillion, a thrwy'r CD a'r llyfr Braille y gall deillion eraill fwynhau eich gwaith?

Golygai cael y fersiwn CD bod Lewis wedi gallu gwrando ar y llyfr yn cael ei ddarllen, er imi fy hun wneud recordiad iddo yn fuan wedi 2002.

Gobeithio bod rhywbeth yn y llyfr sydd o ddiddordeb i bobl sydd ddim yn gweld. Adroddodd Lewis lawer o'i brofiadau a'i atgofion wrthyf, a hynny mewn modd cofiadwy a dirdynnol, a rhoddais y cyfan yn y gwaith. Ond rydw i'n siŵr fod yna lawer o bethau na soniodd amdanynt hefyd, am na fynnai neu am na allai. Felly, rydw i'n fwy nag ymwybodol fy mod yn sgwennu 'o'r tu allan' am ddallineb. Rebecca yn sôn am ei brodyr a geir yn y gwaith, nid profiad y brodyr eu hunain. Llyfr gwahanol fyddai hwnnw.

Atodiad 2 – copi o'r holiadur.

Holiadur

1) Enw :

2) Grŵp Oedran : < 18 18 – 25 26 – 35 36 – 45 46 – 55 56 – 65 66 +

3) Ticiwch : Gwryw Benyw

4) Ble rydych chi'n byw?

5) Ble cafoch eich magu?

6) Pa bryd y gwnaethoch ddarllen *O! Tyn y Gorchudd*?
.....

7) A oeddech yn ymwybodol cyn darllen *O! Tyn y Gorchudd* ei bod wedi ennill y Fedal Ryddiaith yn 2002?
.....

8) Os oeddech yn ymwybodol o hyn, a wnaeth hyn wneud i chi fod am ei darllen mwy? A wnaeth sylw'r beirniaid liwio eich barn?
.....
.....

9) Beth a wyddech am *O! Tyn y Gorchudd* cyn ei darllen?
.....
.....

10) Beth, yn eich tyb chi, sydd wedi gwneud i bobl ddweud fod y llyfr yn “glasur cyfoes, gwerthwr gorau a wnaeth gyffwrdd â chalonnau'r darllenwyr”?
.....
.....
.....
.....

11) Beth yw eich barn bersonol am y llyfr? A wnaeth gyffwrdd ynoch chi? A oeddech yn ei hoffi ai peidio?

.....

.....

.....

.....

12) A oedd unrhyw wendidau yn y nofel i chi? Beth oeddynt a pham?

.....

.....

.....

.....

13) A ydych yn darllen enillwyr y Fedal Ryddiaith fel arfer?

.....

14) Os ydych wedi darllen rhai ohonynt, sut y tybiwch mae'r nofel hon yn cymharu â nhw?

.....

.....

.....

.....

.....

.....

15) Beth yw eich barn am y defnydd o luniau a dyfyniadau o gerddi, emynau a rhyddiaith a geir yn y nofel? A ydynt yn ychwanegu at y nofel neu yn amharu ar lif y darllen?

.....

.....

.....

.....

16) A yw darllen y nofel wedi eich ysgogi i ymweld â'r ardal gan ddilyn ôl troed Rebecca?

.....

.....

17) Beth yw eich barn am yr iaith a'r eirfa a ddefnyddir?

.....

.....

.....

18) Caiff y nofel hon ei disgrifio fel "clasur", ond sut y tybiwch chi y mae'n cymharu â chlasuron mawr eraill llenyddiaeth Gymraeg megis *Un Nos Ola Leuad* ac ati?

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

19) A oeddech yn ymwybodol bod *O! Tyn y Gorchudd* wedi'i chyfieithu i'r Saesneg ac wedi ei rhyddhau ar CD?

.....
.....

20) A ydych yn hoff o ddarllen nofelau cofiannol / hanesyddol fel arfer?

.....
.....

21) Faint o nofelau rydych yn eu darllen yn y Gymraeg o'u cymharu â nofelau Saesneg?

.....
.....
.....
.....

Diolch yn fawr am eich cydweithrediad. Ni ddatgelir unrhyw fanylion personol ar sail yr holiadur hwn.

Cewch ddefnyddio papur ychwanegol os oes angen.

Atodiad 3 – Rhagor o wybodaeth am ymatebwyr yr holiaduron

<u>Rhif yr Holiadur</u>	<u>Rhyw</u>	<u>Lleoliad Presennol</u>	<u>Bro Magwraeth</u>	<u>Oedran</u>
1	Benyw	Dinas Mawddwy	Dinas Mawddwy	66+
2	Benyw	Caer	Y Bala	66+
3	Benyw	Pen Llŷn	Pen Llŷn	46-55
4	Benyw	Llanymawddwy	Y Bala	56-65
5	Gwryw	Aberangell	Aberangell	18-25
6	Benyw	UDA	UDA	66+
7	Benyw	Ysbyty Ifan	Ysbyty Ifan	18-25
8	Benyw	Tremadog	Tremadog	18-25
9	Benyw	Llanfairpwll	Aberarth	18-25
10	Benyw	Machynlleth	Dyffryn Dyfi	18-25
11	Benyw	Machynlleth	Aberdyfi	36-45
12	Gwryw	Dinas Mawddwy	Dinas Mawddwy	36-45
13	Benyw	Dinas Mawddwy	Dinas Mawddwy	26-35
14	Benyw	Aberhonddu	Llanfaethlu	56-65
15	Benyw	Tremadog	Tremadog	18-25
16	Benyw	Cricieth	Cricieth	18-25
17	Benyw	Tremadog	Tremadog	18-25
18	Benyw	Mallwyd	Aberdyfi	18-25
19	Benyw	Y Bala	Tywyn	36-45
20	Benyw	Aberystwyth	Ceredigion	26-35
21	Gwryw	Llandwrog	Caerffili a Thalwrn	46-55

22	Gwryw	Caernarfon	Wrecsam	46-55
23	Benyw	Caernarfon	Llanfairpwll	46-55
24	Benyw	Caerdydd	Rhondda, Bala, Porthmadog a Nant Peris	18-25
25	Gwryw	Aberystwyth	Harlech	18-25
26	Benyw	Pontrhydfendigaid	Pontrhydygroes	36-45
27	Benyw	Dinas Mawddwy	Dinas Mawddwy	46-55
28	Benyw	Groeslon	Llanuwchllyn	46-55
29	Benyw	Caernarfon	Padog, Betws-y- Coed	56-65
30	Benyw	Ynys Môn	Dinbych, Llandudno, Porthmadog, Treffynnon, Tregarth, Bermo	36-45
31	Benyw	Aberystwyth	Pentreuchaf	18-25
32	Benyw	Bethesda	Pentraeth, Ynys Môn	66+
33	Benyw	Canolbarth Lloegr	Pen Llŷn	66+
34	Benyw	Aberllefenni	Aberllefenni	46-55
35	Gwryw	Ederon	Garnfadryn	66+
36	Benyw	Ceinws	Llanarth, Ceredigion	56-65
37	Benyw	Minffordd	Dolwyddelan	46-55
38	Benyw	Pantperthog	Meirionnydd	66+
39	Benyw	Abertawe	Llan-non, Ceredigion	56-65
40	Benyw	Caerdydd	Dolwyddelan	26-35
41	Benyw	Dinbych	Glasfryn, Cerrigydrudion	36-45

42	Benyw	Dinbych	Llanrwst	26-35
43	Benyw	Dinbych		36-45
44	Benyw	Caerdydd	Maesteg, Morgannwg	56-65
45	Benyw	Aberystwyth	Aberystwyth	46-55
46	Benyw	Bethesda	Bangor	46-55

Atodiad 4

Atebion llawn yr holiaduron ar gyfer cwestiwn 18 – Caiff y nofel hon ei disgrifio fel “clasur”, ond sut y tybiwch chi y mae’n cymharu â chlasuron mawr eraill llenyddiaeth Gymraeg megis *Un Nos Ola Leuad* ac ati?

Rhif yr Holiadur	Ateb cwestiwn 18
1	I mi, ydi mae’n glasur o nofel ac yn ben ac ysgwydd uwchlaw pob un arall rwyf wedi darllen. Wrth gwrs, mae rhai eraill da ond mae hon yn goron arnynt i gyd. Mae’n rhoi darlun byw o deulu sydd wedi bodoli a’r llawenydd a’r ing ddaeth i’w rhan. Mae yma waith ymchwil manwl ar bob sefyllfa gan gynnwys bywyd y fferm.
2	Rhagorol.
3	Cystal pob tamaid yn fy marn i.
4	Adweithio’n wahanol i hon – tosturi a chydymdeimlad a chwilfrydedd i weld beth sy’n dod o’r brodyr a’u rhieni. <i>Un Nos Ola Leuad</i> yn gwneud imi deimlo’n annifyr ar brydiau!
5	Roeddwn i wedi mwynhau darllen y nofel, byswn yn ei rhoi fel clasur er nad ydw i’n darllen llawer o nofelau.
6	I have never finished <i>Un Nos Ola Leuad</i> , I am not sure I can say why but it was boring. It was not a continuous novel but snippets of adventurous children. Probably fun to read for those who have “been there; done that”. I like a story that goes somewhere, makes discoveries, gives us a future. <i>O! tyn y gorchudd</i> leaves you moving forward to the next generation. You are left to imagine what is coming. There is no ‘dead end’ after Rebecca’s death. <i>Un Nos Ola Leuad</i> just says “this is how they were” and I say “this is how many were and are; so, what else is new?”
7	Posibilrwydd, petai yn cael mwy o hysbysebiad, iddi ddod yn glasur!
8	Yn fy marn i mae <i>Un Nos Ola Leuad</i> yn sefyll ar wahân i unrhyw glasur arall, ond fel <i>O! tyn y gorchudd</i> mae hithau hefyd yn darlunio bywyd caled a ffordd Gymreig o fyw, ac mae’r ddwy yn rhai sydd yn sefyll allan ac yn aros yn y cof. Mae’r elfen o dafodiaith yn <i>Un Nos Ola Leuad</i> yn ei gwneud hi’n nofel gwbl wahanol i’r arddull ddisgrifiadol sydd yn <i>O! tyn y gorchudd</i> .
9	Dwi ddim yn meddwl ei bod hi wedi cael digon o amser i sefydlu ei hun fel clasur eto – does yno ddim gymaint o ffws wedi’i wneud ohoni eto.

	Wrach y cymrith amser cyn i bobl lwyr sylweddoli ei gwerth.
10	Rwy'n credu bod <i>O! tyn y gorchudd</i> wir yn haeddu cael ei chymharu gyda nofelau mor llwyddiannus a chofiadwy ag <i>Un Nos Ola Leuad</i> a <i>Te yn y Grug</i> a bod Angharad wedi neud job anhygoel yn cyfleu bywyd teuluol anodd yn yr ugeinfed ganrif.
11	Mae hi siŵr o fod yn reit uchel i fyny'r rhestr, ac i ddweud y gwir, hoffwn weld ffilm yn cael ei neud ohoni.
12	Ddim yn darllen llyfrau Cymraeg eraill.
13	Anodd cymharu gan fod <i>O! tyn y gorchudd</i> yn arbennig i'm teulu.
14	Basai angen i mi ei darllen fwy nag unwaith i allu cymharu â rhai cyfarwydd.
15	Credaf fod modd ei chymharu â'r clasuron eraill, ond nid yw yn cael cymaint o sylw am ei bod dal yn nofel eithaf diweddar – h.y. o gymharu ag <i>Un Nos Ola Leuad</i> a <i>Cysgod y Cryman</i> .
16	<i>Heb ateb.</i>
17	Maen nhw'n ddwy nofel hollol wahanol mewn dau gyfnod ac awyrgylch gwahanol. Y naill mewn pentref a'r llall yng nghanol anialdir. Mae'r ddwy wrth reswm yn dda iawn, a'r ddwy hefyd yn cynnwys elfennau personol iawn i'r awdur ac i'r teulu. Dyna un elfen allweddol sy'n eu gwneud yn wych efallai, am eu bod wedi eu seilio ar hanesion go iawn, dirdynol. Rwy'n ffan o'r ddwy, ond <i>Un Nos Ola Leuad</i> yw'r orau gen i dal i fod. Mae hi'n llawer mwy tywyll a sawl haen yn plethu trwy'r stori.
18	Dim barn.
19	Cymharu yn ffafriol iawn – yn sicr yn un o'n clasuron cyfoes. Efallai ddim cymaint o nofel 'ei chyfnod' ag <i>Un Nos Ola Leuad</i> – roedd cynnwys honno yn llawer mwy newydd a blaengar yn ei chyfnod.
20	Mae'r arddull yn wahanol iawn i rywbeth fel <i>Un Nos Ola Leuad</i> wrth gwrs – iaith lafar sy'n <i>Un Nos Ola Leuad</i> , ond iaith glasurol gywir sy'n <i>O! tyn y gorchudd</i> . Mae'n "debycach" efallai i rywbeth fel <i>Cysgod y Cryman</i> . Ond yn sicr, mae'n haeddu'i lle ymhlith clasuron yr iaith.
21	Yn llawn haeddu bod yn yr un categori. Anodd dweud fod un yn well na'r llall am eu bod yn wahanol.
22	Pwy sy'n penderfynu beth sy'n "glasur"?
23	Yn gyfartal.

24	I raddau, nid yw'n chwyldroi llenyddiaeth Gymraeg, mae'n od yn y modd mae fel petai'n efelychu clasur o'r ganrif ddiwethaf yn hynod effeithiol. Nid wyf yn sicr oes modd ysgrifennu clasur sy'n berthnasol i Gymru heddiw heb ddefnyddio llawer o iaith sathredig (fuasai iaith raenus ddim yn gwneud synnwyr yng ngenau pobol gyffredin Gymraeg heddiw). Credaf mai'r iaith sydd yn ei dyrchafu a'r disgrifiadau llenyddol, dim ei 'neges' ddyrys am gymdeithas ond ella dwi'n anghywir.
25	Diau y dylid diffinio'r hyn a olygir wrth "glasur" i ddechrau, ond os mai nofel boblogaidd sy'n cynnal neu'n tyfu yn ei phoblogrwydd sydd yma, teg ei hystyried yn "glasur" – er na ddylid anwybyddu amwysedd gair haniaethol o'r fath.
26	Dim cymhariaeth.
27	Dwi'n meddwl ei bod yn cymharu'n dda iawn. Ges i fwy o flas ar ddarllen <i>O! tyn y gorchudd na Un nos Ola Leuad</i> ond roedd na ddisgrifiadau gwych yn honno hefyd. Efallai bod mwy o stori yn <i>Cysgod y Cryman, Yn ôl i Leifior ac Y Stafell Ddirgel</i> a rhai tebyg. Dwn i ddim fydde <i>O! tyn y gorchudd</i> yn gwneud ffilm dda??
28	Yn yr un cae ddwedwn i, ac mae'r elfen emosiynol wastad yn cyffwrdd y gynulleidfa Gymreig!
29	Buasai <i>O! tyn y gorchudd</i> yn bendant yn fy mhump uchaf – yn ogystal â <i>Cysgod y Cryman ac Yn ôl i Leifior</i> .
30	Cwestiwn anodd! Mae'n anodd cymharu unrhyw beth gydag <i>Un Nos Ola Leuad!</i> Anodd efallai gan fod cymaint o flynyddoedd yn gwahanu'r ddwy. Y ddwy yn glasur yn eu cyfnod efallai?
31	Llwyddiant 'clasur' yn fy marn i yw bod iddi elfen y gall y darllenwyr uniaethu â hi – gallai cynulleidfa oes <i>Un Nos Ola Leuad</i> , gofio neu hel atgofion am y profiadau neu ddigwyddiadau a drafodir ynddi. Ceir hyn gydag <i>O! tyn y gorchudd</i> hefyd – mae rhai o'r gynulleidfa hyn heddiw wedi bod yn dyst i ddigwyddiadau tebyg. Er hynny gellir dadlau fod ambell i deimlad, cymeriad, sefyllfa yn ddiamsar, ac yn berthnasol i unrhyw gynulleidfa mewn unrhyw oes. Teimlaf mai 'amser' yw'r prif brawf i ddiffinio a yw nofel yn glasur neu beidio; a rhagdybiaf y bydd hon mewn blynyddoedd i ddod yn dal i gael ei chysidro'n 'glasur'.
32	Dim cweit yn yr un cae. Amser a ddengys.
33	Mae hon wedi cael mwy o 'afael' ynof er ei bod yn lleddf ar y cyfan. Mae'r iaith mor gywir, y disgrifiadau yn arswydus o gywrain. Hwyrach

	fod mwy o stori yn nofelau Islwyn Ff. Elis, Caradog Prichard, Kate Roberts, ond hon yw fy ffefryn i. Rwy'n dal i ryfeddu at ddawn Angharad Price i ddefnyddio geiriau a'r holl ddisgrifiadau lliwgar, teimladwy a chywir.
34	Nid ydwyf wedi darllen <i>Un Nos Ola Leuad</i> .
35	Nofel ei chyfnod. Mae pob nofel glasurol yn gweddu i'r cyfnod y mae wedi ei hysgrifennu ynddo. Dyma ffordd T. Rowland Hughes, Kate Roberts, T. Ll. Jones ac eraill. Mae pob nofel yn adlewyrchu ei chyfnod ei hun.
36	Ddim wedi darllen <i>Un Nos Ola Leuad</i> .
37	Dim cymaint o amrywiaeth ynddi ag <i>Un Nos Ola Leuad</i> .
38	Fe saif y nofel hon ochr yn ochr ag unrhyw nofel.
39	Dwi ddim yn ymwybodol iawn pa nofelau sy'n cael eu hystyried yn 'glasuron'.
40	Mae'n anodd iawn cymharu nofelau mor wahanol yn fy marn i. Ond mae hon yn glasur yn ôl ei rhinwedd ei hun.
41	<i>Heb ateb.</i>
42	Mae'n cymharu'n ffafriol iawn.
43	Ddim i'r un graddau – OND mae bron i 4 blynedd ers imi ddarllen felly falle dylwn i ailddarllen.
44	Rwy'n credu ei bod yn cymharu'n ffafriol iawn gyda'r clasuron eraill – roedd hanes y brodyr a'r teulu yn wefreiddiol dros ben. Roedd Angharad Price wedi cyfleu lot fawr mewn cyfrol gymharol fach.
45	Mae hi'n dal ei thir ac fe dybiwn i y gwnaiff ennill mwy o dir. Dylai fod yn destun gosod lefel A.
46	Anodd deud – haws barnu mewn rhyw ddeng mlynedd arall. Ond anos hefyd i nofel sefyll allan dyddia 'ma – yng nghyfnod C. Prichard, K. Roberts, Islwyn Ffowc Elis, ychydig iawn o ddeunydd oedd yn cael ei gyhoeddi, felly roedd yn haws i waith gael sylw, ac wrth gwrs, doedd nofelau ddim yn cystadlu i'r fath raddau â mathau mwy cyfoes o adloniant. Wedi deud hynny, mi fyddai hi yr un mor anodd ceisio cymharu nofel Saesneg gyfoes â gwaith Dickens neu'r chwirydd Brontë.